



Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol
ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and
Economic Research and Data

CYNHADLEDD FLYNYDDOL

ANNUAL CONFERENCE

Anelu at gymdeithas decach

Aspiring to achieve a fairer society

Llyfrynn Crynodeb | Abstract Booklet

3^{ydd} a 4^{ydd} Gorffennaf | 3rd and 4th July

Prifysgol De Cymru | University of South Wales

@WISERDNews

#WISERD2024

Cipolwg ar y rhaglen

Diwrnod 1 Dydd Mercher 3 Gorffennaf

08:30 – 09:30

Cofrestru Te / Coffi
(Ystafell: Y dderbynfa)

09:30 – 9:45

Anerchiad Croeso: Martin Steggall, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi, Prifysgol De Cymru
(Ystafell: 2/3)

09:45 – 10:45

Y Prif Siaradwr: Yr Athro Christina Beatty, Prifysgol Sheffield Hallam
(Ystafell: 2/3)

10:45 – 11:00

Egwyl a Lluniaeth
(Ystafell: Gofod cymunedol)

11:00 – 12:30

Sesiwn Un (Gweler tudalennau 8-24 am grynodebau)

12:30 – 13:30

Cinio
(Ystafell: Caffi Stilts)

13:30 – 15:00

Sesiwn Dau (Gweler tudalennau 25-41 am grynodebau)

15:00 – 15:15

Egwyl a Lluniaeth
(Ystafell: Gofod cymunedol)

15:15 – 16:45

Sesiwn Tri (Gweler tudalennau 42-56 am grynodebau)

16:45 – 17:45

Ymchwil a Pholisi yn Seiliedig ar Le er mwyn creu Cymru well: Trafodaeth Bwrdd Crwn
(Ystafell: 2/3)

17:45 – 18:30

Derbyniad Diodydd a Phosteri
(Ystafell: Gofod cymunedol)

Diwrnod 2 Dydd Iau 4 Gorffennaf

08:45 – 09:30

Cofrestru Te / Coffi
(Ystafell: Y dderbynfa)

09:30 – 10:45

Sesiwn Pedwar (Gweler tudalennau 58-73 am grynodebau)

10:45 – 11:10

Egwyl a Lluniaeth | Chyhoeddi Enillwyr Cystadleuaeth Poster PhD (Ystafell: Gofod cymunedol)

11:10 – 12:10

Sesiwn Pump (Gweler tudalennau 74-77 am grynodebau)

12:10 – 13:15

Cinio
(Ystafell: Caffi Stilts)

13:15 – 14:45

Sesiwn Chwech (Gweler tudalennau 78-92 am grynodebau)

14:45

Sylwadau i Gloi: Ian Rees Jones, WISERD, Prifysgol Caerdydd
(Ystafell: 2/3)

Programme at a glance

Day 1 Wednesday 3 July

08:30 – 09:30
Registration opens Tea / coffee
(Room: Reception)

09:30 – 9:45

Welcome Address: Martin Steggall, Pro Vice Chancellor of Research & Innovation, USW
(Room: 2/3)

09:45 – 10:45

Keynote speaker: Professor Christina Beatty, Sheffield Hallam University
(Room: 2/3)

10:45 – 11:00

Refreshment break
(Room: Break-out Space)

11:00 – 12:30

Session One (Please see pages 8-24 for abstracts)

12:30 – 13:30

Lunch
(Room: Stilts Café)

13:30 – 15:00

Session Two (Please see pages 25-41 for abstracts)

15:00 – 15:15

Refreshment Break
(Room: Break-out Space)

15:15 – 16:45

Session Three (Please see pages 42-56 for abstracts)

16:45 – 17:45

Place-based Research and Policy for a better Wales: A Roundtable Discussion
(Room 2/3)

17:30 – 18:30

Drinks and Poster Reception
(Room: Break-out Space)

Day 2 Thursday 4 July

08:45 – 09:30
Registration opens Tea / coffee
(Room: Reception)

09:30 – 10:45

Session Four (Please see pages 58-73 for abstracts)

10:45 – 11:10

Refreshment break & PhD Poster Competition Winners Announced (Room: Break-out Space)

11:10 – 12:10

Session Five (Please see pages 74-77 for abstracts)

12:10 – 13:15

Lunch
(Room: Stilts Café)

13:15 – 14:45

Session Six (Please see pages 78-92 for abstracts)

14:45

Closing Remarks: Ian Rees Jones, WISERD, Cardiff University
(Room 2/3)

Croeso i Prifysgol De Cymru a Chynhadledd Flynyddol WISERD 2024

Mae Prifysgol De Cymru yn falch iawn o gynnal y gynhadledd eleni.

Ffocws y gynhadledd yw "Anelu at gymdeithas decach" ac mae'n ddilyniant pwysig o tema cyfarfod blynnyddol WISERD a gynhalwyd gan Brifysgol De Cymru yn 2018 ("Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac anghyflawned"). Ers y cyfarfod hwnnw, rydym wedi wynebu rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r cyhoedd mewn cenhedlaeth o ran cyni. Y nod fu llunio rhaglen o gyflwyniadau sy'n mynd i'r afael â gwahanol agweddau ar degwch a chydraddoldeb. Mae'r papurau hyn yn defnyddio ystod eang o ddulliau - ansoddol a meintiol (a dulliau cymysg) - i helpu i gyflawni'r nodau hyn. Ochr yn ochr â'r sesiynau hyn, rydym wedi amserlennu symposia, paneli a gweithdai annibynnol sy'n mynd i'r afael â phryderon polisi ehangach mewn gwahanol sectorau polisi. Mae hyn yn cynnwys sesiwn bwrdd crwn ar 'Ymchwil a Pholisi Seiliedig ar Le ar gyfer Cymru well' sydd wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod cyntaf y gynhadledd.

Dylai lleihau anghydraddoldebau – o safbwyt daearyddol a chymdeithasol – fod yn nod allweddol i gyrrf llywodraeth a chymdeithas sifil yng Nghymru. Felly, mae cynnwys papurau o'r tu allan i'r sector academaidd yn elfen bwysig o'r gynhadledd ac estynnwn groeso cynnes i siaradwyr o sefydliadau o'r fath. Gyda'n gilydd, mae gennym rolau pwysig i'w chwarae o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn meysydd fel cyflogaeth, tai, addysg, iechyd, yr amgylchedd, troseddu, trafnidiaeth a pholisi cymdeithasol. Er ein bod yn cydnabod bod gan Gymru ei set unigryw ei hun o heriau, rydym hefyd yn defnyddio astudiaethau achos o astudiaethau cenedlaethol a rhwngwladol ehangach i ystyried effeithio-Irwydd dulliau polisi mewn cyd-destunau eraill.

Drwy fynd i'r afael â materion amserol, gan gynnwys rôl deallusrwydd artiffisial a thargedau wedi'u hanelu at yr agenda sero-net, rydym yn tynnu sylw at rôl ymchwil WISERD wrth fynd i'r afael ag ystod eang o heriau hinsawdd, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Mae WISERD yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu ymchwilwyr sydd â sgiliau allweddol mewn methodolegau meintiol a GIS i fynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn. Drwy chwarae rhan ehangach mewn mentora a meithrin gallu yn WISERD, rydym hefyd yn gobeithio chwarae ein rhan mewn cynlluniau parhaus i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr i helpu i lywio ymyriadau polisi yng Nghymru.

Welcome to University of South Wales and the WISERD Annual Conference 2024

The University of South Wales (USW) is delighted to be hosting this year's conference.

The focus of the conference is "Aspiring to achieve a fairer society" and represents an important follow-on from the theme of the WISERD annual meeting hosted by USW in 2018 ("Addressing inequalities and injustice"). Since that meeting, we have faced some of the largest austerity-driven challenges facing the public in a generation. The aim has been to put together a programme of presentations which tackle different aspects of fairness and equality. These papers use a wide range of approaches - qualitative and quantitative (and indeed mixed methods) - to help achieve these goals. Alongside these sessions, we have timetabled stand-alone symposia, panels and workshops which address wider policy concerns in different policy sectors. This includes a roundtable session on 'Place-based Research and Policy for a better Wales' scheduled for the first day of the conference.

Reducing inequalities – from geographical and social perspectives – should be a key aim for government and civil society bodies in Wales. The inclusion of papers from outside the academic sector is therefore an important facet of the conference and we extend a warm welcome to speakers from such organisations. Together we have important roles to play in addressing inequalities in areas such as employment, housing, education, health, environment, crime, transport and social policy. Whilst acknowledging Wales has its own distinct set of challenges, we also draw on case studies from wider national and international studies to consider the effectiveness of policy approaches in other contexts.

By addressing topical issues, including the role of artificial intelligence and targets geared towards the net-zero agenda, we highlight the role of WISERD research in addressing a wide range of climate, environmental and socio-economic challenges. WISERD and USW continue to play a vital role in developing researchers with key skills in quantitative methodologies and GIS to address real world problems. By playing a wider role in mentoring and capacity building within WISERD, we also hope to play our part in on-going plans to train the next generation of researchers to help guide policy interventions in Wales.



Ian Rees Jones Gyfarwyddwr WISERD

Mae Ian Rees Jones yn Athro Ymchwil Gymdeithasegol ym Mhrifysgol Caerdydd. Ef hefyd yw Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD). Mae ei ymchwil yn mynd i'r afael â phrosesau newid cymdeithasol a'u heffaith ar unigolion, sefydliadau, cymunedau a chymdeithas sifil. Ef yw Cyfarwyddwr Canolfan Cymdeithas Sifil WISERD a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), sy'n dod ag ystod eang o gydweithwyr academaidd, sefydliadau cymdeithas sifil a gweithredwyr polisiau ynghyd. Nod y Ganolfan yw datblygu fframwaith Haeniad Dinesig i archwilio sut mae mathau o allgáu ac ehangu sifil a cholledion ac enillion dinesig yn effeithio ar gymdeithas sifil a'r potensial i sefydliadau cymdeithas sifil chwarae rôl allweddol yn y gwaith atgyweirio sifil. Mae'n gweithio ym Mharc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (sbarc|spark) ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n ceisio datblygu atebion arloesol i broblemau cymdeithasol drwy ymchwil gydweithredol. Mae'n aelod o'r Economi Sylfaenol. Mae hefyd yn un o Gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol. Mae'n ymlacio drwy redeg yn araf bach gyda'i gi, Taf, yn Eryri.

Ian Rees Jones WISERD Director

Ian Rees Jones is Professor of Sociological Research at Cardiff University and Director of the Wales Institute of Social & Economic Research & Data (WISERD). His research addresses processes of social change and their impact on individuals, institutions, communities, and civil society. He is Director of the ESRC funded WISERD Civil Society Centre which brings together a wide range of academic colleagues, civil society organisations and policy actors. The Centre aims to develop the framework of Civic Stratification to examine how civil society is affected by forms of civil exclusion and expansion, civic loss and gain, and the potential for civil society organisations to play a key role in civil repair. He is based in the new Social Science Research Park (sbarc|spark) at Cardiff University which aims to develop innovative solutions to societal problems through collaborative research activity. He is a member of the Foundational Economy collective and a Fellow of the Learned Society of Wales and Fellow of The Academy of Social Sciences. He relaxes by running very slowly with his dog Taf in Eryri.



Cynhadledd Flynyddol WISERD 2022, Prifysgol Abertawe | WISERD Annual Conference 2022, Swansea University

Prif anerchiad

09:45 – 10:45 Dydd Mercher 3 Gorffennaf

Ystafell: 2 / 3

Anweithgarwch Economaidd: gwahanol bobl, gwahanol lefydd

Yr Athro Christina Beatty

Y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol

Prifysgol Sheffield Hallam

Mae anweithgarwch economaidd yn destun trafod amlwg mewn dadleuon cyfoes ym myd gwleidyddiaeth, polisi a'r cyfryngau. Mae lefelau cyflogaeth yn dal yn is na'r hyn oedden nhw cyn y pandemig ac eto mae lefel diweithdra'n isel, mae nifer uchel o swyddi gwag ac mae prinder llafur yn gyffredin. Mae'r broblem hon yn deillio o'r ffaith bod nifer cynyddol o oedolion o oedran gweithio yn economaidd anweithgar – ddim mewn cyflogaeth nac yn ddi-waith. Mae'r nifer wedi codi 850,000 ers y pandemig. Er ein bod yn cydnabod fwyfwy bod gan farchnad lafur y DU broblem gynyddol o ran anweithgarwch economaidd, yn aml defnyddir y darlun cenedlaethol neu'r ffigurau crynswth i ddisgrifio'r broblem. Fodd bynnag, mae gan y ffenomen ddaearyddiaeth sylfaenol glir iawn y mae angen ei hystyried os yw llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol am gael dealltwriaeth glir o natur y broblem a datblygu cynlluniau polisi i fynd i'r afael â hi.

Bydd y cyflwyniad hwn yn ystyried a yw lefelau uchel o anweithgarwch economaidd yn broblem newydd neu a yw hyn wedi bod yn broblem barhaus mewn mathau penodol o lefydd neu rannau o'r farchnad lafur dros y 40 mlynedd diwethaf. Bydd y dystiolaeth yn dod o amrywiaeth o brosiectau ymchwil a gynhalwyd yn y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r astudiaethau hyn yn canolbwytio ar hen ardaloedd glo ym Mhrydain, ardaloedd diwydiannol hŷn a threfi glan môr, ac mae pob un ohonyн nhw'n dangos daearyddiaeth barhaus anweithgarwch economaidd dros amser. Mae cwestiynau'n cael eu gofyn hefyd ynghylch a fyddai'n well ystyried rhai mathau o anweithgarwch economaidd yn ddiweithdra cudd ac i ba raddau y mae angen cynlluniau ar ochr y galw yn ogystal â chynlluniau ar yr ochr gyflenwi i ddod o hyd i atebion polisi.



Keynote address

09:45 – 10:45 Wednesday 3 July

Room: 2 / 3

Economic Inactivity: different people, different places

Professor Christina Beatty
Centre for Regional Economic and Social Research
Sheffield Hallam University

Economic inactivity has very much come to the fore of contemporary political, policy and media debates. Employment remains below pre-pandemic levels and yet unemployment is low, vacancies are high and labour shortages are common. The answer to this conundrum lies in increasing numbers of working age adults who are economically inactive – neither in employment nor unemployed – which has risen by 850,000 since the pandemic. Whilst increasingly acknowledged that the UK labour market has a growing economic inactivity problem, often the national picture or aggregate figures are used to describe the issue. However, the phenomenon has a very clear underpinning geography which needs to be considered if national, regional and local government are to gain a clear understanding of the nature of the problem and develop policy initiatives to address the issue.

This presentation will consider if high levels of economic inactivity is a new issue or whether this has actually been a persistent problem in particular types of places or segments of the labour market over the past 40 years. Evidence will be drawn from a range of research projects undertaken in the Centre for Regional Economic and Social Research over the past 30 years. These studies focus on Britain's former coalfield areas, older industrial areas and seaside towns, all of which illustrate the persistent geography of economic inactivity over time. Questions are also raised as to whether some forms of economic inactivity might best be considered as hidden unemployment and the extent to which demand side as well as supply side initiatives are needed if policy solutions are to be arrived at.



Defnyddio adnoddau cynllunio ffynhonnell agored i hybu teithio cyhoeddus a llesol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau daearyddol yn y ddarpariaeth

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ceisio nodi goblygiadau hygyrchedd gofodol newidiadau mewn darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a dangos sut y gellir defnyddio technegau ffynhonnell agored i gynllunio llwybrau a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau daearyddol. Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys gweithredu datrysiaid ffynhonnell agored ar y we ar gyfer gwerthuso hygyrchedd gwasanaethau'n ddeinamig drwy drafnidiaeth gyhoeddus. Nod y cymhwysiad yw arfogi llunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau, rheolwyr trafnidiaeth a'r cyhoedd ag adnoddau greddfol a rhngweithiol iawn, i helpu i ddadansoddi a chymharu sut mae mynediad at wasanaethau yn amrywio o dan wahanol ffurfwediadau trafnidiaeth. Mae'r adnoddau hyn yn arddangos sut gallai newidiadau arfaethedig mewn seilwaith trafnidiaeth, lleoliad pwyntiau darparu gwasanaethau, neu amserlenni ac addasiadau llwybro effeithio ar rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu defnyddio'r cymhwysiad i weld sut gallai newidiadau arfaethedig i drafnidiaeth gyhoeddus effeithio arnynt o ran newidiadau i lefelau'r gwasanaethau y gallant eu cyrchu o dan wahanol senarios cynllunio lleol. Mae hyn yn hyrwyddo dadansoddiad archwiliadol yn ogystal â rhoi mewnbwn i randdeiliaid lleol i'r broses o gynllunio llwybrau ac amserlenni trafnidiaeth lleol.

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos mai dim ond allbynnau statig i ymarferwyr a'r cyhoedd y mae llawer o'r adnoddau presennol yn eu darparu, ac felly maen nhw'n cyfyngu ar randdeiliaid i ddadansoddi effeithiau sydd wedi'u dewis ymlaen llaw neu sydd wedi'u dadansoddi ymlaen llaw yn unig. Oherwydd cymhlethdod rhwydweithiau trafnidiaeth cyhoeddus a'r ffordd maen nhw'n rhngweithio ag ardal oedd trefol, efallai y bydd ymarferwyr yn cael eu digalonni gan yr ymdrech gyfrifiadurol sylweddol sydd ei hangen i gyfrifo canlyniadau y gellir gweithredu arnynt, a all yn y pen draw arwain at ryngweithio llai ystyrlon yn ystod y broses gynllunio. Mae'n bwysig nodi hyn gan fod y cymhwysiad hwn yn rhoi technegau a delweddau hawdd eu defnyddio i ddarpar ddefnyddwyr gyda mapiau a siartiau. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau bod defnyddwyr yn deall y canlyniadau a ddarperir ond mae hefyd yn caniatáu dadansoddi rhagfynegol drwy alluogi defnyddwyr i archwilio goblygiadau newidiadau mewn amserlenni mewn perthynas ag amseroedd agor gwasanaethau allweddol fel cyfleusterau siopa, iechyd, hamdden, diwylliannol ac addysgol. Ymhelaethir ymhellach ar y nodwedd hon drwy ganiatáu i ddefnyddwyr ychwanegu a dileu eu pwyntiau o ddiddordeb, gan eu galluogi i fesur beth allai ddigwydd ar ôl cau neu agor sefydliad newydd. Mae nodwedd olaf y cymhwysiad yn caniatáu i ddefnyddwyr greu eu llwybrau eu hunain a mapio sut mae'r newidiadau'n effeithio ar hygyrchedd yn eu hardal leol pan fydd llwybrau'n cael eu tynnu neu eu hychwanegu. Gallai hyn ganiatáu mewnbwn i'r penderfyniadau ar lwybrau bysiau sy'n cael eu gwneud gan sefydliadau fel awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru, a helpu i fynd i'r afael â nodau teithio llesol a chyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Liam Webb, Prifysgol De Cymru



Using open-source planning tools to promote public and active travel and address geographical inequalities in provision

This research seeks to identify the spatial accessibility implications of changes in public transport provision and demonstrate how open-source techniques can be used to plan routes and help address geographical inequalities. This study involves the implementation of an open-source web-based solution for dynamically evaluating the accessibility of services via public transport. The application aims to provide policymakers, service providers, transport managers and the public with intuitive and highly interactive tools to help analyse and compare how access to services varies under different transport configurations. These tools demonstrate how public transport networks may be affected by proposed changes in transport infrastructure, the placement of service delivery points, or timetable and routing modifications. Members of the public will be able to utilise the application to visualise how proposed public transport changes may affect them in terms of changes to the levels of services they can access under different local planning scenarios. This promotes exploratory analysis as well as giving local stakeholders an input into planning local transport routes and timetables.

Past research has shown that many current tools present only static outputs to practitioners and the public, and thus limit stakeholders to analysing only pre-selected or pre-analysed impacts. Due to the complexity of public transit networks and their interactions with urban spaces, practitioners may be discouraged by the significant computational effort needed to compute actionable results, which ultimately can lead to less meaningful interaction in the planning process. This is important to note as this application provides potential users with user-friendly techniques and visualisations with maps and charts. This not only ensures that users understand the results that are provided but also allows for predictive analysis by giving users the ability to examine the implications of changes in timetables in relation to the opening times of key services such as shopping, health, recreation, cultural and educational facilities. This feature is further expanded upon by allowing users to add and delete their points of interest allowing them to measure what could happen upon the closing or opening of a new establishment. The final feature of the application allows users to create their own routes and map how the changes affect accessibility in their local area when routes are removed or added. This could allow inputs into the decisions on bus routes being made by organisations such as local authorities and Transport for Wales and help address the Welsh Governments' active and public travel goals.

Liam Webb, University of South Wales



Creu dosbarthiad cenedlaethol o lefel y ddarpariaeth gwasanaethau bysiau yng Nghymru

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ymchwilio i argaeedd trafnidiaeth gyhoeddus – lefel y ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardal, e.e. agosrwydd at gyfnewidfeydd trafnidiaeth, amlder gwasanaeth, ansawdd gwasanaeth ac ati – drwy ddadansoddi lefel y ddarpariaeth gwasanaeth bysiau ar gyfer Cymru gyfan. Y nod yw creu dosbarthiad o lefel y ddarpariaeth gwasanaethau bysiau ar gyfer y 193 o brif aneddiadau yng Nghymru (tarddiad a chyrchfannau bron pob gwasanaeth bysiau yng Nghymru) i helpu ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi i ddeall sut mae gwahanol rannau o Gymru yn cael eu cysylltu gan fysiau yn ystod gwahanol adegau o'r dydd, gwahanol ddiwrnodau o'r wythnos, gan gynnwys gwasanaethau uniongyrchol a throsglwyddo. Mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio data a dulliau a ddatblygwyd mewn prosiect ariennir gan Rwydwaith Arloesedd Cymru ac mae'n rhan o brosiect Deall Lleoedd Cymru (<http://www.understandingwelshplaces.wales/cy/>). Mae'n cynnwys data amserleni bysiau, lleoliadau safleoedd bysiau, data cyfrifiad a data teipoleg cyd-ddibyniaeth o le Gwsg Prifysgol Cymru (GPC). Bydd y dosbarthiad yn caniatáu i ardaloedd yng Nghymru sydd â lefelau gwahanol o ddarpariaeth gwasanaethau bysiau gael eu mapio, eu cymharu a'u dadansoddi mewn perthynas â nodweddion demograffig a chymdeithasol-economaidd, yn ogystal â chyflogaeth, addysgol a chyfleoedd manwerthu, ac asedau a gwasanaethau cymunedol lleol. Efallai y bydd gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr proffesiynol yn gweld y dosbarthiad yn ddefnyddiol wrth geisio deall yn well sut mae gwasanaethau bysiau yn perfformio yn eu lle, o'u cymharu â mannau eraill yng Nghymru, yn enwedig y mannau hynny a ddangosir (gan offer fel dosbarthiad lle GPC) i fod â nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol tebyg i'w nodweddion eu hunain.

Scott Orford, Prifysgol Caerdydd

Creating a national classification of the level of bus service provision in Wales

This research investigates public transport availability (PTA) – the level of public transport service provision in an area such as proximity to transport nodes, frequency of service, quality of service etc. - by analysing the level of bus service provision for the whole of Wales. The objective is to create a classification of the level of bus service provision for the 193 principal Welsh settlements (the origins and destinations of nearly all bus services in Wales) to help researchers, practitioners and policymakers understand how different parts of Wales are connected by buses during different times of the day, different days of the week, including direct and transfer services. The research uses data and methods developed in a project funded by the Wales Innovation Network and forms part of the Understanding Welsh Places (UWP) project (<http://www.understandingwelshplaces.wales/en/>). It includes bus timetable data, bus stop locations, census data and the UWP interdependence of place typology data. The classification will allow areas of Wales which have different levels of bus service provision to be mapped, compared and analysed in relation to socio-economic and demographic population characteristics, as well as employment, educational, and retail opportunities and local community services and assets. Policymakers and professional practitioners may find the classification useful when trying to better understand how bus services within their place perform when compared to other places in Wales, particularly those places shown (by tools such as UWP's place classification) to have similar demographic and socio-economic characteristics to their own.

Scott Orford, Cardiff University

Cymunedau Cryf: wynebu'r her o fod ar y cyrion

Mae ymchwil arloesol BCT i asedau cymunedol yn dangos bod anghydraddoldeb parhaus sy'n seiliedig ar leoedd yn bodoli ar hyd a lled Cymru, a'r hyn ddylai ddigwydd nesaf. Yn 2023 cyhoeddodd BCT ddau fynegai cysylltiedig ond ar wahân - **Mynegai Asedau Cymunedol Cymru** (WCAI) a **Mynegai Cydnherthedd Cymunedol Cymru** (WCRI).

Mae'r ddau fynegai'n mesur, yn sgorio ac yn graddio pob ardal fach yng Nghymru, gan roi darlun cadarn o ddarpariaeth seilwaith cymunedol y genedl a chydnerthedd cymunedol ehangach. Wrth wneud hynny, mae categori o Ardaloedd Llai Cydnherth – lleoedd sydd â darpariaeth isel o seilwaith cymunedol a lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol – wedi cael ei nodi am y tro cyntaf erioed.

Mae llawer o Ardaloedd Llai Cydnherth i'w cael, naill ai ar gyrrion canolfannau trefol mawr neu ar stadau tai o'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac mewn hen gymunedau glofaol.

Mae cymunedau sydd â llai o fannau cyfarfod, sy'n ymgysylltu llai, yn llai bywiog ac sydd â chysylltedd gwael â'r economi ehangach, yn profi canlyniadau cymdeithasol ac economaidd sy'n sylweddol wahanol o'u cymharu â chymunedau sydd â mwy o'r asedau hyn.

Mae'r gwaith yn annog perspectif newydd o ran meddwl am le a thlodi yng Nghymru, gan gydnabod bod cael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd yn hanfodol i gyfleoedd bywyd pobl. Mae'r mynegeion yn adnodd meintiol i ddeall cydnherthedd a lles cymunedol yn fwy cyfannol nag o'r blaen.

Rhaid inni edrych y tu hwnt i'r mesurau amddifadedd presennol ac ymgorffori mesurau newydd o ymgysylltu a seilwaith cymunedol. Gall mesurau newydd waethygur heriau amddifadedd neu eu lliniaru. Ni ellir anwybyddu'r dystiolaeth newydd hon wrth gynllunio polisiau yn y dyfodol sy'n gwirioneddol geisio mynd i'r afael â thlodi ac anfantais ar draws y genedl.

Eleri Williams, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Resilient Communities: meeting the challenge of being at the margins

BCT's pioneering community assets research shows sustained, place-based inequality across Wales and what must happen next.

In 2023 BCT published two linked but separate indexes- The **Wales Community Assets Index** (WCAI) and the **Wales Community Resilience Index** (WCRI).

Both indexes measure, score and rank all small areas in Wales, providing a robust picture of the nation's provision of community infrastructure and broader community resilience. In doing so, a category of Less Resilient Areas - places with low provision of community infrastructure and high levels of socio-economic deprivation- has been identified for the first time ever.

Many Less Resilient Areas are found either on the peripheries of major urban centres or on post-World War II housing estates and in former mining communities.

Communities with fewer places to meet, a less engaged and active community and poorer connectivity to the wider economy, experience significantly different social and economic outcomes compared to communities possessing more of these assets.

The work encourages a new perspective on thinking about place and poverty in Wales, recognising that accessing services and opportunities is critical to peoples' life chances. The indexes are a quantitative tool to understand community resilience and wellbeing more holistically than previously.

We must look beyond existing measures of deprivation and incorporate new measures of community infrastructure and engagement. New measures can serve to exacerbate the challenges of deprivation or mitigate them. This new evidence cannot be ignored in the planning of future policies aiming to genuinely address poverty and disadvantage across the nation.

Eleri Williams, Building Communities Trust



Pŵer arwain drwy esiampl gydag ymddygiad carbon isel sy'n cael effaith: efelychu, ymddiried, hygrededd, cyflawnder

Mae mynd i'r afael â'r argywng hinsawdd yn gofyn am newidiadau eang mewn ymddygiad gan ddinasyddion. Mae'r cyfrifoldeb dros allyriadau'n amrywio'n fawr rhwng ac o fewn gwledydd, gan godi materion cyflawnder o ran pwy ddyllai weithredu gyntaf, a phwy ddyllai newid eu hymddygiad fwyaf. Mae'r 1% o ddinasyddion byd-eang cyfoethocaf yn gyfrifol am fwy o allyriadau carbon na'r 66% tlotaf, ac eto mae dilyniant a graddfa newid mewn ymddygiad unigol wedi cael eu hanwybyddu i raddau helaeth o blaid y rheidrwydd cyffredinol y "bydd angen i bob un ohonom newid ein hymddygiad". Yma, rydym yn cyflwyno gwaith ymchwil dulliau cymysg sy'n canolbwytio ar ystyriaethau cyflawnder hinsawdd sy'n ymwneud â gweithredu carbon isel personol gan arweinwyr. Rydym yn ystyried a oes gan arweinwyr gyfrifoldeb i weithredu yn gyntaf, a pha effaith y mae hyn yn ei chael. Mae tystiolaeth o bedwar grŵp ffocws a gynhalwyd yng Nghaerdydd a Llundain yn datgelu proses gymhleth o greu ystyr pan gyflwynir ymddygiad carbon isel i'r cyhoedd gan arweinwyr, fel hedfan llai, gyrru ceir trydan, teithio llesol, neu fwyta llai o gig. Ystyrir bod arwain drwy esiampl yn beth da normadol, ond mae cyd-destun, lleoliad a chymhelliant canfyddedig yn penu a yw gweithredoedd yr arweinwyr yn cael eu dehongli'n gadarnhaol ac yn cael eu hefelychu. Roedd cyfweliadau â 19 o Aelodau Seneddol y DU, gan gynnwys ASau Cymru, yn taflu goleuni ar eu hunan-ganfyddiadau fel arweinwyr a modelau rôl ym maes yr hinsawdd. Yn gyffredinol, mae'r ASau yn dyheu am arwain drwy esiampl, ond mae rhai'n cwestiynu eu rhwymedigaethau i weithredu'n gyntaf ac mae eraill yn ofni cael eu labelu'n "ffug-foesolwyr". Mae arbrawf arolwg (n=1,300) yn dangos bod arsylwi ar gamau gweithredu carbon isel personol gan arweinwyr yn cynyddu parodrwydd pobl eraill i gymryd camau o'r fath yn sylweddol. Mae'r arbrawf hefyd yn dangos bod arwain drwy esiampl yn cynyddu canfyddiadau o foesoldeb, hygrededd a dibynadwyedd arweinwyr yn ddramatig. Yn olaf, mae arolwg o bobl a wnaeth addewid i beidio â hedfan yn 2020 yn dangos i ba raddau y dylanwadwyd arnynt gan eraill i newid eu hymddygiad, a'r ystyriaethau cyflawnder sy'n sail i'r dylanwad hwn. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n taflu goleuni ar sut y gall gweithredu gan arweinwyr ddod â materion sy'n ymwneud â chyflawnder hinsawdd a thegwch i'r amlwg, gan gynyddu parodrwydd eraill i gydweithredu ar ymdrechion lliniaru'r hinsawdd.

Steven Westlake, Prifysgol Caerdydd, Ysgol Seicoleg

The power of leading by example with impactful low-carbon behaviour: emulation, trust, credibility, justice

Tackling the climate crisis requires wide-ranging changes of behaviour from citizens. Responsibility for emissions varies hugely between and *within* nations, raising issues of justice when it comes to who should act first, and whose behaviour should change the most. The richest 1% of global citizens are responsible for more carbon emissions than the poorest 66%, and yet the sequencing and scale of individual behaviour change has been largely overlooked in favour of general imperatives that "we will all need to change our behaviour". Here we present mixed methods research centring climate justice considerations relating to personal low-carbon action from leaders. We explore whether leaders have a responsibility to act first, and what effect this has. Evidence from four focus groups conducted in Cardiff and London reveals a complex process of meaning-making when the public is presented with low-carbon behaviour from leaders, such as flying less, driving electric cars, active travel, or eating less meat. Leading by example is seen as a normative good, but context, location and perceived motivation determine whether the leaders' actions are interpreted positively and emulated. Interviews with 19 UK Members of Parliament, including Welsh MPs, shed light on their self-perceptions as climate role models and leaders. Generally, the MPs aspire to lead by example, but some question their obligations to act first and others fear being labelled "virtue signallers". A survey experiment (n=1,300) reveals that observing personal low-carbon action from leaders significantly increases others' willingness to take such action. The experiment also shows that leading by example dramatically increases perceptions of leader morality, credibility and trustworthiness. Finally, a survey (n=968) of people who took a pledge not to fly in 2020 reveals to what extent they were influenced by others to change their behaviour, and the justice considerations underlying this influence. Taken together, the findings shed light on how leader action can bring issues of climate justice and fairness to the fore, heightening others' willingness to cooperate on climate mitigation efforts.

Steven Westlake, Cardiff University, School of Psychology



Ysgogi cymdeithasol yn erbyn y diwydiant tanwydd ffosil: repertoires newydd a newid yn y berthynas rhwng y wladwriaeth, y farchnad a'r gymdeithas sifil.

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio astudiaethau achos cymharol yn y DU ac Awstralia i ystyried sut mae repertoires ysgogi cymdeithasol yn cyfrannu at ddeinameg newidiol haenu dinesig mewn oes ansicr. Mae'n craffu ar y berthynas rhwng y wladwriaeth a'r gymdeithas sifil drwy wleidyddiaeth tanwydd ffosil.

Ystyr mudiadau cymdeithasol yw cymryd camau gweithredol cyfunol o natur wrthdrawiadol y tu allan i'r wladwriaeth. Mae llenyddiaeth mudiadau cymdeithasol yn cydnabod bod repertoires yn esblygu gyda chysylltiadau traws-wladol a thechnolegau newydd, ond mae llai o ddealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng hyn a bygythiad byd-eang ein hoes, sef yr argyfwng hinsawdd. Mae'r papur hwn yn gofyn y cwestiynau canlynol: Pa fathau newydd o ysgogi cymdeithasol a rhwydweithio trawsleol sy'n dod i'r amlwg mewn sefydliadau cymdeithas sifil mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, a sut mae'r rhain yn effeithio ar y berthynas rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth?

Cafodd sampl fwriadus o sefydliadau sy'n ymgyrchu dros yr hinsawdd ei nodi drwy ddadansoddiad o'r cyfryngau cymdeithasol. Cafodd cyfweliadau lled-strwythuredig eu cynnal a chafodd dadansoddiad di-sgwrs sy'n canolbwytio ar broblemau ei ddefnyddio.

Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn datgelu disgwrs 'croesi'r llinell' sy'n gosod ymgyrchwyr ar y raddfa gymedrol-radical. Roedd y newid tuag at weithgarwch mwy cynhennus yn gysylltiedig â diffyg grym i hoelio sylw llywodraethau ar yr argyfwng hinsawdd. Mae anobaith a gorflinder yn flaenllaw mewn trafodaethau, ond mae repertoires newydd o fewn ac ar draws sefydliadau rhwydweithiol yn dibynnu ar gysylltiad a hunaniaeth a rennir i gefnogi llesiant unigolion. Mae'r llywodraethau sy'n deddfu yn erbyn protest yn creu cysylltiad cymhleth rhwng cymdeithas sifil, y farchnad a'r wladwriaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn berthnasol yn rhwng-wladol, boed yn ddamcaniaethol o ran deall tensiynau sy'n ansefydlogi rhwng cymdeithas sifil a'r wladwriaeth, ac yn ymarferol o ran archwilio sut i gefnogi cymdeithas sifil sy'n ceisio diogelu dyfodol ein planed.

Amy Sanders, Prifysgol Aberystwyth

Social mobilisation against the fossil fuel industry: new repertoires and changing relations between the state, the market and civil society.

This project utilises comparative UK and Australian case studies to explore how new repertoires of social mobilisation contribute to the shifting dynamics of civic stratification in the age of uncertainty. It interrogates the state-civil society relationship through fossil fuel politics.

Social movements are conceptualised as undertaking collective action of a conflictual nature located outside of the state. Extant social movement literature recognises that repertoires evolve with new technologies and transnational connections, but less is understood about how this relates to the contemporary global threat of climate crisis. This paper asks: What new forms of social mobilisation and translocal networking are emerging in civil society organisations in response to the climate crisis, and how do these impact on the relationship between citizens and the state?

A purposive sample of climate activist organisations were identified through a social media analysis. Semi-structured interviews were undertaken and a problem-orientated discourse analysis was used.

Emergent findings reveal a 'crossing the line' discourse that locates activists on the moderate-radical scale. Transition towards more contentious activity was allied to powerlessness to engage governments in climate crisis. Despair and burnout dominate discourses, but new repertoires within and across networked organisations lean on connection and shared identity to support individuals' wellbeing. Governments legislating against protest creates a complex entanglement between civil society, market and the state. These findings have international relevance, both theoretically, in understanding destabilising tensions between civil society and the state, and in practice, in examining how to support civil society striving to protect our planet's future.

Amy Sanders, Aberystwyth University



Gweithio Tuag at Brydain Gwyrddach: Pwy, Ble ac er Lles Pwy

"Wrth ystyried y brys i newid i sero-net, mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi ymyriadau polisi gwyrdd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth mewn perthynas â swyddi gwyrdd yn dameidiog, yn rhannol oherwydd diffyg consensws rhyngwladol ar ddiffiniad. Mae'r papur hwn yn cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r bwlc hwn yn yr wybodaeth, drwy edrych ar gyflogaeth werdd yng Nghymru a Lloegr.

I ddechrau, mae'r awduron yn rhoi disgrifiad manwl o gyflogaeth a chyflog mewn galwedigaethau gwyrdd. Mae'r astudiaeth yn defnyddio modelau trawstoriadol a deinamig i ddadansoddi cyflogaeth a chyflog mewn galwedigaethau gwyrdd ar draws gwahanol grwpiau. Gan ddefnyddio set fawr o ddata micro o ansawdd uchel gan gyflogwyr, mae'r canlyniadau'n dangos bod unigolion yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaeth werdd os ydynt yn wyn, yn wrywaidd, yn gweithio'n llawn amser ac yn cael eu cyflogi gan fusnes tramor cymharol fach. Mae premiwm cyflog sylweddol hefyd ar gyfer y rheini sy'n gweithio mewn galwedigaethau gwyrdd. Fodd bynnag, nid yw'r premiwm cyflog wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, gyda gweithwyr o dras Asiaidd yn cael llawer llai na gweithwyr gwyn. Mae'r canlyniadau'n awgrymu, er mwyn cael trawsnewid teg a chyflawn, efallai y bydd angen ymyriadau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb deuol o ran cyfleoedd a chyflogau y mae rhai grwpiau lleiafrifol yn ei brofi.

Gan gymhwysyo Theori'r Iseldiroedd o Ddewis Gyrfa, yr astudiaeth hon yw'r gyntaf i ddefnyddio set ddata fawr i ymchwilio i weld a yw ymddygiad personol a dewisiadau cyflogaeth gwyrdd yn gyson. I wneud hynny, mae'r awduron yn archwilio i weld a yw ymddygiad unigolion o ran teithio i'r gwaith yn cyd-fynd â'u dewis o swydd. Mae canlyniadau rhagarweiniol yn awgrymu diffyg cyfatebiaeth bosibl rhwng ymddygiad cymudo a'r dewis o alwedigaeth.

Damian Whittard, *Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste*

Working Towards a Greener Britain: Who, Where and for Whose Benefit

"Given the urgency of the transition to net-zero, there is a need for a robust evidence base to support green policy interventions. Intelligence in relation to green jobs, however, is fragmented, partially due to the lack of an international consensus on definition. This paper contributes to addressing this knowledge gap, by exploring green employment in England and Wales.

Initially the authors provide a detailed description of employment and pay in green occupations. The study applies cross sectional and dynamic models to analyse employment and pay in green occupations across different groups. Using a high quality, large-scale, employer informed micro-dataset, the results indicate that individuals are more likely to work in a green occupation if they are white, male, work fulltime and are employed by a foreign owned, relatively small business. There is also a substantial pay premium for those that work in green occupations. The pay premium, however, is not equally distributed, with Asian workers faring comparatively less well than white counterparts. The results suggest that to have a fair and just transition, interventions may be required to address the dual inequality of opportunity and pay experienced by some minority groups.

Applying Holland's Theory of Career Choice, this study is the first to use a large-scale dataset to investigate whether personal behaviours and green employment choices are consistent. To do so, the authors explore whether an individuals' travel to work behaviour is aligned with their job choice. Preliminary results suggest a potential mismatch between commuting behaviours and choice of occupation."

Damian Whittard, *University of the West of England, Bristol*



A all yr agenda i ddatgarboneiddio tai fynd i'r afael ag anghydraddoldebau i denantiaid?

Dr Vickie Cooper, Y Brifysgol Agored, victoria.cooper1@open.ac.uk;

Rob Milligan, Tai Pawb, rob@taipawb.org

Amcangyfrifir bod adeiladau preswyl yn cynrychioli 10% o allyriadau carbon yng Nghymru. Felly, rhan sylweddol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflawni targedau sero net yw datgarboneiddio ei stoc tai – tua 1.4 miliwn o anheddua.

Aelwydydd difreintiedig a grwpiau incwm isel sy'n fwyaf tebygol o fod yn byw yn y cartrefi lleiaf ynni effeithlon ac felly maent yn wynebu risg uwch o brofi amodau iechyd gwael o ganlyniad i hynny. Amcangyfrifir bod 155,000 o aelwydydd yn profi tlodi tanwydd yng Nghymru, lle nad oes gan bobl incwm digonol i wresogi eu cartrefi, neu maent yn gwario cyfran uchel o'u hincwm ar filiau ynni. Ers cynyddu'r cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill 2022 a'r argyfwng costau byw, mae tlodi tanwydd wedi dod yn broblem systemig ac mae'r Llywodraeth yn dibynnu'n helaeth ar raglenni datgarboneiddio tai i ddiddymu tlodi tanwydd. Mae rhaglenni ôl-osod wedi'u harwain gan y Llywodraeth yn cael eu blaenoriaethu mewn polisiau tai fel y prif lwybr i gysylltu aelwydydd ag ynni glanach, rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil yn raddol a lleihau gwariant aelwydydd ar filiau ynni. Ond a all y rhaglenni hyn warantu'r hawliau tai a safonau byw gwell i denantiaid difreintiedig ac ar incwm isel? Bydd y papur hwn yn archwilio'r graddau y gall datgarboneiddio tai gynnig mwy o ddiogelwch i aelwydydd difreintiedig ac incwm isel a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, neu p'un a yw ond yn cynnal sefyllfa bresennol neo-ryddfrydol y polisiau tai.

Dr Vickie Cooper, Y Brifysgol Agored a Rob Milligan, Tai Pawb

Can the agenda to decarbonise housing tackle inequality for tenants?

Dr Vickie Cooper, The Open University, victoria.cooper1@open.ac.uk

Rob Milligan, Tai Pawb, rob@taipawb.org

It is estimated that residential buildings account for 10% of carbon emissions in Wales. A significant part of Welsh government plans to reach net zero targets is therefore to decarbonise its housing stock - approximately 1.4 million dwellings.

Disadvantaged households and low-income groups are most likely to be living in the least energy efficient households and are at greater risk of experiencing poor health conditions as a result. It is estimated that 155,000 households experience fuel poverty in Wales, whereby people have insufficient income to heat their homes, or spend a high portion of their income on energy bills. Since increasing the energy price cap in April 2022 and cost of living crisis, fuel poverty has become a systemic problem and the government is relying heavily upon decarbonising housing programmes to eliminate fuel poverty. Government-led retrofitting programmes are prioritised in housing policy as the main route for connecting households to cleaner energy, phasing out fossil fuel consumption and reducing household spending on energy bills. But can these programmes guarantee the housing rights and better living standards for disadvantaged and low-income tenants? This paper will explore the extent to which decarbonising housing can offer greater protection for disadvantaged and low-income households and tackle inequality, or whether it merely maintains the neo liberal status quo of housing policy.

Dr Vickie Cooper, The Open University and Rob Milligan, Tai Pawb

Rolau negyddol a phositif cywilydd wrth fewnoli gwerthoedd cymdeithasol gormesol a

Bwriad y papur yw archwilio dau syniad athronyddol penodol ond cysylltiedig am rôl cywilydd mewn syniadau am degwch sy'n ymwneud â ffurfio hunaniaeth a chynhwysiant / allgáu cymdeithasol. Yn gyntaf, cywilydd fel emosiwn sy'n adlewyrchu mewnoliad gwerthoedd cymdeithasol yr unigolyn, er enghraifft, barn am yr hyn sy'n 'gywir ac yn anghywir' / 'delfrydol ac annelfrydol' / 'normal ac annormal'. Yn ail, cywilydd fel emosiwn sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl eraill yn edrych ar y pwnc, sy'n deillio o 'olwg y cyhoedd' sy'n creu cywilydd drwy gael ei ystyried 'yn wahanol' / 'yn ddieithryn', ond sydd wedyn yn gallu arwain at allgáu cymdeithasol. Y brif ddadl yw y gall cywilydd, er bod iddo arwyddocâd negyddol amlwg mewn materion sy'n ymwneud â chyflawned cymdeithasol, hefyd, yn erbyn disgwyliadau, gael goblygiadau cadarnhaol. O ran y cyn-oblygiadau negyddol, gall cywilydd gyfyngu unigolyn i gategori cymdeithasol penodol sy'n cael ei ystyried yn 'llai na' neu 'ddim yn ddelfrydol'. Mae'r dyfarniad hwn wedyn yn 'dilysu' allgáu cymdeithasol / anghyflawned cymdeithasol ar gyfer unigolyn sy'n aelod o grŵp sy'n cael ei ystyried yn 'deilwng o gywilydd'. O ran y goblygiad cadarnhaol olaf, gellir defnyddio cywilydd fel 'baromedr cymdeithasol' effeithiol i fesur a dangos y ffordd y caiff unigolion a grwpiau eu barnu yn ôl safonau cymdeithasol penodol. Fodd bynnag, mae'r amlygiad hwn wedyn yn darparu llwyfan ar gyfer beirniadu a gwrthsefyll systemau cymdeithasol a diwylliannol sy'n gormesu ac yn allgáu yn gymdeithasol. Ar ben hynny, mewn undod ag eraill sy'n profi barnau cymdeithasol 'cywilyddus' tebyg, mae'r gwrthwynebiad hwn hefyd yn rhyddhau aelodau o grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Steve Smith, Prifysgol De Cymru

The negative and positive roles of shame in the internalisation of oppressive social values and the development of social critique and resistance

The paper intends to explore two distinct but related philosophical ideas about the role of shame in ideas of fairness as related to identity formation and social inclusion/exclusion. First, shame as an emotion which reflects the subject's internalisation of social values, for example, views about what is 'right and wrong'/'ideal and non-ideal'/'normal and abnormal'. Second, shame as an emotion which reflects the way other people view the subject, derived from a 'public gaze' that produces shame via being seen as 'different/an outsider', but which can then lead to socially exclusion. The main argument is that shame, while has obvious negative connotations in matters relating to social justice, can also, against expectations, also have positive connotations. Regarding the former negative connotations, shame can limit a person to a particular social category which is judged as 'lesser than' or 'non-ideal'. This judgement then 'legitimises' social exclusion/social injustice for a person who is a member of a group that is deemed 'shame-worthy'. Regarding the latter positive connotations, shame can be used as an effective 'social barometer' to gauge and expose the way individuals and groups are judged according to certain social standards. However, this exposure then provides a platform for critiquing and resisting social and cultural systems which socially oppress and exclude. Moreover, in solidarity with others experiencing similar 'shaming' social judgements, this resistance is also liberating for members of socially excluded groups.

Steve Smith, University of South Wales



Astudiaeth archwiliol o'r defnydd o Causal Map i ganfod asedau cymunedol sy'n cael effaith ar lesiant

Mae datblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu i sefydlu dystiolaeth gadarn am gymunedau yn hanfodol yng nghyd-destun cefnogaeth gymunedol i wella ansawdd bywyd. Mae'n hollbwysig deall y mechanweithiau a'r amodau sy'n sbarduno newid mewn gymunedau a'u heffaith ar lesiant unigolion a llesiant pawb. Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar sut gall y feddalwedd Casual Map ein helpu i ddeall beth sy'n gwneud gymunedau'n iachach ac yn hapusach. Cynhaliwyd yr astudiaeth yn Sir Benfro rhwng 2022 a 2023, gyda'r nod o edrych ar y dylanwadau ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau sy'n seiliedig ar leoedd gan ddefnyddio'r rhaglen meddalwedd Casual Map. Defnyddiodd yr astudiaeth gyfweliadau lled-strwythur dig gyda 32 o ymatebwyr o ddwy gymuned a defnyddiodd Casual Map i godio a dadansoddi'r data. Roedd y canlyniadau'n dangos pa mor ddefnyddiol yw Casual Map fel adnodd i ddeall beth sy'n dylanwadu ar lesiant, gan ddatgelu ffactorau fel mynediad at natur, ymgysylltu â'r gymuned, gweithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli, a gwasanaethau iechyd. Roedd y feddalwedd yn hwyluso'r broses o ddelweddu cysylltiadau achosol cymhleth ac roedd yn galluogi dadansoddiad penodol drwy hidlo setiau data. Nodwyd heriau wrth feistriol'r feddalwedd ond cawsant eu goresgyn drwy gydweithio a chefnogaeth. Ar ben hynny, mae'r gwaith o ddatblygu Casual Map yn ystod cyfnod yr astudiaeth wedi arwain at wella ei ymarferoldeb, gan gynnwys hidlyddion parod a datblygiadau mewn deallusrwydd artifisial, gan hwyluso dadansoddiad data mwy ystwyth. Mae'r cydweithio cadarnhaol rhwng sectorau wedi arwain at lwyddiant yr astudiaeth, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cynhyrchu a defnyddio dystiolaeth i ddeall anghenion y gymuned yn well.

Jessie Buchanan, Gyda'n Gilydd dros Newid.

An exploratory study on the utility of Causal Map to identify community assets that impact on wellbeing

Developing knowledge, skills, and capacity to establish robust evidence about communities is crucial within the context of community support for enhancing quality of life. Understanding the mechanisms and conditions driving change within communities and their impact on individual and collective wellbeing is paramount. This study looks at how the Causal Map software can help us understand what makes communities healthier and happier. The study was conducted in Pembrokeshire from 2022-2023, aiming to explore the influences on the health and wellbeing of individuals and place-based communities using the Causal Map software application. The study utilised semi-structured interviews with 32 respondents from two communities and employed Causal Map for coding and analysis of the data. The results demonstrated the utility of Causal Map as an exploratory tool for understanding the determinants of wellbeing, revealing factors such as access to nature, community engagement, activities, volunteering opportunities, and health services. The software facilitated the visualisation of complex causal links and enabled focused analysis through filtering of data sets. Challenges in mastering the software were noted but were overcome through collaboration and support. Furthermore, the development of Causal Map during the study period led to enhancements in its functionality, including preset filters and advancements in AI, facilitating more agile data analysis. The positive collaboration between sectors contributed to the success of the study, emphasising the importance of generating and utilising evidence to understand community needs better.

Jessie Buchanan, Together for Change



Cynhadledd Flynyddol WISERD 2022, Prifysgol Abertawe | WISERD Annual Conference 2022, Swansea University

Ymateb Llesiant i Ddatblygiad Anabledd yn y DU

Astudiaeth seicolegol a gynhaliwyd yn 1978 (Enillwyr Loteri a Dioddefwyr Damweiniau: A yw Hapusrwydd yn Gymharol? Bu Brickman et al.) yn dadlau dros fodolaeth yr *Hedonic Treadmill* - y syniad y bydd eich lles bob amser yn dychwelyd i bwynt penodol ar ôl digon o amser, ni waeth pa ffawd sy'n eich bwrw mewn bywyd, boed yn dda neu'n ddrwg. Rwy'n profi'r syniad hwn yng nghyd-destun anabledd. Gan ddefnyddio 9 ton o ddata gan Understanding Society a gofnodwyd rhwng 2009 a 2018, rwy'n olrhain lefelau bodlonrwydd bywyd unigolion oedran gweithio yn y DU cyn, yn ystod ac ar ôl dechrau anabledd, ac yn archwilio a yw eu boddhad â bywyd yn dychwelyd i bwynt penodol. Gwelaf fod yr ateb i'r cwestiwn hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddifrifoldeb a hyd anabledd. Rwyf hefyd yn defnyddio dull croestoriadol drwy archwilio a yw gwahanol grwpiau mewn cymdeithas yn profi anabledd yn wahanol. Yn ddiddorol, rwy'n gweld hefyd sut mae anabledd yn dechrau effeithio ar briod y person anabl. Un o gyfngiadau'r astudiaeth yw nad yw llawer o'r dirywiad mewn llesiant ar ôl i anabledd ddechrau yn cael ei egluro gan unrhyw un o'r newidynnau yn y set ddata, gan godi cwestiynau o bosibl yngylch sut dylid casglu data am fywydau pobl anabl. Mae'r gwaith hwn yn rhan o draethawd PhD a ysgrifennwyd yn Ysgol Busnes Caerdydd, dan oruchwyliaeth yr Athro Melanie Jones, Dr Ezgi Kaya a'r Athro Victoria Wass. Fe'i hysgrifennwyd ar y cyd â Disability Rights UK ac fe'i hariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

John Poole, Pryfysgol Caerdydd

The Wellbeing Response to Disability Onset in the UK

A psychological study conducted in 1978 (Lottery Winners and Accident Victims: Is Happiness Relative? Brickman et al.) argued for the existence of the *Hedonic Treadmill* - the idea that no matter what fate besets you in life, whether good or bad, your wellbeing will always return to a set point given enough passage of time. I test this idea in the context of disability onset. Using 9 waves of data from Understanding Society recorded between 2009 and 2018, I track the life satisfaction levels of working-aged individuals in the UK before, during and after the onset of disability and examine whether their life satisfaction does indeed return to a set point. I find that the answer to this question depends largely on both the severity and the length of disability. I also take an intersectional approach by examining whether different groups in society experience disability differently. Interestingly, I also find how disability onset affects the spouse of the disabled person. A limitation of the study is that much of the decline in wellbeing following disability onset is not explained by any of the variables included in the dataset, potentially raising questions over how data on the lives of disabled people should be collected. This work is part of a PhD thesis written at Cardiff Business School, supervised by Professor Melanie Jones, Dr Ezgi Kaya and Professor Victoria Wass. It was written in collaboration with Disability Rights UK and is funded by the Economic and Social Research Council.

John Poole, Cardiff University



Optimeiddio gofod cartref oedolion hŷn i hybu bywiogrwydd ac i leihau ymddygiad llonydd

Cefndir Ychydig iawn o astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar effaith amgylchedd y cartref ar ymddygiad eisteddog (YE) oedolion hŷn a gweithgarwch corfforol (GC) gan ddefnyddio'r model cymdeithasol-ecolegol (MCE). Nod yr astudiaeth hon yw ymchwilio i GC a YE oedolion hŷn yn amgylchedd y cartref gan integreiddio'r MCE fel fframwaith damcaniaethol. Mae'r canfyddiad wedi arwain at gynllunio ac archwilio'r treial dichonoldeb sy'n ceisio lleihau YE oedolion hŷn a gwella eu GC yn y cartref. **Dulliau** Defnyddiwyd dull ymchwil ansoddol i gynnal 33 o gyfweliadau manwl a phum grŵp ffocws (Grwpiau Ffocws; n = 16) gydag oedolion hŷn amlethnig (oed cymedrig 72 ± 5 oed). Trwy ddefnyddio dadansoddiad thematig myfyriol crëwyd themâu o'r set ddata ac fe'u dehonglwyd gan ddefnyddio'r MCE. Bydd y treial dichonoldeb yn cael ei lywio gan y MCE a'r ddamcaniaeth gymdeithasol-wybyddol i ystyried y posibilrwydd o wisgo teclyn i atgoffa defnyddwyr i godi'n amlach (trwy sefyll ar eu traed a symud mwy), ynghyd â sesiwn byr ar hyfforddiant iechyd, pamffled, a negeseuon atgoffa wythnosol i leihau YE a gwella GC. Y prif nod yw pennu cyfraddau reciwtio a chadw cyfranogwyr, a chydymffurfio â'r ymyrraeth. Diffinnir llwyddiant o ran reciwtio ar sail cofrestru 50% o unigolion sy'n cael eu sgrinio. Diffinnir llwyddiant o ran cadw niferoedd yn y treial ar sail bod 80% o'r cyfranogwyr wedi cwblhau'r treial tair wythnos, gan na fyddai'n ymarferol cynllunio, ariannu a gweithredu treial ar raddfa fawr. Diffinnir llwyddiant cadw at y treial dichonoldeb ar sail bod 60% o'r cyfranogwyr yn dilyn yr ymyrraeth ac yn cwblhau llyfrau log. **Canlyniadau** Mae'r canfyddiadau'n dangos bod lefelau gwahanol o'r MCE wedi cael effaith ar GC a YE oedolion hŷn. Mae'r rhain yn cynnwys y 1) Lefel unigolyn: Agwedd, canfyddiad, a chymhelliant 2) Lefel rhyngbersonol: Teulu a Ffrindiau: cymhelliaid i barhau i fod yn egniol 3) Lefel sefydliadol: sefydliadau gofal iechyd, 4) Ffactorau lefel cymunedol: Pwysigrwydd grwpiau cymdeithasol, 5) Amgylchedd Ffisegol: Micro-amgylchedd a 6) Ffactorau lefel polisi (y cyfyngiadau symud a'r system gofal iechyd). Gellir ddefnyddio'r model hwn i feithrin gweithgarwch yn y cartref trwy ganolbwyntio ar yr hwyluswyr a'r rhwystrau a nodwyd ar bob un o'r lefelau dylanwad hyn. Dywedodd yr oedolion hŷn fod yr ymyrraeth yn dderbyniol ac yn ymarferol gan fod 50% o'r unigolion a sgriniwyd wedi cael eu reciwtio ac mae'r holl gyfranogwyr a reciwtiwyd wedi cwblhau'r cyfnod ymyrraeth 3 wythnos ac wedi cadw at brotocol yr astudiaeth h.y. Ilenwi a chwblhau'r daflen log. **Casgliad** Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu bod addasu GC a YE yn amgylchedd y cartref yn gymhleth ac yn cael ei ddyylanwadu ar draws gwahanol lefelau o'r MCE. Felly, mae angen dull cyfannol sy'n integreiddio'r dylanwadau lluosog hyn. Mae'r wybodaeth hon wedi llywio'r gwaith o gynllunio ymyriadau dichonoldeb sy'n ceisio sicrhau cymaint â phosibl o GC a lleihau YE o fewn amgylchedd y cartref. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth bresennol yn pennu addasrwydd treial effeithiolrwydd ar gyfer oedolion hŷn yn y dyfodol.

Naureen Meghani, Pryfgol Abertawe

Optimising older adults home space to enhance activity and minimise sedentary behaviour

Background Few studies focus explicitly on the impact of the home environment on older adults' sedentary behaviour (SB) and physical activity (PA) using the socio-ecological model (SEM). This study aims to investigate older adults' PA and SB within the home environment integrating the SEM as a theoretical framework. The finding has directed to design and examine the feasibility trial that aims to minimize older adults' SB and enhance their PA within the home space. **Methods** A qualitative exploratory research design was employed to conduct 33 in-depth interviews (IDIs) and five focus groups (FGs; n = 16) with multi-diverse ethnic older adults (mean age 72 ± 5 years). Using reflexive thematic analysis themes were generated from the data set and were interpreted using the SEM. The feasibility trial will be informed by the SEM and social-cognitive theory to examine the feasibility of a wearable gadget to remind users to break sitting time (by standing up and moving more), coupled with a brief health coaching session, pamphlet, and weekly reminder messages to decrease SB and improve PA. The primary goal of determining rates of participant recruitment, retention, and adherence to the intervention, we define success for recruitment as enrolling 50% of individuals screened. We defined success for retention in the trial as 80% of participants completing the 3-week trial, as it would not be feasible to plan, fund, and implement a large-scale trial. The success of adherence to the feasibility trial is taken as 60% of participants following intervention and completing logbooks. **Results** The findings indicate that different levels of the SEM had an impact on older adults' PA and SB. These include the 1) Individual level: Attitude, perception, and motivation 2) Interpersonal level: Family and Friends: a motive to remain active 3) Organisational level: healthcare institutes, 4) Community level factors: Significance of social groups, 5) Physical Environment: Microenvironment and 6) Policy level factors (lockdown restrictions and healthcare system). This model can be utilized to foster activity within the home by focusing on the facilitators and barriers identified at each of these levels of influence. Older adults reported that intervention is acceptable and feasible as 50% of individuals screened were recruited and all recruited participants have completed the 3-week intervention phase and adhered to the study protocol i.e., filling and completing the log sheet. **Conclusion** The study findings suggest that modifying PA and SB in the home environment is complex and is influenced across different levels of the SEM. Therefore, a holistic approach is required that integrates these multiple influences. This understanding has informed the design of feasibility interventions that seek to optimize PA and minimize SB within the home environment. The findings of the current study will determine the suitability of a future effectiveness trial for older adults.

Naureen Meghani, Swansea University



Ieithoedd Lleiafrifol fel Difrod Damweiniol yn yr Argyfwng Hinsawdd – Canlyniad damweiniol Trychineb hinsoddol ar Y Gymraeg

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar ddata ansoddol empirig, a gasglwyd drwy grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn tair tref wledig ar hyd Arfordir Gogledd Orllewin Cymru, i gyd o fewn sir Gwynedd. Roedd y cyfranogwyr rhwng 18-30 oed a bu iddynt fynegi pryder cynyddol am effaith yr argyfwng hinsawdd ar y Gymraeg neu ar yr iaith Gymraeg. Yn ddaearyddol ac yn ieithyddol, mae llawer o ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru yn cael eu hystyried yn rhan o Gadarnleoedd y Gymraeg neu'r "Welsh-speaking Heartlands" ac felly mae ganddynt eu hunaniaeth a'u diwylliant unigryw eu hunain. Mae adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) (2023) yn canfod, ar gyfartaledd dros yr 20 mlynedd nesaf, y disgwylir i dymheredd byd-eang gyrraedd neu fod yn uwch na 1.5°C o gynhesu, gan effeithio'n sylweddol ar y tebygolrwydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol a chynnnydd yn lefel y môr yn fydd-eang. I lawer o ardaloedd arfordirol ledled y byd, bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar gyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol cymunedau sydd â'r potensial ar gyfer colli iaith a diwylliant trychinebus i'r ganrif nesaf (Jaakkola et al, 2018). Mae hyn hefyd yn wir am Gymru, gwlaid sydd eisoes yn mynd i'r afael â cholli iaith yn ôl data Cyfrifiad y DU (2021) yn ddiweddar. O safbwyt cyflawnwr amgylcheddol, mae hyn yn ein gwahodd i ystyried sut mae Marwolaeth iaith lleiafrifol yn ganlyniad damweiniol i'r chwalfa hinsawdd oherwydd mudo gorfodol a sut mae'r un grymoedd sy'n sbarduno cwmp ecolegol yn dinistrio diwylliannau ac ieithoedd ledled y byd. Mae hyn yn fater o anghyflawnwr i lawer o'r cymunedau hyn

Lowri Cunnington-Wynn, Prifysgol Aberystwyth

Minority Languages as Collateral Damage in the Climate Crisis – The incidental Result of Climate Catastrophe on Y Gymraeg/Welsh Language

This paper is based on empirical qualitative data, captured through focus groups conducted in three rural towns along the Northwest Wales Coastline, all within the county of Gwynedd. Participants were between 18-30 years of age and expressed an increasing anxiety about the impact of the climate crisis on y Gymraeg or the Welsh Language. Geographically and linguistically, many areas in Northwest Wales are considered to be a part of Cadarnleoedd y Gymraeg or the Welsh speaking Heartlands and therefore have their own distinct identity and culture. The latest Intergovernmental Panel on Climate Change (IPCC) report (2023) finds that averaged over the next 20 years, global temperature is expected to reach or exceed 1.5°C of warming, significantly impacting the probability of extreme weather events and rising sea levels globally. For many coastal areas across the world, this will have a detrimental impact on the social and cultural makeup of communities with the potential for catastrophic language and cultural loss into the next century (Jaakkola et al, 2018). This also holds true for Wales, a country already grappling with language loss according to recent UK Census data (2021). From an environmental justice perspective, this invites us to consider how minority Language Death is an incidental consequence of climate breakdown due to forced migration and how the same forces driving ecological collapse are destroying cultures and languages around the world. This is an issue of injustice for many of these communities.

Lowri Cunnington-Wynn, Aberystwyth University



Mynd i'r un cyfeiriad? Asesu'r cyswllt rhwng polisi iaith a strateg-aethau datblygu economaidd rhanbarthol.

Bydd y papur hwn yn adrodd ar ymdrech ddiweddar i ddatblygu fframwaith i lywio dadansoddiad ansoddol o ddogfennau polisi datblygu rhanbarthol i asesu sut ac i ba raddau y maent yn ystyried amcanion polisi iaith allweddol. Bydd y papur yn dechrau drwy fynd ati'n gryno i adolygu llenyddiaeth polisi cyhoeddus ddiweddar, yn benodol y llenyddiaeth ar integreiddio polisi, i ddeall sut y mae fframweithiau tebyg wedi'u datblygu a'u gweithredu er mwyn dadansoddi sut yr ymdrinnir ag ystyriaethau rhyw neu gynaliadwyedd mewn polisiau datblygu economaidd rhanbarthol. Yna bydd yn cyflwyno'r fframwaith a ddatblygwyd yn benodol er mwyn mesur lefel yr ymgysylliad ag amcanion polisi iaith. Yna bydd y papur yn trafod sut mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ddadansoddiad parhaus o bolisiau datblygu rhanbarthol presennol yng Nghymru (gan gynnwys cynlluniau strategol Bargeinion Twf Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati).

Huw Lewis

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Prifysgol Aberystwyth

hhl@aber.ac.uk

Pulling in the same direction? Assessing the alignment between language policy and regional economic development strategies.

This paper will report on a recent effort to develop a framework to guide qualitative analysis of regional development policy documents to assess how and to what extent they take account of key language policy objectives. The paper will begin by briefly reviewing recent public policy literature, specifically the literature on policy integration, to understand how similar frameworks have been developed and implemented to analyse how gender or sustainability considerations are addressed in regional economic development policies. It will then present the framework developed specifically for the purpose of measuring the level of engagement with language policy objectives. The paper will then turn to discuss how the framework is being used as part of an ongoing analysis of current regional development policies in Wales (including the strategic plans of Regional Growth Deals and Regional Skills Partnerships, Regional Economic Frameworks etc.).

Huw Lewis

Department of International politics

Aberystwyth University

hhl@aber.ac.uk



Dysgu iaith yng Nghymru: a yw'r math o ysgol yn dylanwadu ar agweddau a dewis-iadau dysgwyr o ran dysgu leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU?

Mae'r nifer sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, yn bennaf Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg, wedi gostwng yn ddifrifol dros y 15 mlynedd diwethaf, gyda dim ond 10.35% o ddysgwyr yn dewis astudio un o'r ieithoedd hyn ar gyfer TGAU yn 2023. Yn erbyn y cyd-destun hwn, mae [Mentora ITM](#) yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno sesiynau mentora amlieithog mewn ysgolion, wedi'u hwyluso gan Fentoriaid leithoedd a Diwyllianau sydd wedi cael eu hyfforddi, i ysbrydoli cariad at ieithoedd. Cyn ymgysylltu â'r prosiect Mentora ITM, bydd pob ysgol yn cwblhau arolwg llinell sylfaen o ddysgwyr gyda'r grŵp blwyddyn gyfan a fydd yn gwneud eu dewisiadau ar gyfer TGAU, yn bennaf ym mlwyddyn 8 neu flwyddyn 9.

Bydd y cyflwyniad hwn yn canolbwytio ar nifer o bwyntiau data allweddol o'r arolwg hwn er mwyn deall yn well sut i gefnogi prosesau dysgu iaith yng Nghymru. Yn gyntaf, byddaf yn ystyried i ba raddau y mae'r data yn dangos a yw dysgwyr yn fwy tebygol o ystyried astudio leithoedd Rhyngwladol ar gyfer TGAU ar sail y math o ysgol maen nhw'n ei mynchy (cyfrwng Cymraeg, Dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Byddaf wedyn yn ystyried mwynhad dysgwyr o'r pynciau a ddysgir ar lefel uwchradd, gan ganolbwytio'n bennaf ar laith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn leithoedd Rhyngwladol, Saesneg a Chymraeg, ac i ba raddau y mae'r tri grŵp iaith hyn yn atgyfnerthu ac yn cefnogi dysgu iaith ar draws y mae. Yn olaf, byddaf yn dadansoddi i ba raddau y mae dysgwyr yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn fwy anodd na phynciau eraill maen nhw'n eu hastudio, cyn dod i gasgliad gyda chyfres o argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.

Glesni Haf Owen, *Mentora ITM/Prifysgol Caerdydd*

Language learning in Wales: does school type influence learner attitudes and choices regarding International Languages learning at GCSE?

Uptake of International Languages in Wales, predominately French, Spanish and German, has declined severely over the last 15 years, with only 10.35% of learners choosing to study one of these languages for GCSE in 2023. Against this context, [MFL Mentoring](#) are funded by the Welsh Government to deliver multilingual mentoring sessions in schools, facilitated by trained university Languages and Cultures Mentors, to motivate a love of languages. Prior to engaging with the MFL Mentoring project, all schools complete a learner baseline survey with the whole year group that will be making their GCSE option choices, predominately year 8 or year 9.

This presentation will focus on a number of key data points from this survey to understand better how to support language learning in Wales. Firstly, I will consider to what extent the data reveals whether learners are more likely to consider studying International Languages for GCSE based on the type of school they attend (Welsh medium, Bilingual and English medium). I will then consider learner enjoyment of subjects taught at secondary level, concentrating primarily on the Language, Literacy and Communication (LLC) subjects of International Languages, English, and Welsh and to what extent these three language groupings reinforce and support language learning across the area. Finally, I will analyse to what extent learners perceive International Languages to be more difficult than other subjects they study, before concluding with a set of recommendations based on these findings.

Glesni Haf Owen, *MFL Mentoring/Cardiff University*



@MFLMentoring

Addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: amrywiaeth mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd Rhwngwladol

Pa destunau llenyddol sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru a pham? Fe wnaethom holi 47 o athrawon Cymraeg, Saesneg, Drama, Ffrangeg a Sbaeneg ledled Cymru rhwng 2022 a 2024. Amlygodd ein canlyniadau broblemau o ran amrywiaeth y testunau sy'n cael eu haddysgu, gan ganolbwytio ar rywedd, hil ac ethnigrwydd. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli fel awduron cerddi, dramâu ac – i raddau ychydig yn is – nofelau. Roeddent yn cael eu cynrychioli ychydig yn well mewn astudiaethau llenyddol Cymraeg na rhai Saesneg. Dim ond llond llaw o waith Awduron o Liw a oedd yn cael eu haddysgu: wedi'u lleoli yn unig ymhlih y testunau Saesneg a Ffrangeg. Ni addysgwyd unrhyw destunau Cymraeg gan Awduron o Liw. Yn sgil hyn, rydym yn dadlau bod y diffyg amrywiaeth mewn llenyddiaeth sy'n cael ei addysgu yng Nghymru yn cynrychioli cyfle posibl a gollwyd i bob plentyn yng Nghymru ac yn peryglu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Wrth-hiliol 2030 a *Chwricwlwm i Gymru*, yn enwedig yr addysgu gorfodol ar hanes a phrofiadau Plant Du a Phlant o Leiafrifoedd Eithnig. Byddwn yn amlinellu ein hargymhellion ar gyfer y llywodraeth, cyhoeddwyr, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon, ysgolion ac athrawon. Byddwn hefyd yn rhannu'r adnoddau ar-lein hygrych a dwyieithog rydym wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith o wireddu'r argymhellion hyn, gan gynnwys adnoddau ar gyfer adnabod testunau amrywiol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr ymchwil hon yn cael ei dosbarthu'n llawn mewn erthygl mewn cyfnodolyn yng *Nghylchrawn Addysg Cymru* (26.1) yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 2024.

Sarah Olive, Prifysgol Aston

Teaching literatures in secondary schools in Wales: diversity in Welsh, English and International Languages

What literary texts are taught in secondary schools in Wales and why? We surveyed 47 teachers of Welsh, English, drama, French and Spanish across Wales from 2022-24. Our results highlighted issues in terms of the diversity of the texts taught, with a focus on gender, race and ethnicity. Women continue to be under-represented as authors of poems, plays, and – to a slightly lesser extent – novels. They were somewhat better represented in Welsh-language literary studies than English-language ones. Only a handful of Authors of Colour were taught: located exclusively among the English- and French-language texts. No Authors of Colour of Welsh-language texts were taught. In light of this, we argue that the current lack of diversity in teaching literatures in Wales represents a lost opportunity for all children in Wales and jeopardises Welsh Government ambitions for Anti-racist Wales 2030 and *Curriculum for Wales*, especially the mandatory teaching of BAME histories and experiences. We will outline our recommendations for government, publishers, ITE providers, schools and teachers. We will also share the online, freely-accessible, bilingual resources that we have developed to support realising these recommendations, including resources for identifying diverse texts in Welsh and English. This research will be disseminated in full in a journal article in *Wales Journal of Education* (26.1) later in July 2024.

Sarah Olive, Aston University



Cyflawnder Cymdeithasol ac Adrodd Storiâu / Social Justice and Storytelling

Panel wedi'i drefnu gan Ganolfan Adrodd Storiâu George Ewart Evans

Gan wrando ar straeon pobl, rydyn ni mewn gwell sefyllfa i ddeall sut maen nhw'n gweld y byd, y problemau maen nhw'n dod ar eu traws, a'r datrysiau yr hoffen nhw eu gweld yn cael eu hamlygu. Ein man cychwyn yw bod straeon i'r holl ymchwil. Mewn pedair trafodaeth 10 munud o hyd, y nod yw rhoi lle i'r rhai sy'n bresennol gael gwneud y canlynol:

- Cael cipolwg ar rolau a gwerth amrywiol (a methodolegau sylfaenol) dulliau adrodd straeon fel sy'n gysylltiedig ag agendâu ymchwil cyflawnder cymdeithasol.
- Edrych ar sut i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd moesegol, ymarferol a methodolegol sy'n gysylltiedig ag adrodd straeon am gyflawnder cymdeithasol, yn ogystal â
- Dysgu am fframweithiau cysyniadol ac ymarfer arloesol sy'n darparu ffyrdd o weithredu cyflawnder cymdeithasol a democratiddio ymarfer, drwy fynd i'r afael â thrails a gwadu epistemig a methodolegol
- Trafod y pedwar cwestiwn sy'n sail i'r trafodaethau

Roiyah Saltus a Sophia Kier-Byfield, Prifysgol De Cymru, Leah Salter, Canolfan Adrodd Storiâu George Ewart Evans, Beth Smith, Canolfan Fusnes Eirias, a Christalla Pithara-McKeown, Prifysgol Bryste

Panel organised by the George Ewart Evans Centre for Storytelling

Listening to people's stories, we are better placed to understand how they experience the world, the problems they encounter, and the solutions they would like to see manifested. Our starting position is that all research is storied. Rooted in four, 10-minute provocations, the aim is to provide space for attendees to:

- Gain insight into the varied roles and value (and underpinning methodologies) of storytelling as linked to social justice research agendas
- Explore how to address the ethical, practical, and methodological challenges and opportunities of social justice storytelling, and
- Learn about innovative practice and conceptual frameworks that provide ways of operationalising social justice and democratising practice, by addressing epistemic and methodological violence and disavowal
- Discuss the four questions underpinning the provocations

Roiyah Saltus and Sophia Kier-Byfield, University of South Wales, Leah Salter, George Ewart Evans Centre for Storytelling, Beth Smith, Eirias Business Centre, and Christalla Pithara-McKeown University of Bristol



Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: Canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol yng Nghymru

Gall byw mewn tralod effeithio ar iechyd pobl ifanc drwy eu hoes. Canfuwyd bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), fel profi esgeulustod neu gamdriniaeth, yn arwain at wahanol ganlyniadau iechyd meddwl a chorfforol anffafriol (Felitti et al., 1998). Nododd Bellis et al. (2016) fod ACEs yn her sylweddol i iechyd cyhoeddus yng Nghymru, gan amcangyfrif bod gan bron hanner yr holl oedolion yng Nghymru o leiaf un ACE. Datblygwyd Fy Arolwg Profiadau Cymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n byw yng Nghymru. Y nod oedd dysgu mwy am eu profiadau, a'r hyn a'u helpodd i ddelio â phrofiadau niweidiol. Dosbarthwyd yr arolwg rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2023 a gofynnwyd cwestiynau am ACEs, beth helpodd neu beth a allai fod wedi helpu, a gwybodaeth gefndir arall. Nododd cyfran uchel o'r cyfranogwyr nifer o ACEs. Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr nad oeddent wedi derbyn cefnogaeth ddigonol wrth ddelio â'r profiadau hyn.

Bydd canfyddiadau'r arolwg, a ddadansoddyd trwy wahanol ddulliau, yn cael eu cyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad thematig o ymatebion i gwestiynau penagored sy'n cynnig gwybodaeth am safbwytiau pobl ifanc yng hylch yr hyn sy'n effeithiol i gefnogi pobl ifanc sy'n byw mewn tralod yng Nghymru, a sut y defnyddiwyd y broses o gyd-gynhyrchu drwy'r prosiect i roi mwy o lais i bobl ifanc.

Flo Avery, Prifysgol Abertawe

Adverse Childhood Experiences: Findings from a National Survey in Wales

Living in adversity can affect young people's health across the lifespan. Adverse Childhood Experiences (ACEs), such as experiencing neglect or abuse, have been found to predict a range of unfavourable mental and physical health outcomes (Felitti et al., 1998). Bellis et al. (2016) identified ACEs as a significant public health challenge in Wales, estimating that almost half of all adults in Wales have at least one ACE. The My Experiences Survey Cymru was developed for 16-18 year olds living in Wales. The aim was to find out more about their experiences, and what helped them in dealing with adverse experiences. The survey was distributed from February to October 2023 and asked about ACEs, what helped or could have helped, and other background information. A high proportion of participants reported multiple ACEs. The majority of participants reported that they did not receive adequate support when dealing with these experiences.

The findings of the survey, analysed through mixed methods, will be presented. This will including a thematic analysis of free text responses offering insight into young people's perspectives of what works to support young people living in adversity in Wales, and how coproduction was utilised throughout the project to uplift young people's voices.

Flo Avery, Swansea University



Dechrau â dalen lân: Edrych ar y Rhwystrau a'r Catalyddion yn ymwneud ag Ymyriadau Darllen yn y Carchar

Cefndir yr ymchwil.

Mae'r ymchwil hon yn rhan o gam casglu data fy ymchwil ddoethurol i brofiadau go iawn gweithwyr proffesiynol sydd wedi gweithio gydag unigolion sydd â hanes o droseddu, ar wahanol fathau o ymyriadau adsefydlu, yn benodol y rhai sydd â'r nod o wella canlyniadau addysg, iechyd, teulu a llesiant.

Fframwaith damcaniaethol.

Mae'r ymchwil hon, sydd wedi'i gwreiddio mewn Dadansoddiad Ffenomenolegol Deongliadol (IPA), yn defnyddio dull ymchwil ansoddol sy'n canolbwytio ar brosesau gwneud penderfyniadau a gwneud synnwyr o ran profiadau bywyd pobl (Smith et al., 2022, tt. 1–4). Mae'r dull hwn yn canolbwytio ar ddadansoddiad manwl o ffenomen benodol ac mae'n seiliedig ar egwyddorion sy'n llywodraethu'r ffordd ffenomenolegol o edrych ar y byd. Yn fwy penodol, mae'r ymchwil IPA hon yn ymwneud yn fwy â dadansoddiad manwl o brofiadau byw ychydig o achosion penodol o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio neu wedi gweithio gyda phobl â hanes o droseddu, gyda'r bwriad o ddehongli a deall yr achosion hynny'n llawn, yn hytrach nag edrych ar nifer uwch o achosion amrywiol.

Ffocws yr ymholiad.

Mae fy ymchwil yn edrych ar brofiadau go iawn y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda charcharion presennol a phobl sydd â hanes o droseddu, ar ymyriadau a rhaglenni sydd â'r nod o hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol a lleihau cyfraddau troseddu yn y dyfodol. Byddai'r papur hwn yn edrych ar rhwystrau a catalyddion ymyriadau llwyddiannus ac effeithiol o safbwytiau'r rhai sy'n llunio, yn darparu ac yn gwerthuso'r ymyriadau hyn.

Methodoleg.

Drwy gyfuniad o holiaduron a chyfweliadau lled-strwythuredig, defnyddiodd yr ymchwilydd ddull dadansoddi ffenomenolegol deongliadol i archwilio profiadau gweithwyr proffesiynol a oedd yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn y sampl.

Ffynonellau data.

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr o amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector, yn ogystal â chyn-swyddogion carchar, a gweithwyr proffesiynol o grwpiau cymunedol eraill, megis athrawon a hyfforddwyr o gymdeithasau ehangu cyfranogiad a mynediad at addysg.

Daniel Williams, Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Turning over a new page: Exploring Barriers and Catalysts in Prison-Based Reading Interventions

Background to the research.

This research forms part of the data collection phase of my doctoral research into the lived experiences of professionals who have worked with individuals who have a history of offending, on different types of rehabilitative interventions, specifically those aimed at improving education, health, family, and wellbeing outcomes.

Theoretical framework.

This research, rooted in Interpretative Phenomenological Analysis (IPA) uses a qualitative research approach that focuses on the decision-making and sense-making processes of people's lived experiences (Smith et al., 2022, pp. 1–4). This method focuses on an in-depth analysis of a specific phenomenon and is underpinned by principles that govern the phenomenological way of looking at the world. More specifically, this IPA research is more concerned with an in-depth analysis of the lived experiences of a few specific cases of professionals that work or worked with people with a history of offending, with the intention of fully interpreting and understanding those cases, rather than looking at a higher number of varied cases.

Focus of enquiry.

The focus of my research looks at the lived experiences of the professionals that work with current prisoners and people who have a history of offending, on interventions and programs that are aimed at promoting positive outcomes and reducing the rates of future offending. This paper would explore the barriers and catalysts of successful and impactful interventions from the perspectives of those who design, deliver, and evaluate these interventions.

Methodology.

Through a combination of questionnaires and semi-structured interviews, the researcher used an interpretative phenomenological analytical approach to explore the experiences of professionals who met the sample inclusion criteria.

Data sources.

Semi-structured interviews were conducted with practitioners from a range of third-sector organizations, as well as ex-prison officers, and professionals from other community-based groups, such as teachers and instructors from widening participation and access to education associations.

Daniel Williams, Cardiff Metropolitan University



Archwilio'r Cysylltiad rhwng Tlodi ac Agweddu Addysgol y Glasoed: Astudiaeth Achos mewn Cymunedau Trefol Difreintiedig yn Sri Lanka

Crynodeb: Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i'r berthynas gymhleth rhwng tlodi ac agweddu'r glasoed tuag at addysg uwchradd, gan ganolbwytio ar ddwy gymuned drefol sydd wedi'u hynysu yn Colombo, Sri Lanka. Er gwaethaf cefnogaeth y llywodraeth a gwasanaethau cymorth, mae pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn aml yn wynebu heriau wrth gwblhau addysg uwchradd. Nod yr ymchwil hwn yw nodi, dadansoddi a deall y ffactorau amlochrog sy'n cyfrannu at yr heriau hyn. Mae amcanion yr ymchwil yn cynnwys archwiliad cynhwysfawr o'r agweddu sy'n cael eu siapio gan dlodi ymhliith y glasoed, dadansoddi'r gydberthynas rhwng tlodi a safbwytiau addysgol, ymchwilio i'r hyn sy'n achosi i fyfyrwyr sydd â gallu academaidd o deuluoedd incwm isel adael addysg, a dealltwriaeth o'r nifer fawr o ffactorau sy'n arwain at agweddu negyddol tuag at addysg uwchradd. Drwy archwilio'r agweddu hyn yn drylwyr, fy nod yw darparu mewnwelediadau a all lywio ymyriadau wedi'u targedu ac argymhellion polisi i fynd i'r afael â'r cydadwaith cymhleth rhwng tlodi ac addysg y glasoed yn y cymunedau difreintiedig hyn. Drwy ddefnyddio holiadur gyda 100 o samplau, mae'r astudiaeth yn datgelu cysylltiad arwyddocaol rhwng tlodi ac agweddu'r glasoed, gan amlygu dylanwadau sy'n seiliedig ar oedran a rhywedd. Mae canfyddiadau allweddol yn cynnwys canrannau uchel o'r glasoed nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn cwblhau addysg uwchradd is yn unig a gofalwyr sy'n cael addysg gynradd. Mae'r astudiaeth yn tanlinellu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu, yn ar-gymhell sefydlu unedau gwaith cymdeithasol mewn ysgolion, yn rhesymoli lwfansau ariannol, ac yn gwella'r system addysg uwchradd yn gyffredinol yn Sri Lanka. Nod yr argymhellion hyn yw lliniaru'r rhwystrau a achosir gan dlodi, gan feithrin agweddu positif tuag at addysg ymhliith y glasoed mewn cymunedau difreintiedig.

Sudeshika Durayalage, Prifysgol Bangor

Exploring the Nexus between Poverty and Adolescent Educational Attitudes: A Case Study in Underprivileged Urban Communities in Sri Lanka

Abstract: This study delves into the intricate relationship between poverty and adolescent attitudes toward secondary education, focusing on two marginalized urban communities in Colombo, Sri Lanka. Despite governmental endorsement and support services, adolescents from disadvantaged backgrounds often face challenges in completing secondary education. This research aims to identify, analyze, and understand the multifaceted factors contributing to these challenges. The research objectives include a comprehensive exploration of the attitudes shaped by poverty among adolescents, an analysis of the correlation between poverty and educational perspectives, an investigation into the causes of dropout among academically capable students from low-income families, and an understanding of the numerous factors leading to negative attitudes towards secondary education. Through thoroughly examining these aspects, I aim to provide insights that can inform targeted interventions and policy recommendations to address the complex interplay between poverty and adolescent education in these underprivileged communities. Employing a questionnaire survey with 100 samples, the study reveals a significant association between poverty and adolescent attitudes, highlighting influences based on age and gender. Key findings include high percentages of non-schooling adolescents completing only lower secondary education and caretakers having primary education. The study underscores the need for targeted interventions, proposing the establishment of school social work units, rationalizing monetary allowances, and enhancing the overall secondary educational system in Sri Lanka. These recommendations aim to mitigate poverty-induced obstacles, fostering positive attitudes toward education among adolescents in underprivileged communities.

Key Words: Poverty, Attitudes, Adolescents, Secondary Education.

Sudeshika Durayalage, Bangor University



Lwybrau Menywod at Droseddu; Nodi Cyfleoedd ar gyfer Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Cefndir: Mae cadw menywod yn y carchar yn arwain at gost sylweddol i wariant cyhoeddus yn ogystal â'r effaith y mae'n ei chael ar deuluoedd, yn enwedig plant. Yng Nghymru, nod Glasbrint Cyfiawnder Menywod yw gwella canlyniadau i fenywod ym mhob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol. Yr hyn sy'n allweddol yw gwella ymyrraeth gynnar a chyfleoedd atal sylfaenol i fenywod a dull systemau cyfan o gefnogi menywod yng Nghymru sy'n trosedu.

Nod yr Astudiaeth: Nod yr astudiaeth oedd nodi ffactorau allweddol, gan gynnwys effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) sy'n dylanwadu ar risg menywod o ddod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol, cynrychiolaeth ormodol o fenywod lleiafrifol, a'r cyfleoedd atal ac ymyrryd cynnar sylfaenol i fynd i'r afael â'r ffactorau hynny yng Nghymru.

Dulliau: Yn sgil adolygiad cwmpasu, rhestrwyd llenyddiaeth a oedd yn rhoi sylw i lwybrau menywod at droseddu; roedd ail adolygiad yn nodi cyfleoedd a dulliau atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar. Roedd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys astudiaethau achos unigol ($n = 4$) a oedd yn archwilio'r lwybrau at droseddu i fenywod Cymru.

Canlyniadau: Pwysleisiwyd nifer o ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar risg menywod o ddod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yn y llenyddiaeth ac mae'r canfyddiadau'n dangos bod y ffactorau hyn yn aml yn gorgyffwrdd a bod cysylltiad rhyngddynt, gan gynyddu risg menywod o ddod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol. Cefnogwyd y canfyddiadau hyn gan yr astudiaethau achos, sydd hefyd yn dangos cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Casgliad: Dylid gwneud gwelliannau i sicrhau bod mynediad haws i wasanaethau, gwasanaethau arbenigol, rhagleni, ac ymyriadau wedi'u targedu, yn ogystal â mabwysiadu Timau Amloddisgyblaethol a sicrhau cymhwysedd diwyliainnol ar draws gwasanaethau.

Samia Addis, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Women's Pathways to Offending; Identifying Opportunities for Prevention and Early Intervention

Background: Women's imprisonment carries a significant cost to public expenditure as well as the impact it has on families, particularly children. In Wales, the Women's Justice Blueprint aims to improve outcomes for women at each stage of the Criminal Justice System (CJS). Key is enhancing early intervention and primary prevention opportunities for women and a whole systems approach to supporting women in Wales who offend.

Study Aims: The study aim was to identify key factors, including the impact of Adverse Childhood Experiences (ACEs) which influence women's risk of coming into contact with the CJS, overrepresentation of minoritised women, and the primary prevention and early intervention opportunities to address those factors in Wales.

Methods: A scoping review identified literature which highlighted women's pathways to offending; a second review identified opportunities and approaches for primary prevention and early intervention. The study also included individual case studies ($n=4$) which explored the pathways to offending for Welsh women.

Results: A number of key factors which influence women's risk of coming into contact with the CJS were highlighted in the literature and findings illustrate that these factors often overlap and interact, exacerbating women's risk of coming into contact with the CJS. These findings were supported by the case studies, which also evidence opportunities for early intervention.

Conclusion: Improvements should be made to service accessibility, specialist services, programmes, and targeted interventions, as well as adopting Multidisciplinary Teams (MDTs) and ensuring cultural competence across services.

Samia Addis, Public Health Wales



Gwneud Senedd Cymru yn fwy tryloyw: Defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddadan-soddi testun a delweddu gwybodaeth

Wrth ymdrechu i greu cymdeithas decach, ni ellir gorwysleisio rôl deallusrwydd artiffisial (AI) a dadansoddi data'n effeithiol. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno mewnwelediadau o brosiect a gynhaliwyd yn Ymchwil y Senedd yn Senedd Cymru, gyda'r nod o harneisio potensial deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data i wella tryloywder a hygyrchedd mewn trafodion seneddol.

Roedd ein prosiect diweddar yn cynnwys defnyddio offer deallusrwydd artiffisial uwch, gan gynnwys OpenAI, i ddadansoddi data testun helaeth sy'n deillio o sawl ffynhonnell. Y prif amcan oedd creu tudalen we hawdd ei deall oedd yn olrhain gwaith parhaus Senedd Cymru ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol. Cydsyniad deddfwriaethol yw'r broses lle mae Senedd y DU yn cynnig deddfwriaeth sy'n perthyn i gymhwysedd datganoledig ac sy'n gofyn am gydsyniad Senedd Cymru.

Roedd y defnydd hwn o ddeallusrwydd artiffisial nid yn unig yn caniatáu echdynnu a chrynhoi gwybodaeth o gannoedd o ddogfennau PDF ond hefyd yn hwyluso cyflwyno gweithgareddau deddfwriaethol cymhleth mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Bydd y cyflwyniad yn edrych ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd, gan ddangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd deallusrwydd artiffisial wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd.

Yn ogystal â chymwysiadau deallusrwydd artiffisial, mae'r prosiect yn tynnu sylw at rôl hanfodol data a dadansoddi wrth feithrin cymdeithas decach. Drwy ddefnyddio dulliau arloesol o echdynnu a delweddu data, roeddem nid yn unig yn darparu gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd ond hefyd yn cyfrannu at y drafodaeth ehangach ar dryloywder mewn prosesau seneddol.

Bydd y cyflwyniad hefyd yn cyffwrdd â heriau eraill a wynebwyd yn ystod y prosiect, fel sicrhau cydymffurfiaeth â rheoli gwybodaeth a phrotocolau seiberddiogelwch. Er bod yr heriau hyn yn enfawr, maent yn tanlinellu'r angen am fframweithiau moesegol cadarn wrth gymhwysu technolegau deallusrwydd artiffisial mewn lleoliadau seneddol.

Yn olaf, bydd y cyflwyniad yn amlinellu cyfleoedd i academyddion ymgysylltu â Senedd Cymru. Mae'r ymgysylltu hwn yn agor llwybrau ar gyfer mentrau cydweithredol sy'n cyfrannu at ymdrechion parhaus i greu cymdeithas decach.

Joe Wilkes, Senedd Cymru

X @SeneddResearch

Enhancing transparency in the Welsh Parliament: Leveraging AI for text analysis and information visualisation

In the pursuit of a fairer society, the role of artificial intelligence (AI) and effective data analysis cannot be overstated. This abstract presents insights from a project conducted at Senedd Research in the Welsh Parliament, aimed at harnessing the potential of AI and data analytics to enhance transparency and accessibility in parliamentary proceedings.

Our recent project involved utilizing advanced AI tools, including OpenAI, to analyse extensive text data derived from multiple sources. The primary objective was to create an easily comprehensible webpage tracking the Welsh Parliament's ongoing work on legislative consent memoranda. Legislative consent is the process where the UK Parliament proposes legislation that falls within the devolved competence and requires consent of the Welsh Parliament.


This application of AI not only allowed for the extraction and summarization of information from hundreds of PDFs but also facilitated the presentation of complex legislative activities in a user-friendly format. The presentation will delve into the methodology employed, showcasing the efficiency and efficacy of AI in navigating the challenges posed.

In addition to AI applications, the project highlights the critical role of data and analysis in fostering a fairer society. By employing innovative approaches to data extraction and visualisation, we not only provided accessible information to the public but also contributed to the broader discourse on transparency in parliamentary processes.

The presentation will also touch upon other challenges encountered during the project, such as ensuring compliance with information governance and cyber security protocols. These challenges, while formidable, underscore the need for robust ethical frameworks in the application of AI technologies in parliamentary settings.

Finally, the presentation will outline opportunities for academics to engage with the Welsh Parliament. This engagement opens avenues for collaborative initiatives that contribute to ongoing efforts for a fairer society.

Joe Wilkes, Welsh Parliament



Yr Economi Sylfaenol Ddigidol: Deallusrwydd Artiffisial, Democratiaethau Data, ac Arloesi Cymdeithasol (yng Nghymru a Gwlad y Basg)

Mae'r papur archwiliadol hwn yn ymchwilio i'r ôl sylweddol Deallusrwydd Artiffisial wrth ail-lunio'r Economi Sylfaenol, gan gyflwyno cysyniad yr Economi Sylfaenol Ddigidol (<https://wiserd.ac.uk/cy/event/cwmniau-cydweithredol-data-trwy-sofraniaeth-data-tuag-economi-sylfaenol-ddigidol/>). Yn yr adran gyntaf, mae'n bwysleisio potensial Deallusrwydd Artiffisial o ran meithrin democratiaethau data ac arloesedd cymdeithasol, ynghyd â mynd i'r afael â heriau fel llywodraethu data, preifatrwydd a rhagfarnau. Mae'n amlinellu nodau polisi sydd wedi'u hanelu at wella asiantaeth data, democrateiddio llwyfannau digidol, a meithrin cyfranogiad mewn arloesedd cymdeithasol digidol. Nod y papur hwn yw cyfrannu at ddeall effaith drawsnewidiol Deallusrwydd Artiffisial ar yr Economi Sylfaenol, yn ogystal â sefydlu tri nod polisi'r Economi Sylfaenol Digidol fel a ganlyn: (i) rhoi mwy o fynediad i bobl at eu data, (ii) rhoi llais i bobl tuag at llwyfannau digidol democraidd pellach, a (iii) sicrhau bod pobl yn gallu cymryd rhan yn economeg arloesi cymdeithasol digidol. O ganlyniad, mae'r papur yn tanlinellu'r angen am integreiddio Deallusrwydd Artiffisial moesegol i lywio tarfu technolegol tuag at dechnolegau datganoledig Web3.

Yn yr ail adran, mae'n archwilio'r ôl cydweithredu rhyngwladol rhwng cenhedloedd bach fel Cymru a Gwlad y Basg drwy'r prosiect 'Cydweithrediad Cymru a Gwlad y Basg', a ariennir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru (<https://wiserd.ac.uk/cy/newyddion/dr-igor-calzada-awarded-funding-by-the-learned-society-of-wales-cy/>). Dengys y papur hwn bŵer cydweithio traws-ddiwylliannol wrth hyrwyddo atebion arloesol o fewn yr Economi Sylfaenol Digidol, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithredu ar wahanol raddfeydd o lefelau macro i ficro. Drwy'r astudiaeth achos hon, dengys y papur sut y gall cydweithredu rhyngwladol fod yn gatalydd ar gyfer arloesedd yn yr economi ddigidol, gan gynnig mewnwlediadau a modelau ar gyfer cenhedloedd bach sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial er budd y pawb (<https://doi.org/10.1080/21681376.2024.2311099>).

Igor Calzada, Prifysgol Gwlad y Basg a Phrifysgol Caerdydd

Digital Foundational Economy: AI, Data Democracies, and Social Innovation (in Wales and the Basque Country)

This exploratory paper investigates the significant role of Artificial Intelligence (AI) in reshaping the Foundational Economy (FE), introducing the concept of the Digital Foundational Economy (DFE) (<https://wiserd.ac.uk/event/data-cooperatives-through-data-sovereignty-towards-a-digital-foundational-economy/>).

In the first section, it emphasizes AI's potential in fostering data democracies and social innovation, alongside addressing challenges such as data governance, privacy, and biases. It outlines policy aims aimed at enhancing data agency, democratizing digital platforms, and fostering participation in digital social innovation. This paper aspires to contribute not only to understanding the transformative impact of AI on the FE but also to establishing the three policy aims of the DFE as follows: (i) to give people greater agency over their data, (ii) to provide people with a voice towards further democratized digital platforms, and (iii) to ensure people can participate in the economics of digital social innovation. Consequently, the paper underscores the need for ethical AI integration to navigate technological disruptions towards Web3 decentralized technologies.

In the second section, it explores the role of international cooperation between small nations like Wales and the Basque Country through the 'Welsh & Basque Cooperation' project, funded by the Learned Society of Wales (<https://wiserd.ac.uk/news/dr-igor-calzada-awarded-funding-by-the-learned-society-of-wales/>). This paper illustrates the power of cross-cultural collaboration in promoting innovative solutions within the DFE, emphasizing the importance of multi-scalar cooperation from macro to micro levels. Through this case study, the paper showcases how international cooperation can serve as a catalyst for innovation in the digital economy, offering insights and models for small nations leveraging AI for mutual benefits (<https://doi.org/10.1080/21681376.2024.2311099>).

Igor Calzada, University of the Basque Country and Cardiff University



Ciplun o ddealltwriaeth gweithwyr yng Nghymru o Ddeallusrwydd Artifffisial (AI) –TUC Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi themâu allweddol o ymchwil a gynhaliwyd gan TUC Cymru ar ddealltwriaeth undebwyr llafur yng Nghymru o ddeallusrwydd artiffisial a sut maen nhw'n ymgysylltu â hyn yn eu gweithleoedd.

Canfu'r ymchwil fod lefel uchel o ymwybyddiaeth gyffredinol gan weithwyr bod AI eisoes yn effeithio neu y bydd yn effeithio ar eu bywydau gwaith. Fodd bynnag, mae lefelau'r ymgysylltiad ag AI a'i effaith yn benodol i gynnwys, technoleg a sector. Mae yna bryderon trawsbynciol sy'n rhychwantu'r profiad amrywiol hwn, gan gynnwys goblygiadau cydraddoldeb.

Er bod ymdrechion ar waith, dywedodd undebwyr llafur nad oes ganddynt wybodaeth hygrych, fanwl a phenodol angenrheidiol eto i ddeall y mathau penodol o AI y maent yn ei brofi a'i effeithiau. Mae hyn yn rhwystr i ymateb effeithiol gan undebwyr llafur.

Mae rhwystredigaeth gyffredinol ynghylch y dulliau a'r offer cyfyngedig sydd gan weithwyr i sicrhau bod AI a'r broses o ddigideiddio yn deg ac yn canolbwytio ar y gweithiwr.

Mae AI yn cyflwyno heriau cyfreithiol a gweithredol newydd sy'n bygwth dwysáu anghymesuredd pŵer yn y gweithle ac yn yr economi ehangach.

Yna mae angen ymatebion penodol gan yr undebau llafur ar AI mewn prosiect ehangach er mwyn cynyddu pŵer gweithwyr wrth siapio technoleg yn eu gweithleoedd ac yn yr economi yn gyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y themâu hyn gyda dyfyniadau o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda gweithwyr ac undebwyr llafur yng Nghymru. Awgrymir cyfres o gamau nesaf ac argymhellion i'w hystyried gan undebau llafur yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.

Ceri Williams, TUC Cymru

A snapshot of workers in Wales' understanding of AI – Wales TUC

This report summarises key themes from research conducted by Wales TUC on how trade unionists in Wales understand and are engaging with artificial intelligence (AI) in their workplaces.

The research found that there is a high degree of general awareness by workers that AI is already impacting or will impact their working lives. However, the levels of engagement with and impact of AI is context, technology and sector specific. There are cross-cutting concerns spanning this varied experience, including implications for equalities.

While efforts are underway, trade unionists reported that they are generally not yet sufficiently empowered with accessible, contextualised, and detailed information to understand these specific forms and effects of AI they encounter. This is a barrier to an effective response by trade unionists.

This is compounded by widespread frustration with the limited means and tools workers have to ensure that the AI and digitalisation transition is fair and worker-centric.

AI presents novel legal and operational challenges that threaten to deepen power asymmetries in the workplace and wider economy.

AI then requires specific responses from the trade union movement within a wider project to elevate the power of workers to shape technology in their workplaces and the economy at large.

This report illustrates these themes with selected excerpts from focus groups conducted with Welsh workers and trade unionists. A series of next steps and recommendations are suggested for consideration by the union movement in Wales and the Welsh Government.

Ceri Williams, TUC Cymru



Safwyntiau cymdeithas sifil ar reoleiddio Deallusrwydd Artiffisial yn yr Undeb Ewrop-eidd

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn aml yn cael ei alw'n 'beiriant sy'n meddwl' ac sy'n deillio o dechnolegau digidol newydd, ac mae'n debygol y bydd yn trawsnewid sawl rhan o'n bywydau. Er mwyn paratoi, mae llywodraethau ledled Ewrop a'r tu hwnt yn cyhoeddi eu strategaethau cyntaf ar Ddeallusrwydd Artiffisial. Hyd yma, nid oes llawer o sylw ysgolheigaidd wedi cael ei roi i Ddeallusrwydd Artiffisial a chymdeithas sifil. I ymateb i hynny, mae'r papur hwn yn dadansoddi ymgynghoriadau cyhoeddus ar Ddeallusrwydd Artiffisial gan y Comisiwn Ewropeaidd. Papur Gwyn a drafft Deallusrwydd Artiffisial. Gweith-redu i archwilio: yr hyn a ddywedant am gymdeithas sifil; natur barn, pryderon a gofynion polisi ar sefydliadau mewn cymdeithas sifil a'r goblygiadau cysylltiedig ar gyfer hawliau dinasyddiaeth, a ffurf a gweithrediad cymdeithas sifil yn Ewrop yn y dyfodol. Mae'r canfyddiadau'n dangos barn gyfredol bod cymdeithas sifil wedi'i gwthio i'r cyrion wrth ddatblygu polisi Deallusrwydd Artiffisial. Mae ymatebwyr hefyd yn pwysleisio manteision ymgysylltu â chyrff anlywodraethol gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth a meithrin (gwahanol fathau o) ymddiriedaeth. Mae pryderon cymdeithas sifil ynghylch y drafft o Ddeddf Deallusrwydd Artiffisial y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnwys craffu annigonol ar systemau risg uchel, data a materion llywodraethu data, ac ymosodiadau posibl o ran preifatrwydd a hawliau sylfaenol. Dadleuir bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn ar frys os am osgoi effeithiau negyddol posibl Deallusrwydd Artiffisial ar gymdeithas sifil.

Paul Chaney, Prifysgol Caerdedd

Civil society perspectives on Artificial Intelligence regulation in the European Union

Popularly dubbed 'machines that think' and originating in new digital technologies, artificial intelligence (A.I.) is set to transform many areas of our lives. In preparation, governments across Europe and beyond are publishing their first A.I. strategies. Hitherto, there has been a dearth of scholarly attention to A.I. and civil society. In response, this paper analyses public consultations on the European Commission's A.I. White Paper and draft A.I. Act to explore: what they say about civil society; the nature of civil society organisations' views, concerns and policy demands and the associated implications for citizenship rights, and the future form and functioning of civil society in Europe. The findings reveal a prevailing view that civil society has been marginalised in the development of A.I. policy. Respondents also emphasise the benefits of NGO engagement including knowledge transfer and building (different dimensions of) trust. Civil society concerns on the draft EC Artificial Intelligence Act include insufficient scrutiny of high-risk systems, data and data governance issues and potential privacy and fundamental rights abuses. It is argued that there is an urgent need to address these issues if the potentially negative impacts of A.I. on civil society are to be averted.

Paul Chaney, Cardiff University



Llywodraethu cydweithredol ym maes presgripsiynu cymdeithasol – trawsnewid anghydraddoldebau neu reoli cymunedau?

Mae Presgripsiynu Cymdeithasol yn ddull gofal iechyd sydd ar gynnydd ac yn ceisio mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol, anfeddygol ehangach ynglŷn ag iechyd drwy gysylltu pobl â gweithgareddau a gwasanaethau yn y gymuned. Nid yw'n glir a all yr ymyriad hwn newid anghydraddoldebau llesiant systematig rhwng gwahanol gymunedau, a sut y gellir gwneud hynny. Mewn prosiect peilot 12 mis yn Birmingham, nod ymchwilwyr ac ymarferwyr o Brifysgol Birmingham a The Active Wellbeing Society oedd darganfod a allai dull seiliedig ar asedau o ymdrin ag ymchwil ac ymarfer lywio'r gwaith o gynllunio presgripsiynu cymdeithasol i newid anghydraddoldebau strwythurol, a sut y gellir gwneud hynny.

Un o egwyddorion canolog dulliau presgripsiynu cymdeithasol sy'n seiliedig ar asedau yw cydgynhyrchu gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a chymunedau lleol. Fodd bynnag, yr her gyffredin i bartneriaethau traws-sector o'r fath yw'r duedd bod rhai diddordebau'n dominyddu. Cafodd y tensiwn hwn ei gydnabod yn lansiad Fframwaith Cenedlaethol Cymru ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol, ym mis Rhagfyr 2023. Gan adeiladu ar fy ymchwil blaenorol i faes cydweithio ar draws sectorau yng Nghymru, ein nod oedd cyd-greu Cymuned Ymarfer ar gyfer dysgu ar y cyd a gweithredu ar y cyd a fyddai'n meithrin perthnasoedd ac yn mynd i'r afael â phŵer yn feirniadol. Mae ein cyflwyniad yn dangos sut y datblygodd y Gymuned weledigaeth ar y cyd, cynllun gweithredu a strategaeth ar gyfer adnoddau cyfun. Rydym yn egluro sut mae hyn yn creu'r amodau ar gyfer tri phrif newid trawsnewidiol sy'n gallu newid yr anghydraddoldebau systematig rhwng llesiant cymunedau ond sy'n dibynnu ar y ryngweithio â'r amgylchedd llywodraethu ehangach.

Daw'r prosiect yn sgil cefnogaeth gan WISERD ers 2018, a helpodd i sefydlu rhwydwaith ymarferwyr academaidd, Asedau Rhagnodi Cymdeithasol a Pherthnasoedd mewn Cymunedau (SPARC).

Elizabeth Mary Woodcock, Prifysgol Bangor

Collaborative governance in social prescribing – transforming inequalities or controlling communities?

Social Prescribing is a growing health care approach that aims to address the wider social, non-medical determinants of health by connecting people to community-based activities and services. What is not clear is whether and how this intervention can change systematic inequalities in wellbeing between different communities. In a 12-month pilot project in Birmingham, researchers and practitioners from University of Birmingham and The Active Wellbeing Society aimed to find out whether and how an assets-based approach to research and practice could inform the design of social prescribing to change structural inequalities.

A central principle of assets-based approaches to social prescribing is co-production with diverse professionals and local communities. However, the common challenge for such cross-sector partnerships is the tendency for some interests to dominate. This tension was acknowledged in the launch of the Wales National Framework for Social Prescribing, in December 2023. Building on my previous research into cross-sector collaboration in Wales, we aimed to co-create a Community of Practice for shared learning and joint action that would build relationships and critically address power. Our presentation shows how the Community developed a shared vision, a plan for action and a strategy for pooled resources. We explain how this creates the conditions for three main transformative shifts which can change systematic inequalities between communities' wellbeing but depends on interaction with the wider governance environment.

The project is the result of support from WISERD since 2018, which helped to establish a practitioner-academic network, Social Prescribing Assets and Relationships in Communities (SPARC).

Elizabeth Mary Woodcock, Bangor University



Anghydraddoldebau iechyd mewn canlyniadau COVID-19 difrifol yng Nghymru

Mae tystiolaeth gwaith ymchwil yn dangos bod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd mwy difreintiedig. Yng Nghymru, mae tystiolaeth gref o raddiant economaidd-gymdeithasol yng nghyfanswm y derbyniadau yn yr ysbyty, derbyniadau gofal critigol a marwolaethau.

Roedd yr astudiaeth hon yn canolbwytio ar garfan o boblogaeth Cymru gan ddefnyddio data dienw unigol ar lefel y boblogaeth yn y Banc Data Sail.

Mae'r dadansoddiad hwn yn archwilio effaith ffactorau sy'n drysu/cyfryngu canlyniadau iechyd difrifol. Fe wnaethom ddefnyddio atchweliad logistaidd, yn ogystal ag ystyried Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) fel rhagfynegydd, i ymchwilio i sut mae'r cyfernod ar gyfer WIMD yn cael ei newid pan fydd newidynnau eraill (fel cydafiachedd a statws smygu) yn cael eu hychwanegu, gan geisio deall a yw anghydraddoldebau yn cael eu cyfryngu gan nodweddion a arsylwyd neu a ydynt yn gysylltiedig â ffactorau eraill nas gwelwyd.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod cyfraddau derbyniadau ysbyty, derbyniadau mewn Unedau Gofal Dwys a marwolaethau tua dwywaith mor uchel yn y cwintel mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fe wnaethom amcangyfrif bod y Blynnyddoedd o Fwyd a Gollwyd fesul 1,000 oherwydd COVID-19 yn 28.9 rhwng March 2020 a Gorffennaf 2022, gydag amrywiaeth rhwng cwintelau WIMD o 38.4 ar gyfer y mwyaf difreintiedig a 22.2 ar gyfer y lleiaf difreintiedig. Mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu fformwlâu atchweliad i werthuso cyfraniad y gwahanol ffactorau drysu.

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil presennol ac roedd yn archwilio ymhellach i'r rhesymau dros anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn cysylltiad â chanlyniadau COVID-19. Bydd mewnwelediadau o'r astudiaeth hon yn ehangu gwybodaeth am effaith ffactorau cyfryngu a gallai gyfrannu at barodrwydd am bandemig yn y dyfodol a chreu polisiau yn y dyfodol.

Lucy Robinson, Llywodraeth Cymru

Health inequalities in severe COVID-19 outcomes in Wales

Research evidence shows that COVID-19 has disproportionately affected people from more deprived backgrounds. In Wales, there is strong evidence of a socioeconomic gradient in total hospitalisations, critical care admissions and deaths.

This study focussed on a cohort of the Welsh population using anonymised individual-level linked population-scale data in the Sail Databank.

This analysis examines the impact of confounding/mediating factors on severe health outcomes. We used logistic regression, considering the Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) as a predictor, to investigate how the coefficient for WIMD is changed when other variables (such as comorbidities and smoking status) are added, aiming to understand whether inequalities are mediated by observed characteristics or related to other unobserved factors.

Initial findings show that age-standardised rates of hospital admissions, Intensive Care Unit (ICU) admissions and deaths were roughly twice as high in the most deprived vs least deprived WIMD quintile in Wales. We estimated Years of Life Lost per 1,000 due to COVID-19 as 28.9 between March 2020 and July 2022, with variation between WIMD quintiles of 38.4 for the most deprived and 22.2 for the least deprived. The project also produced regression formulas to evaluate the contribution of the different confounding factors.

This study built on existing research findings and further explored reasons for socioeconomic inequalities in relation to COVID-19 outcomes. Insights from this study will broaden knowledge around the impact of mediating factors and may contribute to future pandemic preparedness and the formation of future policies.

Lucy Robinson, Welsh Government



Defnyddio Deallusrwydd Artifffisial i Fynd i'r Afael â'r Rhwystrau rhag Ceisio Cefnogaeth ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Cymunedau Ceidwadol


Mae iechyd meddwl yn broblem fydd-eang, gyda darparwyr gofal iechyd yn wynebu baich sylweddol, ac amcanestyniadau yn dangos y bydd y ffigurau'n parhau i gynyddu (Huijie et al 2022). Mewn rhai cymunedau ceidwadol, gall y stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ei gwneud hi'n anodd i bobl fod yn agored am geisio cymorth proffesiynol. Mae dealltwriaeth gyfyngedig o iechyd meddwl mewn cymunedau o'r fath, ac mae hynny'n gallu arwain at gamsyniadau am achosion a thriniaethau priodol ar gyfer salwch meddwl, gan ehangu'r stigma ymhellach. Felly, gellir defnyddio deallusrwydd artifffisial i fynd i'r afael â'r rhwystrau i geisio cymorth iechyd meddwl mewn cymunedau ceidwadol. Y focws yma felly yw llywio datblygiad parhaus sgrysfot deallusrwydd artifffisial, i'w ddefnyddio mewn cymunedau ceidwadol. Ar ôl nodi bwlc yn y driniaeth ar gyfer pobl â salwch meddwl, bydd cyfweliadau lleoedd-strwythuredig a gweithdai meddylfryd dylunio a gynhelir gyda gweithwyr proffesiynol yn Doha, Qatar, yn llywio'r dyluniad sydd ar waith ar gyfer sgrysfot deallusrwydd artifffisial a fydd yn ystyried nodweddion unigryw cymunedau ceidwadol. Mae perthnasedd hyn yn cael ei ddangos yn yr ymchwil a gynhalwyd gan Zolezzi et al (2018). Fe wnaeth yr ymchwil ganfod bod stigma sylweddol yn gysylltiedig â chredoau, gweithred-oedd ac agweddu tuag at iechyd meddwl ymmsg pobl yn Qatar. Mae'r stigma a'r cywilydd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn gallu atal pobl sy'n dioddef rhag chwilio am gymorth, ac felly un ffordd o gefnogi cleifion i fod agored yw sicrhau eu bod yn anhysbys drwy sgrysfot deallusrwydd artifffisial, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel o'r stigma a'r cywilydd. Ni fyddai'r sgrysfot yn gofyn i'r claf ddatgelu gwybodaeth i berson ac felly byddai'n osgoi unrhyw farnu gan eraill.

Wendy Booth a Mabrouka Abuhmida, Prifysgol De Cymru

The Use of Artificial Intelligence to Address the Barriers to Seeking Support for Mental Health in Conservative Communities

Mental health is a global issue, with healthcare providers facing a significant burden, and projections indicating that the figures will continue to rise (Huijie et al 2022). In some conservative communities, the stigma around mental health can make it difficult for people to seek professional help openly. In such communities, there is limited understanding of mental health, which can lead to misconceptions about the causes and appropriate treatments for mental illnesses, further perpetuating the stigma. Artificial intelligence may, therefore, be used to address the barriers to seeking mental health support in conservative communities. Hence, the focus herein is to inform the ongoing development of an AI chatbot for use in conservative communities. Having identified a treatment gap, semi-structured interviews and design thinking workshops held with professionals based in Doha, Qatar, will inform the ongoing design of an AI chatbot that considers the unique characteristics of conservative communities. The relevance of this is shown in the research conducted by Zolezzi et al (2018) as they found stigmatising beliefs, actions and attitudes toward mental health to be significant in the Qatari population. A problem related to the stigma and shame surrounding mental health is that it can prevent those suffering from seeking support, and so one way in which patients can be supported in a more anonymous way so that they feel safe from stigma and shame, is an AI chatbot, as this would not require the patient to divulge information to a person and, therefore, avoids judgement from others.

Wendy Booth and Mabrouka Abuhmida, University of South Wales



Astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar ganfyddiadau gweithwyr achos o broblemau iechyd y geg y mae pobl sy'n ceisio lloches yn ne Cymru yn ei ddioddef

Cefndir

Wrth ystyried anghenion sydd heb eu diwallu, nodwyd mai materion deintyddol yw'r ail angen uchaf i bobl sy'n ceisio lloches gyda phydredd dannedd a chlefyd periodontol amlwg. Ac eto, prin iawn yw'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar anghenion iechyd y geg yn y bobl hyn. Ar ben hynny, ychydig a wyddom am anghenion iechyd y geg pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Roeddem am archwilio canfyddiadau gweithwyr achos o broblemau iechyd y geg a brofir gan bobl sy'n ceisio lloches. Gwnaethom gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein gyda sampl bwrasol o weithwyr achos o dri sefydliad trydydd sector sy'n cefnogi pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Dull

Cynhaliwyd deg cyfweliad lled-strwythuredig ar-lein yn cynnwys gweithwyr achos sy'n cynrychioli sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi pobl sy'n ceisio lloches ar hyn o bryd. Roedd dadansoddi data yn cynnwys defnyddio NVivo a dull ymchwilio triongiant, lle'r oedd yr holl ymchwilwyr yn darllen trawsgrifiadau'n annibynnol a chytuno ar themâu allweddol.

Canlyniadau

Mae'r themâu allweddol a amlygwyd yn y cyfweliadau yn dangos bod pydredd dannedd a chlefyd y deintgig yn gyffredin ymysg pobl sy'n ceisio lloches, yn aml o ganlyniad i fod mewn gwrsylloedd ffoaduriad a methu cael gafael ar ddarpariaethau sylfaenol fel brws a phast dannedd. Mae teithio i awyntiadau brys gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chyllid yn brin hefyd wedi bod yn broblem. Canfuwyd mai diwylliant, trawma blaenorol, materion iaith a diffyg ymwybyddiaeth o iechyd y geg oedd y prif rwystrau o ran cael gafael ar ofal iechyd y geg.

Casgliadau

Mae'r annhegwrch o ran mynediad at ofal iechyd y geg yn parhau i fod yn her i bobl sy'n ceisio lloches. Wrth fynd i'r afael ag ymddygiadau gofal iechyd y geg, mae angen ymyriadau iechyd y geg wedi'u teilwra gan ganolbwytio ar atal problemau deintyddol.

Anne Marie Coll, Teresa Filippone a Dilini Ratnayake, Prifysgol de Cymru

A feasibility study to explore case workers' perceptions of oral health problems experienced by people seeking sanctuary in South Wales

Background

Dental issues present the second highest reported unmet need for people seeking sanctuary with dental caries and periodontal disease highly prevalent. Yet the current evidence base on oral health needs in these people is limited. Moreover, little is known about the oral health needs of people seeking sanctuary in Wales. We wanted to explore caseworkers' perceptions of oral health problems experienced by people seeking sanctuary by undertaking on-line semi-structured interviews with a purposeful sample of case workers from three third sector organisations supporting people seeking sanctuary in Wales.

Method

Ten online semi-structured interviews were conducted involving caseworkers representing third sector organisations currently supporting people seeking sanctuary. Data analysis involved the use of NVivo and investigator triangulation in which all researchers were involved in the independent reading of transcripts and agreement of key themes.

Results

The key themes highlighted from the interviews indicate that there is a prevalence of dental decay and gum disease among people seeking sanctuary, often the result of being in refugee camps with no access to basic provisions of toothbrush and toothpaste. Traveling to emergency appointments using public transport and with limited finances has also been problematic. Culture, previous trauma, language issues and lack of awareness about oral health were found to be main barriers in accessing oral health care.

Conclusions

The inequity of access to oral healthcare continues to pose a challenge for people seeking sanctuary. There is a need for tailored oral health interventions with a focus on prevention in addressing oral healthcare behaviours.

Anne Marie Coll, Teresa Filippone and Dilini Ratnayake, University of South Wales



Effeithiau Arweiniad Gyrfaedd ar Addysg Ôl-orfodol - Tystiolaeth o Gymru.

Wrth i farchnadoedd llafur ddod yn fwy cymhleth, mae'r angen am gyngor proffesiynol ynglŷn â gyrfaoedd yn hanfodol i helpu unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Er gwaethaf y corff cynyddol o ymchwil ar bwysigrwydd annog oedolion ifanc i gymryd rhan mewn addysg ôl-orfodol, mae bylchau helaeth yn ein dealltwriaeth o'r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar y dewisiadau a wneir gan unigolion ifanc o ran addysg a gyrrfa yn y DU, ac effaith ymyriadau polisi amrywiol ar y broses bontio hon. Yn y papur hwn, rydym yn cymryd golwg empirig ar effaith polisi o'r fath yng Nghymru, yn benodol effaith Arweiniad Gyrfaedd mewn addysg ôl-orfodol. Rydym yn defnyddio set ddata unigryw lle cyfunwyd data a gasglwyd o'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC, NPD gynt) ag ymatebion o'r arolwg CareerCheck, a chronfa ddata Cyfrifiad Cymru er mwyn i ni allu edrych ar gefndir academaidd yn ogystal ag economaidd-gymdeithasol dros 90,000 o ddisgyblion, gan gynnwys pedair carfan o ddisgyblion o flynyddoedd academaidd 2015/16 i 2018/19. Drwy archwilio'r ffactorau pwysig sy'n gallu effeithio ar lwybrau dysgu myfyrwyr a'u hymwneud ag addysg ôl-orfodol ac edrych ar grwpiau heterogaidd o blith y myfyrwyr sy'n derbyn Arweiniad Gyrfaedd, mae'r papur hwn yn cyfrannu at asesiadau ar lefel genedlaethol o ymyriadau polisi pwysig yn y farchnad llafur yng Nghymru. Mae'r papur yn pwysa a mesur pa wahanol fathau o ymyriadau sy'n gysylltiedig â gyrrfa (e.e. cyfweliadau, strategaethau cadw mewn cysylltiad ac ati) o fewn ymbarél Arweiniad Gyrfaedd sy'n sicrhau'r canlyniadau mwyaf ffafriol, a thrwy hynny, tynnir sylw at bwysigrwydd cymharol pob un o'r dulliau hyn.

Utsa Banerjee, Prifysgol Caerhirfryn

Effects of Career Guidance on Post-Compulsory Education - Evidence from Wales.

As labour markets become more complex, the need for professional advice on careers is essential to help individuals make informed decisions about their futures. Despite the growing body of research on the importance of encouraging young adults to participate in post-compulsory education, there exist extensive gaps in our understanding of the socio-economic factors that affect the educational and career choices of young individuals in the UK, and the impact of various policy interventions on this transition. In this paper, we empirically examine the impact that such a policy in Wales, specifically the impact of Career Guidance in post-compulsory education. We use a unique dataset where data collected from the National Data Collection (NDC, formerly, NPD) has been combined with responses from the Career Check survey, and the Welsh Census database to enable us to look at the academic as well as socio-economic backgrounds of over 90,000 pupils, covering four pupil cohorts from the academic years 2015/16 to 2018/19. By examining the important factors that can potentially affect students' learning pathways and involvement in post-compulsory education and looking at heterogenous groups within the students receiving Career Guidance, this paper facilitates national level assessments of an important labour market policy interventions in Wales. The paper explores which different types of careers-related intervention (e.g., interviews, keeping in touch strategies etc.) within the umbrella of Career Guidance bring the most desired outcomes thereby highlighting the relative importance of each of these methods.

Utsa Banerjee, Lancaster University



Gwaith ac Anableddau Dysgu: cyd-gynhyrchu ymchwil ynglŷn â chyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu

Mae'r tîm Ymchwil a Gwerthuso o fewn y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) yn gweithio gyda chymunedau i ddeall beth sy'n gweithio i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn bywyd. Byddwn yn myfyrio ar y broses o gydgynt ymchwil cyflogaeth gyda phobl ag anableddau dysgu, i gynnig awgrymiadau am arferion ymchwil cynhwysol.

Dim ond tua 6% o bobl ag anableddau dysgu yn y DU sydd mewn swydd gyflogedig, sy'n dangos gwahaniaethau sylweddol mewn cyflogaeth (GIG Digidol, 2021). Mae gan bobl ag anableddau dysgu yr hawl i weithio ar delerau cyfartal ag eraill ac mae cyflogaeth yn parhau i fod yn flaenorriaeth i grwpiau hunan-eiriolaeth (Anabledd Dysgu Cymru, 2019). Ymchwiliodd NDTi, a ariannwyd gan Mencap, i ddyheadau, profiadau a rhwystrau pobl ag anableddau dysgu o ran cyflogaeth gyflogedig.

Cyd-gynlluniodd gweithgor o bobl ag anableddau dysgu y dulliau ymchwil, gyda dau aelod yn gweithio fel cyd-ymchwilwyr cyflogedig. Cymerodd pumdeg un o bobl ag anableddau dysgu ran mewn sgyrsiau grwpiau ffocws, ymatebodd 188 o bobl i arolwg hawdd ei ddeall a chafodd 18 o gyflogwyr eu cyfweld.

Roedd gan bobl ystod eang o ddyheadau cyflogaeth ar draws nifer o sectorau a rolau. Roedd ffactorau pwysig yn cynnwys cael eu talu, datblygu sgiliau, dilyn diddordebau a gwneud gwahaniaeth. Y prif rwystr i waith cyflogedig oedd pryder am yr effaith bosib ar fudd-daliadau, ochr yn ochr â phrofiadau o wahaniaethu, cymorth o ansawdd gwael a phrosesau recriwtio anhygrych.

Cynhyrchodd yr ymchwil argymhellion diwylliannol, lleol, cenedlaethol a sefydliadol o ran cyflogi pobl ag anabledd dysgu. Mae'r dull cydlunio wedi'i ailadrodd yn llwyddiannus ac adeiladwyd arno, i ddatblygu pecyn hyfforddi hygrych i ymchwilwyr cymheiriaid, gan gefnogi mwy o bobl i wneud gwaith ymchwil â thâl.

Lauren Blood, George Evans a Victoria Mason-Angelow, Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Inclusion.

Work and Learning Disability: co-producing research about employment for people with learning disabilities

The Research & Evaluation team at the National Development Team for Inclusion (NDTi) works with communities to understand what works to promote equal life opportunities. We will reflect upon the process of co-producing employment research with people with learning disabilities, to offer suggestions for inclusive research practice.

Only around 6% of people with a learning disability in the UK have a paid job, indicating considerable disparities in employment (NHS Digital, 2021). People with a learning disability have the right to work on equal terms with others and employment remains a priority for self-advocacy groups (Learning Disability Wales, 2019). NDTi, funded by Mencap, researched people with learning disabilities' aspirations, experiences and barriers to paid employment.

A working group of people with learning disabilities co-designed the research methods, with two members working as paid co-researchers. Fifty-one people with learning disabilities participated in focus group conversations, 188 people responded to an easy-read survey and 18 employers were interviewed.

People held a wide range of employment aspirations spanning many sectors and roles. Important factors included being paid, skills development, following passions and making a difference. The main barrier to paid work was concern about possible impact on benefits, alongside experiences of discrimination, poor quality support and inaccessible recruitment processes.

The research generated cultural, local, national and organizational recommendations towards employing people with a learning disability. The co-design approach has been successfully replicated and built upon, to develop an accessible training package for peer researchers, supporting more people to undertake paid research work.

Lauren Blood, George Evans and Victoria Mason-Angelow, National Development Team for Inclusion



Llwybrau a chanlyniadau addysgol ar gyfer plant sydd wedi profi gofal: astudiaeth cysylltu data ar raddfa'r boblogaeth – EL SB

Mae plant sy'n profi cyfnodau cymharol fyr o ofal – a/neu sy'n profi gofal yn gynnar neu ar ddiwedd eu plentyndod – yn aml yn wynebu'r bwlch mwyaf arwyddocaol yn eu cyrhaeddiad addysgol, o gymharu â'r rhai â phrofiadau hwy a mwy sefydlog o ofal. Mae dadansoddiadau esboniadol yn awgrymu y gallai ataliadau, gwaharddiadau a bod yn ddysgwr awtistig esbonio rhywfaint o'r anfantais hwn, lle gallai ysgolion sy'n cefnogi plant o dan anfantais fod yn ffactor diogelu. Er hynny, mae bwlch gwybodaeth yn parhau yn nhermau symudiadau gofal, cyrhaeddiad addysgol a "beth sy'n gweithio", felly rydym yn holi tri chwestiwn:

1. Sut allwn ni sicrhau gwybodaeth newydd am brofiadau o ofal gan ddefnyddio mesurau fel hyd cyfnod o ofal, y math o ofal, a'r rhesymau dros y gofal?
2. Beth yw'r cyrhaeddiad addysgol ar gyfer y mathau o ofal a nodwyd ar gyfer plant 7 ac 11 oed?
3. Pa agweddu o'r ysgol ac agweddu unigol sy'n amharu ar neu'n esbonio'r berthynas rhwng y profiad o ofal a chyrhaeddiad addysgol?

Gan ddefnyddio'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), rydym wedi cyrchu data newydd ac wedi creu carfan electronig o blant a anwyd rhwng 1 Medi 2000 a 31 Awst 2003.

Fe wnaethom gymhwysyo techneg proffilio ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf mewn gofal, ac archwilio sut mae pob grŵp yn perfformio'n addysgol yn 7 oed, gan addasu ar gyfer cyd-newidynnau allweddol. Daeth gwahaniaethau amlwg mewn cyrhaeddiad i'r amlwg ar draws proffiliau, gan roi cipolwg ar hanes lleoliadau plant. Yn dilyn hynny, gwnaethom ailadrodd y dadansoddiad hwn ar gyfer 10 mlynedd gyntaf bywyd a chanlyniadau 11 oed. Mae ein dadansoddiadau terfynol yn cynnwys profi cyfryngu i ddeall y ffactorau sy'n esbonio'r cysylltiad rhwng y proffiliau profiad-gofal a nodwyd a chyrhaeddiad addysgol.

Emily Lowthian a Stuart Bedson, Pryfysgol Abertawe

Educational pathways and outcomes for care-experienced children: a population-scale data linkage study – EL SB

Children who have relatively short periods of care – and/or who experience care in early or late childhood – commonly face the most significant deficit in their educational attainment compared to those with longer and more stable care experiences. Explanatory analyses suggest suspensions, exclusions and being an autistic learner could explain some of this disadvantage, whereas schools that support disadvantaged children could be a protective factor. Yet, a knowledge gap remains in terms of care movements, educational attainment and "what works", so we ask three questions:

1. How can we generate new insight into care-experiences using measures such as duration of care period, type of care, and reasons for care?
2. What is the educational attainment for the types of care identified for children at age 7 and 11?
3. What school and individual aspects disrupt or explain the relationship between care-experience and educational attainment?

Leveraging the Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) Databank, we have accessed new data and constructed an electronic cohort of children born between 1st September 2000 and 31st August 2003.

We applied a profiling technique for the first 5 years in care, and explored how each group performs educationally at age 7, adjusting for key covariates. Distinct differences in attainment across profiles emerged, providing insights into children's placement histories. Subsequently, we repeated this analysis for the first 10 years of life and age 11 results. Our final analyses involve testing mediation to understand the factors explaining the link between the care-experience profiles identified and educational attainment.

Emily Lowthian and Stuart Bedson, Swansea University



Gwaith teg ar gyfer iechyd, lles a thegwch

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu dull arloesol o ddeall a datblygu atebion mewn perthynas â'r broblem gymhleth o gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yng Nghymru. Fe wnaethom sefydlu panel arbenigol a roddodd gyfle i ni gryfhau ein dealltwriaeth a datblygu atebion ar sut y gall asiantaethau lleol a rhanbarthol gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru.

Aeth y panel arbenigol ati i adolygu dystiolaeth gan lechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr pwnc, gan nodi dystiolaeth ychwanegol, a dod ag arbenigedd yr aelodau eu hunain i lunio themâu, cyfleoedd a draffio argymhellion ar gyfer partneriaid lleol a rhanbarthol i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg i wella iechyd, llesiant a thegwch. Fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w helpu i gysylltu gwaith teg ac iechyd a deall pa gamau y gallant eu cymryd, ac fe wnaethom gasglu gwybodaeth am eu blaenoriaethau, eu heriau a'u hanghenion presennol mewn perthynas â datblygu gwaith teg yn lleol ac yn rhanbarthol.

Fe wnaethom ddadansoddiad bwrdd gwaith i archwilio i ba raddau y mae camau gweithredu sy'n ymwneud â gwaith teg i'w gweld yng Nghynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a chynlluniau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan wneud i ni ddeall mwy am ymyriadau polisi ac ymrwymiadau mewn perthynas â gwaith teg yn lleol ac yn rhanbarthol.

Defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau ymchwil traddodiadol wrth ddadansoddi'r broblem, fel adolygu ymchwil a data presennol yn ogystal â chasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Mae'r dull hwn wedi galluogi ein tîm i godi proffil gwaith teg mewn perthynas ag iechyd, llesiant a thegwch, a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer problem sy'n gymhleth.

Cerys Preece, lechyd Cyhoeddus Cymru.

Fair work for health, well-being and equity

Public Health Wales have taken an innovative approach in understanding and developing solutions in relation to the complex problem of increasing participation in fair work in Wales. We established an expert panel which allowed us to deepen our understanding and develop solutions on how local and regional agencies can increase participation in fair work for health, well-being and equity in Wales.

The expert panel reviewed evidence from PHW and subject experts, identified additional evidence, and brought member's own expertise to formulate themes, opportunities and draft recommendations for local and regional partners to increase participation in fair work to improve health, well-being and equity. We engaged with stakeholders to help them to connect fair work and health and understand what action they can take and gathered insights on their priorities, challenges and current needs in relation to progressing fair work locally and regionally.

We undertook a desktop analysis to examine the extent of fair work actions within Public Service Boards Wellbeing Plans and Regional Economic Frameworks and Regional Skills Partnership plans, increasing our understanding of policy interventions and commitments in relation to fair work locally and regionally.

A mixture of traditional research approaches was taken when analysing the problem, such as reviewing existing data and research as well as gathering insights and engaging with key stakeholders in Wales. This approach has allowed our team to raise the profile of fair work in relation to health, well-being and equity and contribute to the evidence base in what is a complex problem.

Cerys Preece, Public Health Wales



Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Rhanddeiliaid Menter Gymdeithasol ar weledigaeth a chynllun gweithredu deng mlynedd 2020

Yn 2020, cyhoeddodd y Grŵp Rhanddeiliaid Menter Gymdeithasol eu gweledigaeth a'u cynllun gweithredu deng mlynedd: Trawsnewid Cymru drwy Fenter Gymdeithasol. Wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan fentrau cymdeithasol ac asiantaethau cefnogi mentrau cymdeithasol, roedd y cynllun gweithredu'n amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol i sicrhau bod menter gymdeithasol yn cael ei hystyried fel y model busnes o ddewis yng Nghymru erbyn 2030.

Mae menter gymdeithasol yn fusnes gydag amcanion cymdeithasol a defnyddir ei helw yn bennaf ar gyfer achosion da, yn hytrach na'i roi i gyfranddalwyr a pherchnogion. Mae'r sector wedi profi heriau a chyfleoedd newydd yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac mae consensws cynyddol bod angen newid ein heonomi i un sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd, tegwch a chyd-raddoldeb.

Mae ein Gweledigaeth a'n Cynllun Gweithredu wedi ceisio grymuso pobl, cymunedau a'r sector mentrau cymdeithasol ei hun er mwyn cyflawni datrysiau i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn y papur hwn, rydym eisiau diweddu ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid ar y cynydd rydym wedi'i wneud i gyflawni'r uchelgeisiau yn yr adroddiad.

Byddwn yn asesu sut mae'r sector wedi perfformio yn erbyn y canlyniadau a nodwyd yn y weledigaeth a'r cynllun gweithredu gwreiddiol, ac yn trafod profiad ac effaith y sector yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac yn amlinellu'r hyn sydd angen digwydd i sicrhau y gall y sector gael yr effaith fwyaf posibl ar economi Cymru a'n cymunedau.

Credwn y dylai'r sector bywiog, dylanwadol hwn fod wrth wraidd y ffordd yr ydym yn ad-drefnu ein heonomi i ateb yr heriau sy'n ein hwynebu ac edrychwn ymlaen at drafod ei botensial gyda chi.

Dan Roberts, Grŵp Rhanddeiliaid Menter Gymdeithasol (Cwmpas fel aelod-sefydliad)

Transforming Wales through social enterprise: Update from the Social Enterprise Stakeholder Group on the 2020 ten-year vision and action plan

In 2020, the Social Enterprise Stakeholder Group published its ten-year vision and action plan: Transforming Wales through Social Enterprise. Co-produced by social enterprises and social enterprise support agencies, the action plan outlined an ambitious vision to see social enterprise become the business model of choice in Wales by 2030.

A social enterprise is a business with social objectives whose profits are principally used for a good cause, rather than being given to shareholders and owners. The past four years have seen new challenges and opportunities for the sector, and there is a growing consensus that our economy needs to change to one that prioritises sustainability, fairness and equality.

Our Vision and Action Plan sought to empower people, communities and the social enterprise sector itself to deliver solutions to social, economic and environmental challenges. In this paper, we want to update colleagues and stakeholders on the progress we have made on achieving the ambitions in the report.

We will assess how the sector has performed against the outcomes identified in the original vision and action plan, discuss the experience and impact of the sector during the past three years, and outline what needs to happen to ensure that the sector can maximise its impact in the Welsh economy and our communities.

We think that this vibrant, impactful sector should be at the heart of how we re-configure our economy to meet the challenges we face and look forward to discussing its potential with you.

Dan Roberts, Social Enterprise Stakeholder Group (Cwmpas as member organisation)



Asesu Pa Mor Effeithiol yw Cymunedau am Waith am Gefnogi Pobl i Gael Gwaith

Mae'r papur hwn yn archwilio pa mor effeithiol yw'r rhaglen Cymunedau am Waith a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy a ariennir gan Lywodraeth Cymru, am gefnogi pobl i ddod o hyd i waith. Nod cyffredinol y rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yw cynyddu cyflogadwyedd (a chyflogaeth) oedolion sy'n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth, a lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn gryno, mae'r gefnogaeth a geir drwy'r rhaglenni hyn yn canolbwytio ar gynghorwyr sy'n cefnogi cleientiaid drwy ddarparu mentora dwys a chyngor arbenigol ar gyflogaeth; hwyluso mynediad at hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli; a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill. Mae'r papur hwn yn archwilio pa mor effeithiol yw Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, drwy gymharu canlyniadau cyflogaeth y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hyn â'r rhai a welir fel arfer ymyst pobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn y farchnad lafur ehangach. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data o Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac arolwg pwrrpasol o gyfranogwyr Cymunedau am Waith a Mwy. Mae data o Arolwg Poblogaeth Flynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu grwpiau rheoli er mwyn gallu cymharu canlyniadau cyfranogwyr Cymunedau am Waith â chanlyniadau Chymunedau am Waith a Mwy. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cymryd rhan mewn Cymunedau am Waith neu Gymunedau am Waith a Mwy yn gysylltiedig â chynnydd o 10 pwynt canran mewn cyflogaeth ar 12 mis ar ôl cymryd rhan yn y rhaglenni hyn. Mae'r dadansoddiad yn dangos, er bod y cynlluniau hyn wedi cynyddu nifer y bobl sy'n symud i gyflogaeth, y byddai llawer wedi bod yn debygol o symud i gyflogaeth hyd yn oed heb gefnogaeth.

Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd, WISERD

Assessing the Effectiveness of Communities for Work in Supporting People into Employment

This paper examines the effectiveness of the European Social Funded programme (ESF) Communities for Work (CfW) and the Welsh Government (WG) funded Communities for Work Plus (CfW+) programme in supporting people to find work. The broad aim of the CfW and CfW+ programmes is to increase the employability (and employment) of adults with complex barriers to employment and reduce the number of 16–24-year-olds who are not in education, employment, or training (NEET). In summary, support from these programmes is centred upon advisers who support clients by providing intensive mentoring and specialist employment advice; facilitating access to training, work placements and/or volunteering opportunities; and signposting to other support services. This paper examines the effectiveness of CfW and CfW+ by comparing the employment outcomes of participants in these schemes with those typically observed among similarly unemployed or economically inactive people within the wider labour market. The analysis uses data from the ESF Participants Survey and a dedicated survey of CfW+ participants. Data from the Office for National Statistics (ONS) Annual Population Survey (APS) is also used to derive control groups so that the outcomes of CfW/CfW+ participants can be compared. Analysis reveals that taken together, participation in either CfW or CfW+ is associated with an increase in employment of 10 percentage points at 12 months following participation in these programmes. The analysis reveals that whilst these schemes have increased the number of people moving into employment, many would have been likely to have entered work even in the absence of support.

Rhys Davies, Cardiff University WISERD



Terfynau Cyflymder 20 mya a Damweiniau Traffig Ffyrdd yn Siroedd Cymru: Dull Dysgu Peiriant o Werthuso Polisi

Pretty Karibo, Prifysgol Bangor

20 mph Speed Limits and Road Traffic Accidents in Welsh Counties: A Machine Learning Approach to Policy Evaluation

Pretty Karibo, Bangor University



Amgylcheddau Data Lleol: Mynediad at ddata a thystiolaeth leol, a'r defnydd ohonynt, yn ne-orllewin Cymru

Dylai data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus fod ar gael yn agored heb lawer o gyfyngiadau (UKRI, 2015). Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y gellir sicrhau hygyrchedd data a thystiolaeth a gesglir am y cyhoedd, gan ddefnyddio arian cyhoeddus, yn enwedig ar lefel leol. Mae hyn yn codi cwestiynau am ymwybyddiaeth y cyhoedd a mynediad at y symiau enfawr o ddata a gasglwyd amdanyst a manteision posibl mynediad o'r fath.

Mae'r papur hwn yn adrodd ar Adolygiad Tystiolaeth Cyflym a gynhaliwyd yn Hydref 2023 yn Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol Prifysgol Abertawe (LCRO), sef cyfleuster ymchwil newydd sy'n seiliedig ar le ac sydd wedi'i gyd-greu. Nod yr adolygiad oedd deall y mathau o ddata lleol a gynhyrchir ac a ddefnyddir gan sefydliadau lleol yn ne-orllewin Cymru, a'u hygyrchedd. Drwy chwiliad llenyddiaeth llwyd ac ymgynghoriadau gyda 52 o unigolion o 27 sefydliad, mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu ymwybyddiaeth eang o gasglu data o fewn sefydliadau, ond tanddefnydd oherwydd materion fel cyflawni safonau data a rennir, llythrennedd data isel, ac adnoddau a chapasiti cyfyngedig. Mae rhannu data rhwng sefydliadau a'r cyhoedd yn gymhleth, ac wedi'i gymhlethu ymhellach gan bryderon diogelu data.

Serch hynny, mae'r adolygiad yn dangos y gallai llawer o sefydliadau lleol, gan gynnwys elusennau a grwpiau cymunedol, elwa'n sylweddol o gael mynediad at ddata a thystiolaeth am leoedd a phobl leol. Mae'r LCRO yn cynnig y gallai Sefydliadau Addysg Uwch gefnogi mynediad cyhoeddus at ddata a thystiolaeth drwy ddarparu cymorth annibynnol gyda rheoli data a brocera tystiolaeth yn effeithiol. Gallai hyn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o amgylcheddau tystiolaeth lleol a hwyluso rhannu data a thystiolaeth er budd y cyhoedd, o bosibl drwy gynhyrchu data a phecynnau tystiolaeth wedi'u teilwra i feysydd sydd o ddiddordeb strategol i'r cyhoedd.

Tom Avery, Prifysgol Abertawe

Local Data Environments: Access to and use of local data and evidence in South West Wales

Publicly funded research data should be made openly available with minimal restrictions (UKRI, 2015). However, it remains unclear how data and evidence collected about the public using public money can be made accessible, especially at the local level. This raises questions about public awareness and access to the vast amounts of data collected about them and the potential benefits of such access.

This paper reports on a Rapid Evidence Review conducted in Autumn 2023 at the Swansea University Local Challenges Research Office (LCRO), a new place-based and co-created research capacity. The review aimed to understand the types of local data generated and used by local organizations in south west Wales and their accessibility. Through a grey literature search and consultations with 52 individuals from 27 organizations, the review findings suggest a broad awareness of data collection within organizations but underutilization due to issues such as achieving shared data standards, low data literacy, and limited resources and capacity. Sharing data between organizations and with the public is complex, further complicated by data protection concerns.

Nevertheless, the review indicates that many local organizations, including charities and community groups, could benefit significantly from access to data and evidence about local places and people. The LCRO proposes that Higher Education Institutions could support public access to data and evidence by providing independent assistance with data management and effective brokerage of evidence. This could promote a shared understanding of local evidence environments and facilitate data and evidence sharing for the public good, potentially through the production of data and evidence packages tailored to strategically identified areas of public interest.

Tom Avery, Swansea University



Performiad Mewnfudwyr yn y Farchnad Lafur: Tystiolaeth Newydd o Ddata

Gweinyddo Cysylltiedig

Gan ddefnyddio data gweinyddol o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion sy'n gysylltiedig â Chyfrifiad Cymru a Lloegr 2011, mae'r papur hwn yn archwilio perfformiad mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf yn y farchnad lafur ac yn ei gymharu â pherfformiad gweithwyr a anwyd yn y DU. Drwy ganolbwytio ar ganlyniadau amrywiol yn y farchnad lafur a gwahaniaethu rhwng mewnfudwyr yn seiliedig ar eu blynnyddoedd yn byw yn y DU, mae'r dadansoddiad yn dangos bod mewnfudwyr mwy diweddar, ar gyfartaledd, yn ennill llai, yn gweithio oriau hirach, ac yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau sgiliau isel neu gyflogaeth dros dro o'u cymharu â gweithwyr cyfatebol a aned yn y DU. Fodd bynnag, mae perfformiad mewnfudwyr yn y farchnad lafur sydd â deng mlynedd neu fwy o breswyliad yn y DU yn debycach i berfformiad eu cyd-breswylwyr a aned yn y DU. Mae'r patrymau hyn yn debyg i ddynion a menywod, ond mae heterogenedd sylweddol o ran ethnigrwydd, a gwlad tarddiad, yn ogystal ag ar draws y dosbarthiad cyflog.

Ezgi Kaya, Prifysgol Caerdydd

Labour Market Performance of Immigrants: New Evidence from Linked Administrative Data

Using administrative data from the Annual Survey of Hours and Earnings linked to the 2011 Census of England and Wales, this paper explores the labour market performance of first-generation immigrants and compares it to that of UK-born employees. By focusing on various labour market outcomes and distinguishing immigrants based on their years of residence in the UK, the analysis reveals that more recent immigrants, on average, earn less, work longer hours, and are more likely to be employed in low-skilled occupations or temporary employment compared to observationally equivalent UK-born employees. However, the labour market performance of immigrants with ten or more years of residence in the UK is more comparable to that of their UK-born counterparts. These patterns are similar for males and females, but there is considerable heterogeneity in terms of ethnicity, and country of origin, as well as across the pay distribution.

Ezgi Kaya, Cardiff University



Beth yw 'cyfran deg' o ddefnydd adnoddau materol? Yr heriau a'r cymhlethdod o ran cyfrifo targedau defnyddio adnoddau materol yn gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r cysyniad o gyfrifoldeb 'cyfran deg' wedi dod yn amlwg wrth lunio polisiau amgylchedol yn ystod y blynnyddedd diwethaf, wrth i lywodraethau a chytundebau hinsawdd rhyngwladol fynd i'r afael fwyfwy â rolau a chyfrifoldeb diffiniedig gwledydd i weithredu. Cyflwynodd y mudiad cyfiawnder amgylcheddol, trwy'r llenyddiaeth academ-aidd cysylltiedig oedd yn deillio o'r Unol Daleithiau yn y 1960^{au}, gysyniadau megis cyfiawnder amgylcheddol cenedliadol a hiliaeth amgylcheddol a oedd yn adlewyrchu sut yr effeithiodd niwed amgylcheddol yn anghymesur ar boblogaethau ymylol (McGurty, 1997, Walker a Bulkeley, 2006). Roedd y nifer cynyddol o ymhwymiadau amgylcheddol rhyngwladol a ddaeth i'r amlwg yn y degawdau dilynol yn ymhelaethu ar lawer o'r cysyniadau damcaniaethol hyn – mae Mandat Berlin (1995), Protocol Kyoto (1997) a Chytundeb Paris (2015) i gyd yn cynnwys amrywiadau o'r cysyniad o 'gyfrifoldebau cyffredin ond gwahaniaethol' i weithredu ar newid yn yr hinsawdd, oherwydd 'tra bod pob gwlaid yn gyfrifol am broblemau amgylcheddol byd-eang... mae rhai yn fwy cyfrifol nag eraill' (Harris, 1999; 3).

Fodd bynnag, er bod polisiau a disgwrs poblogaidd yn cyfeirio fwyfwy at 'gyfrifoldebau cyfran deg', nid oes un diffiniad ar gyfer ei ysty (Rajamani et al, 2021), nac ychwaith fethodoleg gyffredinol a ddefnyddir i bennu 'cyfran deg' gwledydd unigol. Mae diffyg cydlyniad yngylch ystyr y term, ynghyd â dulliau amrywiol a ddefnyddir mewn gwahanol ranbarthau, yn golygu ei fod yn gysyniad sy'n dueddol o gael ei ddefnyddio'n eang mewn dogfennau polisi, er nad oes modd ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae'r cyflwyniad hwn yn seiliedig ar ffyrdodau yn dilyn internaeth ESRC yn Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil i ddangosyddion polisi economi gylchol. Yng Nghymru, mae'r cysyniad o degwch amgylcheddol a chyfrifoldeb byd-eang wedi cael ei amlygu yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dydadol 2015. Ystyrir bod y Ddeddf hon 'wrth galon' *Mwy nag Ailgylchu*, strategaeth Economi Gylchol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021; 14), sy'n cyflwyno'r cwestiwn ymchwil craidd: sut gellid cyfrifo 'cyfran deg' o'r adnoddau a ddefnyddir ar lefel genedlaethol? Mewn polisiau cyfoes, mae'r cysyniad o gyfran deg yn cael ei gymhwys o fwyaf cyffredin i allyriadau carbon, ond mae nifer o heriau methodolegol, damcaniaethol a gwleidyddol yn dod i'r amlwg wrth gyfrif am ddefnyddio adnoddau eraill. Bydd y cyflwyniad hwn yn adolygu'r llenyddiaeth sy'n sail i'r ddamcaniaeth defnydd 'cyfran deg' ac yna'n archwilio'r ymdrechion presennol i gyfrifo cyfran deg o ddefnydd adnoddau, gan gynnwys astudiaethau achos academiaidd ac astudiaethau achos polisi. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â manteision a chyfngiadau gosod dangosyddion polisi cyfran deg, gyda'r nod o ysgogi trafodaeth academiaidd a pholisi pellach ar y pwnc.

Megan O' Byrne, Prifysgol Caerdydd

A 'fair share' of material resources: the challenges and complexity of calculating globally responsible material footprints in national policy

The concept of a 'fair share' responsibility has become prominent within environmental policymaking in recent years, as governments and international climate agreements increasingly address countries' defined roles and responsibility to act. The environmental justice movement and its related academic literature emerging from the US in the 1960s introduced concepts such as generational environmental justice and environmental racism that reflected how marginalised populations were disproportionately impacted by environmental harm (McGurty, 1997, Walker and Bulkeley, 2006). The growing number of international environmental commitments that emerged in the following decades expanded on many of these theoretical concepts – the Berlin Mandate (1995), the Kyoto Protocol (1997) and the Paris Agreement (2015) all contain variations of the concept of 'common but differentiated responsibilities' to act on climate change, as 'while all countries are responsible for global environmental problems... some are more responsible than others' (Harris, 1999; 3).

However, while policy and popular discourse increasingly references 'fair share responsibilities', there is no single definition for it's meaning (Rajamani et al, 2021), nor a universal methodology used to determine 'the fair share' of countries. A lack of coherence around the meaning of the term, combined with varied approaches used in different regions, make it a concept susceptible to widespread use in policy documents but without capacity for use in practice. This presentation is based on reflections following an ESRC internship within Welsh Government which involved research into circular economy policy indicators. In Wales, the concept of environmental equity and global responsibility has been foregrounded in the unique Well-Being of Future Generations Act 2015. This Act is considered to be 'at the heart of' Beyond Recycling, the Welsh CE strategy (Welsh Government, 2021; 14), which introduces the core research question: how could a 'fair share' of resource consumption be calculated on a national level? In contemporary policies, the fair share concept is most commonly applied to carbon emissions, but a number of methodological, theoretical and political challenges emerge when accounting for other resource use. This presentation will review the literature that underpins the theory of 'fair share' usage and then explore the existing attempts made to calculate a fair share of material consumption, including both academic and policy case studies. It will also address the benefits and limitations of setting fair share policy indicators, with the aim of generating further academic and policy discourse on the topic.

Megan O' Byrne, Cardiff University



Effaith Unigrwydd ar Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhyngwladol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig

Gall myfyrwyr rhyngwladol, sy'n cael eu hystyried yn aml fel grŵp pwysig o breswylwyr, wynebu heriau unigryw fel rhwystrau ieithyddol, gwahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol, a gwahaniaethu. Gallai rhai myfyrwyr rhyngwladol deimlo'n gyson nad ydynt yn perthyn, hiraeth a straen ymgyngefion, a allai arwain at straen, gorbryder, iselder, unigrwydd, a hyd yn oed synio am hunanladdiad. Mae gan unig-rwydd ac ynysigrwydd berthynas ddeugyfeiriol â phryder ac iselder a gallai hefyd arwain at broblemau iechyd a lles difrifol yn hwyrach mewn bywyd. Mae dros 25,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, serch hynny, ni chynhaliwyd unrhyw astudiaeth i asesu effaith unigrwydd ar y boblogaeth hon.

Nod cyffredinol yr astudiaeth hon yw asesu pa mor gyffredin yw unigrwydd, gorbryder ac iselder ymhlieth myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru a nodi'r ffactorau achosol yn ogystal ag effaith y cyflyrau iechyd meddwl hyn ar iechyd a lles myfyrwyr rhyngwladol. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Gyfadran y Gwyddorau Bywyd a Phwyllgor Adolygu Moeseg Addysg Prifysgol De Cymru. Caiff myfyrwyr rhyngwladol sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn unrhyw un o'r wth prifysgol yng Nghymru eu gwahodd ar gyfer astudiaeth aml-ddull Dylunio Dilyniannol Esboniadol. Ar hyn o bryd, mae astudiaeth draws-adrannol ddisgrifiadol yn cael ei chynnal a bydd cyfweliadau manwl i ddilyn.

Byddai canfyddiadau'r astudiaeth hon yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau iechyd a lles a gweithgareddau sy'n canolbwytio ar fyfyrwyr rhyngwladol. Byddai'r canfyddiadau hefyd yn cefnogi ymgyrch y DU *Better Health: Every Mind Matters*, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Nod Datblygu Cynaliadwy – 3.

Allweddeiriau: Myfyrwyr Rhyngwladol, Llesiant, Unigrwydd, Ynysigrwydd, Gorbryder, Iselder

Lasith Dissanayake, Prifysgol de Cymru

The Impact of Loneliness on the Health and Well-being of International Students in Wales, United Kingdom

International students, often considered as an important group of sojourners may experience unique challenges such as language barriers, social and cultural differences, and discrimination. Some international students could persistently feel a lack of belonging, homesickness, and acculturative stress, which could lead to stress, anxiety, depression, loneliness, and even suicidal ideations. Loneliness and isolation have a bi-directional relationship with anxiety and depression and could also lead to severe health and well-being problems in later life stages. There are over 25,000 international students in Wales, however, no study has been conducted to assess the impact of loneliness in this population.

The overall aim of this study is to assess the prevalence of loneliness, anxiety, and depression among international students studying in universities in Wales and identify the causative factors as well as the impact of these mental health conditions on international students' health and well-being. Ethics approval was obtained from the University of South Wales, Faculty of Life Sciences and Education Ethics Review Committee. International students currently enrolled in any of the eight universities located in Wales are invited for an Explanatory Sequential Design mixed-method study. Currently, a descriptive cross-sectional study is being conducted and this will be followed by in-depth interviews.

The findings of this study would have a direct impact on the health and well-being services and activities implemented focusing on international students. The findings would also support the Better Health: Every Mind Matters Campaign UK, Well-being of Future Generations - Wales Act 2015, and the Sustainable Development Goal – 3.

Keywords: International Students, Well-being, Loneliness, Isolation, Anxiety, Depression

Lasith Dissanayake, University of South Wales



Gofal hirdymor nad yw mewn sefydliad: Tarfu, arloesi mewn systemau a'r gallu i greu.

Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Jackie's Revolution yn cynnig gweledigaeth newydd ar gyfer gofal hirdymor sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n bryd cydnabod y realiti anghyfforddus sydd wedi ymwriddio yn yr arfer o sefydliadu fel y ffordd ddiofyn o ddarparu gwasanaethau gofal hirdymor i oedolion hŷn sy'n ddinas-yddion yng Nghymru.

Mae ymchwil yn dangos nad yw pobl am gael eu sefydliadu pan fyddan nhw'n cyrraedd oed mawr, ac mae'r darlun yn y meddwl o fyw mewn sefydliad yn nes ymlaen mewn bywyd yn codi ofn ar y rhan fwyaf o bobl (JRF 2012, Osmond 2018). Mae gan ein cenhedlaeth ni ddisgwyliadau uwch, yn gofyn am lawer mwy, ac yn cael profiadau gwahanol yn nes ymlaen mewn bywyd.

Mae ein dulliau gweithredu yn seiliedig ar arloesi mewn systemau. Ein nod yw chwalu'r model o sefydliadau'n cynnig gofal hirdymor i oedolion hŷn yng Nghymru. Ein hamcan strategol yw creu'r arddangosydd cyntaf mewn tai i ddiffinio, profi, efelychu a gwerthuso dulliau ansefydliadol o ddarparu gofal hirdymor, ni waeth beth fo'r cyflwr cymdeithasol a/neu feddygol.

Roedd ein prosiect "Tell me What You Really Really Want", a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, yn edrych yn fanwl ar deimladau'r genhedlaeth a aned ar adeg lle bu cynnydd yn nifer y babanod, ynglych lle bydden nhw'n dymuno bod yn nes ymlaen yn eu bywyd, neu ar ddiweddu eu hoes, i lywio ein gwaith. Ein nod oedd helpu dinasyddion i ddod yn ddylunwyr ac yn gydweithredwyr er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial llawnaf ym mlynnyddoedd hwyr eu bywyd. Fe wnaethom gynnig rhai cwestiynau heriol mewn trafodaethau grŵp bach. Gwelsom mai blaenoraiethau pobl ar gyfer eu bywyd delfrydol yn nes ymlaen oedd yr un pethau y mae pobl wedi'u dymuno erioed, bywyd cymdeithasol a gweithgareddau hamdden; natur; cartref; ffrindiau a theulu, ac iechyd a lles.

Cyfeiriadau

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (2019) "*The Appropriate and Rightsizing Approach: Housing aspirations of older adults in Gwent.*" Dr Julia Osmond, adroddiad a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Kennedy J (2012) JRF gwefan www.jrf.org.uk/careinquiry

Jackie Marshall-Cyrus a Lorraine Morgan, Chwyldro Jackie

Non-institutional long-term care: Disruption, systems innovation and the art of the possible.

Jackie's Revolution CIC proposes a new vision for long-term care fit for the 21stC. The time has come for acknowledgement of the uncomfortable realities entrenched within the practice of institutionalisation as the default mechanism for long-term care services to older adult citizens in Wales.

Research shows that people do not want to be institutionalised in advanced years, and the spectre of institutional living in later life fills most people with fear and trepidation (JRF 2012, Osmond 2018). Our generation has greater expectations, is more demanding, and are experiencing later life differently.

Our approach is premised on systems innovation. Our aim is to disrupt the institutional model of long-term care for older adults in Wales. Our strategic objective is to create the first housing-led demonstrator to define, test, simulate and evaluate non-institutional approaches to long-term care, irrespective of the medical and or social condition.

Our project "Tell me What You Really Really Want" funded by the National Lottery Community Fund Wales explored in-depth the sentiments of the baby Boom generation around preferred place in later life, or at the end of their life to guide our work. We aimed to facilitate citizens in becoming designers and collaborators so that they can achieve their fullest potential in late adulthood. We offered some challenging questions in small group discussions. We found that people's priorities for their ideal later life were the same things people have always wanted, a social life and leisure activities; nature; a home; friends and family, and health and well-being.

References

Gwent Regional Partnership Board (2019) "*The Appropriate and Rightsizing Approach: Housing aspirations of older adults in Gwent.*" Dr Julia Osmond, Public Health Wales commissioned report.

Kennedy J (2012) JRF website www.jrf.org.uk/careinquiry

Jackie Marshall-Cyrus and Lorraine Morgan, Jackie's Revolution



@JackiesRev2 | @housingandcare

Gwella Canlyniadau Gwasanaethau Cymunedol: Sut byddwn ni'n gwybod beth sy'n gweithio?

Ym myd gwasanaethau cymunedol mae'r angen am dystiolaeth yn tyfu, ond cyfyngedig yw'r adnoddau'n sydd ar gael i'n cefnogi ni i adeiladu dystiolaeth o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol. Rydyn ni eisai gallu dangos bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel sector gwasanaethau cymunedol yn fuddiol i'n grŵp cleientiaid - ond drwy dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar ganlyniadau tymor hir, nid dim ond newidiadau tymor byr, neu 'allbynnau'.

Rydyn ni wedi adeiladu platform data mawr ar gyfer poblogaeth gyfan i helpu i brofi beth sy'n gweithio. Oherwydd bod gennym y boblogaeth gyfan, gallwn greu grŵp cymharu sy'n edrych fel cyfranogwyr y rhaglen, ond nid ydynt yn ei defnyddio. Mae'r broses yn cynnwys cysylltu data cymunedol â'r platform data mawr, a hynny yn unol â moeseg a phrosesau llywodraethu y cytunwyd arnynt.

Mae platform BEBOLD De Awstralia yn cynnwys data heb fanylion adnabod am dros 750,000 o blant a phobl ifanc a aned o 1991 ymlaen, a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae'r carfannau hynaf bellach yn 32/33 oed. Mae ffynonellau data'r Wladwriaeth a'r Gymanwlad yn rhychwantu'r systemau iechyd, lles, addysg, cyflawnder a chymdeithasol. BEBOLD yw'r casgliad mwyaf cyfoes a chynhwys-fawr o ddata poblogaeth gyfan a gesglir yn rheolaidd yn Awstralia.

Gan ddefnyddio'r platform hwn, rydyn ni'n gallu defnyddio'r fframwaith treial targed (Hernan a Robins, 2016) a dulliau lled-arbrofol mewn ymgais i gynhyrchu'r dystiolaeth fwyaf cadarn o effeithiolwydd gwasanaeth posibl yn absenoldeb hap-dreial dan reolaeth. Y sefydliad gwasanaeth cymunedol cyntaf i brofi'r dull hwn yw gwasanaeth digartrefedd ymysg pobl ifanc, a bydd y cynnydd tuag at ganlyniadau'n cael ei ystyried.

Jessica Dobrovic, Prifysgol Adelaide Awstralia

Improving Community Services Outcomes: How will we know what works?

We are in a world in community services where the need for evidence is growing, and the resources are limited in supporting us to build evidence of effective service delivery. We want to be able to demonstrate that what we are doing as a community service sector is beneficial for our client group, but through evidence of positive impact on long term outcomes, not just short-term changes, or 'outputs'.

We have built a whole-of-population big data platform to help test what works. Because we have the whole population, we can create a comparison group that looks just like the participants in a program, but they don't access it. The process involves linking community data into the big data platform under ethics and agreed governance processes.

The South Australian BEBOLD platform includes de-identified data on over 750,000 children and young people born from 1991 onwards, and their parents and carers. The oldest cohorts are now 32/33 years of age. State and Commonwealth data sources span the health, welfare, education, justice, and social systems. BEBOLD represents the most contemporary, comprehensive collection of routinely collected whole-of-population data in Australia.

Using this platform, we are able to utilise the target trial framework (Hernan & Robins, 2016) and quasi-experimental methods in an attempt to generate the most robust evidence of service effectiveness possible in the absence of a randomised controlled trial. The first community service organisation to test this approach is a youth homelessness service, progress to outcomes will be explored.

Jessica Dobrovic, The University of Adelaide



Sut gallwn ni gryfhau'r sylfaen dystiolaeth o weithredu ar lesiant mewn cymunedau

Ile?

Mae datblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu i sefydlu dystiolaeth gadarn am gymunedau yn hanfodol yng nghyd-destun cefnogaeth gymunedol i wella ansawdd bywyd. Mae'n hollbwysig deall y mechanweithiau a'r amodau sy'n sbarduno newid mewn cymunedau a'u heffaith ar lesiant unigolion a llesiant pawb. Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar sut gall y feddalwedd Casual Map ein helpu i ddeall beth sy'n gwneud cymunedau'n iachach ac yn hapusach. Cynhaliwyd yr astudiaeth yn Sir Benfro rhwng 2022 a 2023, gyda'r nod o edrych ar y dylanwadau ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau sy'n seiliedig ar leoedd gan ddefnyddio'r rhaglen meddalwedd Casual Map. Defnyddiodd yr astudiaeth gyfweliadau lled-strwythur dig gyda 32 o ymatebwyr o ddwy gymuned a defnyddiodd Casual Map i godio a dadansoddi'r data. Roedd y canlyniadau'n dangos pa mor ddefnyddiol yw Casual Map fel adnodd i ddeall beth sy'n dylanwadu ar lesiant, gan ddatgelu ffactorau fel mynediad at natur, ymgysylltu â'r gymuned, gweithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli, a gwasanaethau iechyd. Roedd y feddalwedd yn hwyluso'r broses o ddelweddu cysylltiadau achosol cymhleth ac roedd yn galluogi dadansoddiad penodol drwy hidlo setiau data. Nodwyd heriau wrth feistrol i'r feddalwedd ond cawsant eu goresgyn drwy gydweithio a chefnogaeth. Ar ben hynny, mae'r gwaith o ddatblygu Casual Map yn ystod cyfnod yr astudiaeth wedi arwain at wella ei ymarferoldeb, gan gynnwys hidlyddion parod a datblygiadau mewn deallusrwydd arffisial, gan hwyluso dadansoddiad data mwy ystwyth. Mae'r cydweithio cadarnhaol rhwng sectorau wedi arwain at lwyddiant yr astudiaeth, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cynhyrchu a defnyddio dystiolaeth i ddeall anghenion y gymuned yn well.

Jessie Buchanan, Gyda'n gilydd ar gyfer Newid

How can we strengthen the evidence base of action on wellbeing in communities of place?

Developing knowledge, skills, and capacity to establish robust evidence about communities is crucial within the context of community support for enhancing quality of life. Understanding the mechanisms and conditions driving change within communities and their impact on individual and collective wellbeing is paramount.

This study looks at how the Causal Map software can help us understand what makes communities healthier and happier. The study was conducted in Pembrokeshire from 2022-2023, aiming to explore the influences on the health and wellbeing of individuals and place-based communities using the Causal Map software application. The study utilised semi-structured interviews with 32 respondents from two communities and employed Causal Map for coding and analysis of the data.

The results demonstrated the utility of Causal Map as an exploratory tool for understanding the determinants of wellbeing, revealing factors such as access to nature, community engagement, activities, volunteering opportunities, and health services. The software facilitated the visualisation of complex causal links and enabled focused analysis through filtering of data sets. Challenges in mastering the software were noted but were overcome through collaboration and support.

Furthermore, the development of Causal Map during the study period led to enhancements in its functionality, including preset filters and advancements in AI, facilitating more agile data analysis. The positive collaboration between sectors contributed to the success of the study, emphasising the importance of generating and utilising evidence to understand community needs better.

Jessie Buchanan, Together for Change



Magwraeth yng Nghymru: Prif ganfyddiadau o 10 mlynedd o Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD

Bydd y papur hwn yn cyflwyno data ar brif ganfyddiadau Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD dros 10 mlynedd. Mae hon yn astudiaeth hydredol sy'n cynnal arolwg o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn flynyddol gan holi am eu barn a'u profiad o dyfu i fyny yng Nghymru. Erbyn hyn mae gennym werth degawd o ddata am farn a phrofiadau pobl ifanc o dyfu i fyny yng Nghymru a gallwn weld sut mae dealltwriaeth a safbwytiau plant wedi newid dros y degawd diwethaf. Bydd y papur hwn yn cyflwyno ein prif ganfyddiadau ar sail tair thema allweddol - yr iaith Gymraeg, ymgysylltu gwleidyddol a phrofiadau yn yr ysgol.

Bydd yn trafod data ar wybodaeth wleidyddol a chyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys data ar eu barn am annibyniaeth i Gymru, Brexit a phleidleisio. Bydd hefyd yn cyflwyno canfyddiadau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o ddatganoli a gwleidyddiaeth ddatganoledig.

Mae rhan helaeth o'r astudiaeth yn canolbwyntio ar brofiadau plant yn yr ysgol, a byddwn yn cynnwys canfyddiadau ymchwil sy'n ymwneud â sut mae perspectif disgylion o addysg wedi newid dros amser. Byddwn hefyd yn trafod ymchwil blaenllaw a gynhalwyd i waharddiadau mewnol yn yr ysgol (Power and Taylor 2018) sy'n dangos bod gwaharddiadau dosbarth yn digwydd yn rheolaidd yn yr ysgol ac yn cynrychioli mathau cudd o waharddiad ysgol nad ydynt yn cael eu cofnodi mewn ystadegau cenedlaethol.

Yn olaf, bydd ymchwil i'r iaith Gymraeg yn cael ei chyflwyno sy'n dangos sut mae safbwytiau disgylion ar y Gymraeg wedi newid dros amser, a sut mae hyn yn amrywio yn ôl y cyfrwng dysgu.

Rhian Barrance a Laura Arman, Prifysgol Caerdydd

Growing up in Wales: Key findings from 10 years of the WISERD Education-Multi Cohort Study

This paper will present data on the key findings from 10 years of the WISERD Education Multi-Cohort Study. This is a longitudinal study which annually surveys secondary school pupils about their views and experiences of growing up in Wales. We now have a decade's worth of data about young people's views and experiences of growing up in Wales and can see how children's understandings and perspectives have changed over the last decade. This paper will present our key findings around three key themes – the Welsh language, political engagement and experiences at school.

It will discuss data on young people's political knowledge and participation in Wales, including data on their views on independence for Wales, Brexit, and voting. It will also present findings on young people's knowledge and understanding of devolution and devolved politics.

Much of the study focuses on children's experiences at school, and we will include research findings relating to how pupils' perspectives of schooling have changed over time. We will also discuss flagship research conducted into internal exclusions at school (Power and Taylor 2018) which shows that classroom exclusions are a regular occurrence at school and represent hidden forms of school exclusion that are not captured in national statistics.

Finally, research on the Welsh language will be presented which shows how pupils' perspectives on the Welsh language have changed over time, and how this varies according to medium of instruction.

Rhian Barrance and Laura Arman, Cardiff University.

Gwaharddiadau anffurfiol – y dull cyfrinachol o ran gwahardd o'r ysgol: Astudiaeth gymharol ar draws pedair awdurdodaeth y DU


Bydd y cyflwyniad hwn yn edrych ar ganfyddiadau'r prosiect Bywydau wedi'u Gwahardd. Amcan y prosiect oedd deall y gwahaniaethau mewn cyfraddau gwahardd o'r ysgol ar draws pedair awdurdodaeth y DU: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Er bod cyfraddau gwaharddiadau ffurfiol (parhaol a dros dro) yn amrywio'n fawr, mae ein hymchwil yn awgrymu bod arferion gwaharddiadau anffurfiol yn nodwedd ym mhob un o'r pedair system addysg, gan gynnwys symudiadau a reolir, yn-ysu, amserleni wedi'u lleihau neu ran-amser, gwaharddiadau mewnol, ac anfon adref heb wa-harddiad ffurfiol. Er bod astudiaethau eraill wedi tynnu sylw at y defnydd o waharddiadau anffurfiol, yn enwedig yn Lloegr, prin yw'r ymchwil ar ganlyniadau gwaharddiadau anffurfiol yn y DU. Gan ddefnyddio data o gyfweliadau â rhieni, disgyblion a gweithwyr proffesiynol o ysgolion craidd a gym-erodd ran yn y prosiect, fe fyddwn yn amlinellu'r rhesymeg sy'n sail i ddefnyddio arferion gwahardd anffurfiol a'u heffaith. Byddwn yn archwilio sut mae ymarferwyr ysgolion wedi llunio arferion anffurfiol, er enghraifft, fel mesurau ataliol i leihau'r tebygolrwydd o wahardd yn ffurfiol drwy ddarparu cyf-nodau 'tawelu' neu amser i 'gychwyn eto'. Byddwn hefyd yn edrych ar rai o effeithiau arferion anffurfiol fel y trafodwyd gan bobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys sut effaith mae ynysu yn ei chael ar les pobl ifanc, colli'r cyfle i wneud gwaith ysgol drwy waharddiad mewnol, goblygiadau emosiynol ac ariannol i rieni/gofalwyr o ganlyniad i ddisgyblion yn cael eu hanfon adref dro ar ôl tro, diffyg cefnogaeth i ddiwallu anghenion plentyn. Byddwn yn dod i gasgliad drwy ganolbwytio ar oblygiadau ein canfyddiadau a chynnig awgrymiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i edrych ymhellach ar hyd a lled ac effaith gwaharddiadau anffurfiol ar draws y DU.

Jemma Bridgeman, Prifysgol Caerdydd ac Alice Tawell, Prifysgol Rhydychen

Informal exclusion the hidden side of school exclusion: A comparative study across the four jurisdictions of the UK

This presentation will explore the findings of the Excluded Lives project. The project's objective was to understand the disparities in school exclusion rates across the four UK jurisdictions: England, Northern Ireland, Scotland and Wales. While rates of formal exclusion (permanent and temporary) vary widely, our research suggests that informal exclusionary practices feature in all four education systems, including managed moves, isolation, reduced or part-time timetables, internal exclusion and being sent home without a formal exclusion. While other studies have highlighted the use of informal exclusion, particularly in England, there is scant research on the consequences of informal exclusion in the UK. Drawing on data from interviews with parents, pupils, and professionals from core schools who participated in the project, we will outline the rationale behind using informal exclusionary practices and their impact. We will explore how school practitioners framed informal practices, for example, as preventative measures to reduce the likelihood of formal exclusion by providing 'cooling-off' periods or time to 'reset'. We will also explore some of the impacts of informal practices as discussed by young people and their families, including the impact of isolation on young people's wellbeing, missing out on school work through internal exclusion, the emotional and financial implications of repeatedly being sent home for parents/carers, support not being put in place to meet a child's needs. We will conclude by focusing on the implications of our findings and provide suggestions for future research to explore further the extent and impact of informal exclusions across the UK.

Jemma Bridgeman, Cardiff University and Alice Tawell, University of Oxford



Deall Amrywiad Daearyddol o ran Cyrhaeddiad Disgyblion drwy Fodelu Gofodol

Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i'r berthynas gymhleth rhwng statws economaidd-gymdeithasol, nodweddion aelwydydd, strwythur teuluoedd, a nodweddion ysgol ac ardal o ran siapio cyrhaeddiad academaidd disgyblion yng Nghymru. Gan ddefnyddio Atchweliad wedi'i Bwysoli'n Ddaearyddol (GWR) ac atchweliad logistaidd, mae'r ymchwil yn archwilio sut mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau addysgol disgyblion yn 16 oed a sut mae eu heffeithiau'n amrywio ar draws ardaloedd daearyddol bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is) ac ar raddfeydd mwy (Awdurdodau Lleol). Mae'r dadansoddiadau'n defnyddio set ddata gynhwysfawr sy'n benodol i Gymru sy'n cyfuno data am ddisgyblion, ysgolion, aelwydydd ac amddifadedd ar lefel ardal. Mae atchweliad logistaidd yn darparu fframwaith dadansoddol cadarn ar gyfer archwilio'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyrraeddiaid academaidd, tra bod GWR yn cyfrif am heterogenedd gofodol, gan ddatgelu clystyrau a gwahaniaethau daearyddol lle gallai rhai ffactorau ragfynegi canlyniadau'n gryf. Felly, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn gwella'r ddealltwriaeth gysyniadol ac ymarferol o sut mae ystod eang o ffactorau'n rhwngweithio i greu patrymau cyrhaeddiad lleol, gan gefnogi polisiau penodol gyda'r nod o sicrhau cymdeithas decach. Yn ogystal, mae mapio canlyniadau yn cynnig tystiolaeth weledol i ddeall patrymau cyrhaeddiad academaidd yn well a thynnu sylw at unrhyw anghydraddoldebau gofodol.

Alexandra Sandu, Prifysgol Caerdydd

Understanding Geographic Variation in Pupil's Attainment through Spatial Modelling

This study investigates the complex relationship of socioeconomic status, household characteristics, family structure, and school and area characteristics in shaping academic attainment of pupils in Wales. Employing Geographically Weighted Regression (GWR) and logistic regression, the research examines how these factors influence educational outcomes at age 16 and how their effects vary across small geographies (Lower Super Output Areas) and larger scales (Local Authorities). The analyses use a comprehensive Wales-specific dataset combining pupil, school, household, and area-level deprivation data. Logistic regression provides a robust analytical framework for examining the factors that could influence academic attainment, while GWR accounts for spatial heterogeneity, revealing geographical disparities and clusters where certain factors could strongly predict outcomes. Therefore, the findings of this study enhance the conceptual and practical understanding of how a wide range of factors interact to create localised attainment patterns, supporting targeted policies with the aim of achieving a fairer society. Additionally, mapping outcomes offers visual evidence to better understand academic attainment patterns and highlight any spatial inequalities.

Alexandra Sandu, Cardiff University

A oes gan blant sy'n derbyn gofal a chymorth gyfraddau uwch o waharddiadau ysgol o gymharu â'u cyfoedion?

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad yn ddiweddar i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei Hymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i 'ymchwilio i'r posibiliadau o ran gwneud diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sy'n gadael gofal'. Un sylw allweddol a amlygwyd yn eu hadroddiad oedd y diffyg data cadarn a gasglwyd am agweddau amrywiol o'r system ofal. Yn benodol, pwysleisiwyd y diffyg data ynglŷn â gwaharddiadau parhaol ac ataliadau o'r ysgol ymhlið plant sy'n derbyn gofal. Felly, dyluniwyd yr astudiaeth hon i lenwi'r bwlc hwn yn y dystiolaeth.

Gan ddefnyddio data gweinyddol di-enw cysylltiedig a ddelir ym Manc Data SAIL i nodi'r rhai sy'n derbyn gofal a chefnogaeth, mae'r cyfraddau gwaharddiadau ac ataliadau wedi'u nodi ar gyfer gwahanol grwpiau yn y cohort derbyn gofal a chefnogaeth (plant sy'n derbyn gofal, y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant a'r rhai sy'n derbyn cymorth nad ydynt yn derbyn gofal nac yn derbyn gofal a chefnogaeth) sydd wedi'u cymharu â'u cyfoedion heb y profiad hwn. Mae ffactorau fel y cyfnod addysg, lleoliad, hawl i brydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol, oedran a rhyw wedi'u hystyried hefyd yn ogystal â'r rheswm dros y gwaharddiad neu ataliad.

Wrth lunio cymariaethau â chyfoedion, mabwysiadwyd dull croestoriadol gyda'r bwriad o nodi lle mae gwahaniaethau yn bodoli. Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn ysgogi trafodaeth ac yn cyfrannu at ddatblygu newidiadau polisi.

Helen Hodges, Prifysgol Abertawe

Do children receiving care and support have higher rates of school exclusion than their peers?

The Children, Young People and Education Committee recently held an inquiry to scrutinise the Welsh Government's progress in delivering its Programme for Government Commitment to '*explore radical reform of current services for children looked after and care leavers*'. A key observation highlighted in their report was that there was a lack of robust data collected about various aspects of the care system. Notably it was highlighted that there is a lack of data collected about permanent exclusions and suspensions from school amongst children looked after (CLA). This study was therefore designed to fill this evidence gap.

Using anonymised linked administrative data held in SAIL Databank to identify those receiving care and support (CRCS), rates of exclusion and suspension have been determined for the different groups within the CRCS cohort (CLA, those on the child protection register (CPR) and those receiving support who are neither CLA nor CPR) which have then been compared to their peers without this experience. Factors such as phase of education, setting, free school meal entitlement, having additional learning needs, age and gender have also been considered along with the reason for the suspension or exclusion.

In drawing comparisons with peers, an intersectional approach has been adopted with a view to identifying where there appears to be disparity. It is hoped that findings from this student study will stimulate debate and contribute towards the development of changes in policy.

Helen Hodges, Swansea University



Ymchwil a Pholisi yn Seiliedig ar Le er mwyn creu Cymru Well: Trafodaeth Bwrdd Crwn

Mae 'lle' wedi dod i'r amlwg fel cysyniad allweddol mewn polisi ac ymchwil dros y degawdau diwethaf, ond nid yw Prifysgolion wedi dal i fyny â'r newid cyflym. Rydym wedi gweld grwpiau o ymchwilwyr yn arloesi a rhagori mewn ymchwil sy'n seiliedig ar le, ond mae'n bryd ystyried yn feirniadol sut y gall Sefydliadau Addysg Uwch ddefnyddio eu galluoedd ymchwil i gyfrannu'n fwy strategol at eu lleoedd lleol heblaw cenhadaeth ddinesig a 'busnes fel arfer'. Mae'r cyfarfod bwrdd crwn hwn yn dwyn ynghyd arweinwyr meddwl ac ymarferwyr yn y maes 'lle' o bob rhan o Gymru i drafod y gwaith arloesol y maent yn ei wneud a rhagweld sut y gall Prifysgolion newid i fynd i'r afael â heriau lle. Ymunwch â ni am drafodaeth agored a beirniadol ynglŷn â 'lle' a sut y gall Sefydliadau Addysg Uwch ymgysylltu â llunwyr polisiau wrth iddynt fynd ar drywydd polisi, tystiolaeth a chydweithio sy'n seiliedig ar le.

Trefnir y bwrdd crwn gan Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol (LCRO) Prifysgol Abertawe a Phartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig, y Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth. Mae'r Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol yn gyfleuster newydd sy'n archwilio sut y gall y brifysgol symud y tu hwnt i strategaeth cenhadaeth ddinesig i gofleidio diwylliant ymchwil cynaliadwy o gyfranogiad lleol sy'n ystyrlon, strategol a hirdymor. Ariennir Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig gan UKRI i feithrin cysylltiadau rhwng ymchwilwyr, cyrff cyhoeddus a chymunedau er mwyn ei gwneud yn haws cyfnewid gwybodaeth a gwella'r sylfaen dystiolaeth er mwyn cefnogi twf cynhwysol a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru

Michael Woods, Prifysgol Aberystwyth, Tom Avery, Prifysgol Abertawe, Alec Shepley, Prifysgol Wrecsam, a Sarah Morse, Senedd Cymru

Place-Based Research and Policy for a Better Wales: A Roundtable Discussion

'Place' has emerged as a key concept within policy and research over the last few decades, but Universities have not kept up with the pace change. We have seen groups of researchers who have innovated and excelled in place-based research, but the time is ripe to critically consider how Higher Education Institutions can harness their research capabilities to more strategically contribute to their local places beyond civic mission and business as usual. This roundtable brings together thought leaders and practitioners of 'place' from across Wales to discuss the innovative work they are pursuing and envision how Universities can change to meet the challenges of place. Join us for an open and critical discussion of 'place' and how HEIs can engage with policy-makers as they pursue place-based policy, evidence, and collaboration.

The roundtable is organised by Swansea University's Local Challenges Research Office (LCRO) and Cymru Wledig LPIP Rural Wales, the Local Policy and Innovation Partnership led by Aberystwyth University. LCRO is a new facility which explores how the university can move beyond a civic mission strategy to embrace a sustainable research culture of meaningful, strategic, and long-term local participation. Cymru Wledig LPIP Rural Wales is funded by UKRI to build connections between researchers, public bodies and communities to facilitate knowledge exchange and enhance the evidence base to support inclusive and sustainable growth in rural Wales

Michael Woods, Aberystwyth University and Tom Avery, Swansea University Alec Shepley, Wrexham University, and Sarah Morse, Welsh Parliament

Methu â chyflawni nodau, nodau rhannol? Trosi'r cyfeiriad y mae'r economi gylchol yn mynd iddo yn weithredu trawsnewidiol sy'n seiliedig ar leoedd.

Crynodeb: Mae'r papur hwn yn mynd i'r afael â'r dasg o ymchwilio i sut yr eglurir yr arfer o osod cyfeiriad o'r brig i lawr a gweithredu o fewn rhwydweithiau ymarfer llorweddol. Ni ymchwiliwyd yn ddigonol i hyn, ond eto mae'n hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau trawsnewidiol yn y pen draw. Mae'n ceisio egluro sut y gall cyfeiriadoldeb ddylanwadu ar gynnydd, a chyflwynir y syniad o nodau cychwynnol neu rannol. Yna trafodir opsiynau ar gyfer nodi a datblygu'r nodau cychwynnol hyn i ehangu o ran maint a chwmpas. Gan ddefnyddio Cymru fel astudiaeth achos i ddarlunio hyn, rydym yn defnyddio set ddata unigryw o ymriadau, rhwydweithiau a chyfranogwyr cysylltiedig â'r Economi Gylchol. Yn olaf, mae'r papur yn amlin-ellu goblygiadau ar gyfer llunio polisiau ac yn cynnig llwybrau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Nick Clifton, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Missing missions, partial missions? Translating circular economy directionality into place-based transformative action.

Abstract: This paper addresses the task of investigating how top-down direction setting is specified and implemented within horizontal networks of practice. This is under-investigated, yet vital for delivering ultimately transformative outcomes. It seeks to unpack how actionable directionality can influence progress, and introduces the idea of nascent or partial missions. Options for identifying and nurturing these missions to expand in scale and scope are then discussed. Utilising Wales as an illustrative case study, we draw upon a unique dataset of Circular Economy (CE) related interventions, networks, and participants. Finally, the paper outlines implications for policy-making and proposes avenues for future research.

Nick Clifton, Cardiff Metropolitan University.

Gwaddol Pandemig COVID-19 – Cysylltedd Digidol Busnes mewn Ardaloedd Ymylol

Mae ein hastudiaeth yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg yn manylu ar effaith economaidd pandemig COVID-19 ar fusnesau yng Ngheredigion. Yn yr arolwg ar-lein rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom ofyn i gwmniau lleol a busnesau hunangyflogedig am eu profiadau o fyw drwy'r pandemig a delio ag ef. Er bod yr arolwg o natur gyffredinol, roedd mynediad digidol a seilwaith yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion a gafwyd. Roedd y materion sy'n ymwneud â darparu'r rhwng-rwyd, medrusrwydd digidol ac argaeledd seilwaith digidol digonol yn amlwg yn yr ymatebion a gawsom i'r arolwg. Roedd problemau cysylltedd digidol yn bresennol cyn y pandemig, ond mae eu heffaith wedi gwaethyu oherwydd COVID-19. Roedd canlyniadau'r arolwg busnes yn dangos bod yn rhaid i gyflogwyr a'u gweithwyr ymdopi â band eang gwael wrth weithio gartref, rhedeg busnesau, neu fynychu cyfarfodydd ar-lein. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod seilwaith digidol gwael wedi gwaethyu effaith y pandemig yng Ngheredigion gan danseilio'r gallu i wrthsefyll siociau economaidd.

Datgelodd y pandemig y ffait bod ardaloedd gwledig ymhell o fod yn barod yn ddigidol oherwydd seilwaith digidol gwael. Mae digideiddio wedi bod yn ffynhonnell sylweddol o arloesedd a thwf economaidd yn yr 21ain ganrif. Mae annigonolrwydd seilwaith digidol yn ychwanegu at fregusrwydd busnesau mewn ardaloedd ymylol fel Ceredigion, gyda chwmniau'n ddim yn dal i fyny â thuediadau digideiddio mewn meysydd craidd, gan gynyddu anghydraddoldeb gofodol ymhellach. Mae mynd i'r afael â'r bwlc digidol yn gofyn am ymdrechion cyson ar wahanol lefelau o lywodraeth. Dylai hyn gynnwys darparu seilwaith digidol perthnasol a buddsoddi yng ngalluoedd digidol busnesau a gweithwyr, gan wella cyfalaf dynol yn y maes hwn.

Aloysius Igboekwu, Maria Plotnikova a Sarah Lindop, Prifysgol Aberystwyth

The Legacy of the COVID-19 Pandemic - Business Digital Connectivity in Peripheral Areas

Our study is based on the results of a survey detailing the economic impact of the COVID-19 pandemic on businesses in Ceredigion. In the online survey between April and July 2021, we asked local companies and self-employed businesses about their experiences of living through and dealing with the pandemic. While the survey was of a general nature, digital access and infrastructure were a common theme that emerged from the responses received. The issues around internet provision, digital proficiency and availability of adequate digital infrastructure featured prominently in our survey responses. Digital connectivity issues were present before the pandemic, but their impact has worsened due to COVID-19. Business survey results revealed employers and their employees had to cope with poor broadband while working from home, running businesses, or attending online meetings. The survey results indicate that poor digital infrastructure worsened the impact of the pandemic in Ceredigion undermining resilience to economic shocks.

The pandemic brought to the fore the fact that rural localities are far from being digitally-ready due to poor digital infrastructure. Digitalisation has been a significant source of innovation and economic growth in the 21st century. The inadequacy of digital infrastructure adds to business vulnerability in peripheral areas like Ceredigion with firms not catching up with digitalisation trends in core areas, further increasing spatial inequality. Addressing the digital divide requires consistent efforts at various levels of government. This should involve providing relevant digital infrastructure and investing in the digital competencies of businesses and workers, improving human capital in this area.

Aloysius Igboekwu, Maria Plotnikova and Sarah Lindop, Aberystwyth University



Chwarae gyda'r Posibl: Cyd-gynhyrchu'r Hawl i'r Ddinas o'r Gwaelod i Fyny

Nod y papur hwn yw archwilio dewisiadau amgen posibl i'r datblygiad neoryddfrydol presennol trwy ddatblygu, gweithredu a dadansoddi un ffordd arall bosibl o ddisgrifio cyfranogiad. Gan weithio o dan yr enw Fluke, rwyf wedi cyd-ddatblygu prosiect ymchwil gweithredu cyfranogol sy'n creu proses gyd-gynhyrchu drefol fwy deniadol a chynhwysol gan ddefnyddio chwarae a gemau o'r gwaelod i fyny. Drwy archwilio'r broses hon o safbwyt empirig, rwy'n dadlau bod gan brosesau cyd-ddylunio chwareus a ddefnyddir ar y raddfa leol botensial i roi cyfleoedd i bobl sicrhau'r hyn y mae Henri Lefebvre yn ei alw'n 'hawl i'r ddinas' - eu hawl nid yn unig i fod yn ddefnyddwyr, ond hefyd eu hawl i ddod yn gyd-gynhyrchydd gofod trefol.

Gan leoli ein hymchwil gweithredu yn ardal llety myfyrwyr Lappis yn Stockholm, Sweden, rwy'n egluro bod gan brosesau cyd-ddylunio trefol y potensial i archwilio'r posibiliadau diderfyn ar gyfer gofod trefol mewn modd cynhwysol. Yn ein proses gyd-ddylunio, datblygwyd adnodd cynllunio trefol chwareus fel Helfa Wyau Pasg i ddadansoddi lle, gweithdy chwareus i bennu gweledigaeth, a gêm creu prototeip o lle. Yn ystod y cyfnod pum mis hwn, cymerodd dros 300 o drigolion ran mewn gwahanol ddulliau gan gyd-greu gwyl dros dro yn archwilio posibiliadau ar gyfer gofod trefol: Diwrnod Breuddwyd Haf Lappis. Trwy'r archwiliad cyfranogol hwn, rydym yn cyd-greu posibiliadau amgen ar gyfer gwerthuso gofod trefol sy'n diwallu anghenion cymdeithasol a chreadigol, nid anghenion cyfalaf yn unig, i gyd-greu'r hyn y mae Hou (2018) yn ei alw'n 'dir comin newydd'.

Tatiana Bodnar, Prifysgol Abertawe

Playing with the Possible: Co-Producing the Right to the City from the Bottom-Up

This paper aims to explore possible alternatives to the current neoliberal development by developing, implementing, and analysing one possible alternative way of framing participation. Working under the name of Fluke, I have co-developed a participatory action research project that creates a more engaging and inclusive urban co-production process using play and games from the bottom-up. By exploring this process from a empirical perspective, I argue that playful co-design processes applied at the local scale have potential to allow people opportunities to ensure what Henri Lefebvre calls the 'right to the city' — their right to be not only consumers, but also their right to become a co-producer of urban space.

Situating our action research in the student housing neighborhood of Lappis in Stockholm, Sweden, I articulate that urban co-design processes have the potential to explore the boundless possible urban futures in an inclusive manner. Within our co-design process, we developed playful urban planning tools like a place analysis Easter Egg Hunt, a playful visioning workshop, and a place prototyping game. Through this five-month period, over 300 residents participated in different manners with the co-creation of a temporary festival exploring the possibilities of urban space: Lappis Summer Dream Day. Through this participatory exploration, we co-produce alternative valuations of urban space that fulfill social and creative needs, not just the needs of capital, to co-create what Hou (2018) calls the 'new commons'

Tatiana Bodnar, Swansea University



Prosiect Cysylltu Data Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyyddion yr UE (Cymru): Canfyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac addysg uwchradd

Ariennir prosiect cysylltu Data Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyyddion yr UE gan Ymchwil Data Gweinyddol y DU/Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol o 2020 hyd at 2024. Ei nod yw cysylltu data dinasyddion yr UE â mathau eraill o ddata sydd eisoes yn cael eu cadw ym Manc Data SAIL, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r prosiect hwn yn ceisio archwilio llawer o elfennau, gan gynnwys lechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) dinasyddion yr UE yng Nghymru, cyfranogiad dinasyddion yr UE yn y farchnad lafur yng Nghymru a phrofiadau addysgol dinasyddion yr UE yng Nghymru. Y nod yw cynhyrchu set ddata sy'n barod ar gyfer ymchwil y gall ymchwylwyr ei defnyddio i gael canfyddiadau sy'n berthnasol i bolisi. Mae data cyfrifiad o Gymru sy'n ymwneud â gwlad enedigol, rhyw, wythnos geni, dyddiad cyrraedd yn y DU a statws economaidd-gymdeithasol, wedi cael ei gysylltu â newidynnau sy'n berthnasol i setiau data Addysg i Gymru a Phractis Cyffredinol Cymru yn y drefn honno, a'i ddadansoddi.

Mae'r canfyddiadau'n dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn presenoldeb a chyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd rhwng disgryblion a aned yng Nghymru a disgryblion a aned yng ngwledydd yr UE. Bydd canfyddiadau sy'n ymwneud ag achosion iechyd meddwl (hynny yw, iselder, gorbryder, a chymysgedd o orbryder ac iselder) ar gyfer unigolion a aned yng Nghymru ac unigolion a aned yng ngwledydd yr UE, yn cael eu cyflwyno hefyd.

Mae cysylltu data fel hyn yn helpu i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau a chanlyniadau dinasyddion yr UE yng Nghymru, gan gynhyrchu tystiolaeth well i helpu i lywio polisiau a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth hon, ac yn cynnig set ddata sydd o ddiddordeb mawr i academyddion.

Ffion Lloyd-Williams, Llywodraeth Cymru

The EU Settled Status (Wales) Data Linkage Project: Findings relating to mental health and secondary education

The EUSS Data linkage project is funded by Administrative Data Research UK/Economic and Social Research Council from 2020 to 2024. It aims to link EU citizen data with other data already held within the SAIL Databank, based at Swansea University. There are many elements this project aims to explore, including the Health (including mental health) of EU citizens in Wales, EU citizens' involvement in the Welsh labour market and the educational experiences of EU citizens in Wales. The aim is to produce a research-ready dataset that can be used by researchers to obtain policy-relevant findings. Census data from Wales relating to country of birth, sex, week of birth, date of arrival in the UK and socio-economic status have been linked to variables of relevance in the Education for Wales and Welsh General Practice datasets respectively and analysed.

Findings indicate statistically significant differences in secondary school attendance and attainment between Welsh born pupils and pupils born in EU countries. Findings relating to mental health events (i.e. depression, anxiety, and mixed anxiety and depression) for Welsh born and EU country born individuals will also be presented.

Linking data in this way helps to gain a better understanding of the experiences and outcomes of EU citizens in Wales, generating better evidence to help inform policies and services that address the needs of this population and offers a dataset of great interest to academics.

Ffion Lloyd-Williams, Welsh Government.



Archwilio polisiau sy'n gofyn am ymchwil profiad bywyd a'r Dull Ymchwil Profiad Bywyd (LERM) ar gyfer casglu a dadansoddi data.

Datblygwyd y Dull Ymchwil Profiad Bywyd (LERM) o waith ymchwil gyda thadau sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn ne Cymru (Pitman, 2021). Mae LERM wedi'i leoli o fewn y perthynol (Gergen, 2003), ac mae'n defnyddio dull ymholi narratif i gasglu a dadansoddi data. Cafodd LERM ei greu o'r angen i ymateb i ddiffyg dyfnder mewn ymatebion i gyfweliadau a'r ddibyniaeth ar narratifau mawr sydd eisoes yn hysbys o broblemau cymdeithasol.

Mae'r ymadrodd 'profiad bywyd' wedi cael ei ddefnyddio fwyfwy mewn polisiau yng Nghymru. Gellir ei weld mewn polisiau sy'n ymwneud â thlodi, cydraddoldeb hil, arferion gwrth-hiliol, fframweithiau perfformiad a gwelliant, allgáu cymdeithasol, a digartrefedd. Mae'r defnydd o'r term yn dangos y dylai datrysiau gael eu dylanwadu gan leisiau'r rhai y mae anghydraddoldebau yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, gall fod diffyg eglurder ynghylch sut mae ymchwilwyr yn casglu ac yn dadansoddi data ymchwil cymdeithasol (Maxwell, 2022), a nodir y gall dulliau cyffredin fod yn aneglur a chael eu camddeall (Braun a Clarke, 2022). Yn ogystal, efallai y bydd ymchwilwyr yn gwybod gormod am ffenomenau cymdeithasol y mae angen ymchwilio iddynt (van Manen, 2014) yn seiliedig ar safbwytiau deallusol ac amhersonol o broblemau cymdeithasol (Still a Costall, 1991). Gall hyn arwain at ffrâm gyfeirio sefydlog (Smith, 1984), a dealltwriaeth arwynebol (Wengraf, 2004) a chamarweiniol (Skinner, 1989; Coulter, 1989) o ran deall materion cymdeithasol.

Mae LERM yn cynnig proses glir ar gyfer ymgymryd â gwaith ymchwil profiad bywyd. Mae'n helpu i symud i ffwrdd oddi wrth syniadau rhagdybiedig am broblemau cymdeithasol a gall gynnig gwybodaeth newydd am broblemau parhaus a all arwain at ymatebion teiwredig ac unigol i gymunedau.

Jessica Pitman, Pryfysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (UWTSD).

Problematizing policies that require lived experience research and the Lived Experience Research Method (LERM) for collecting and analysing data.

The Lived Experience Research Method (LERM) was developed from research with fathers who live in areas of disadvantage in South Wales (Pitman, 2021). LERM is situated within the relational (Gergen, 2003) and uses a narrative inquiry approach to collecting and analysing data. LERM was created out of necessity to respond to a lack of depth in interview responses and the reliance on already-known grand narratives of social problems.

The phrase 'lived experience' has been increasingly used in policies in Wales. It can be found in policies relating to poverty, race equality, anti-racist practices, performance and improvement frameworks, social exclusion, and homelessness. The use of the term indicates that solutions should be influenced by the voices of those affected by inequalities. However, there can be a lack of clarity about how researchers collect and analyse social research data (Maxwell, 2022), and it is noted that commonly used methods can be unclear and misunderstood (Braun and Clarke, 2022). Additionally, researchers may know too much about social phenomena that need investigating (van Manen, 2014) based on intellectualised and impersonal views of social problems (Still & Costall, 1991). This can result in a fixed frame of reference (Smith, 1984), a superficial (Wengraf, 2004) and misleading (Skinner, 1989; Coulter, 1989) understanding of social issues.

LERM offers a clear process for undertaking lived experience research. It helps move away from preconceived ideas of social problems and may offer new knowledge of persistent problems that can lead to tailored and individualised responses to communities.

Jessica Pitman, University of Wales Trinity Saint David (UWTSD)



Mesur patrymau ‘gwahanu’ ethnig newidiol yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio mynegai hydredol a chroestoriadol o annhebygrwydd a daearyddiaeth cyfrifiad wedi’i chysoni ar gyfer 2001 – 2021

Mae'r mynegai clasurol o annhebygrwydd yn nodi bod arwahanu yn wahanu gofodol ble mae dosbarthiad gofodol cymharol un grŵp (e.e. ethnig) yn wahanol i grŵp arall, sy'n awgrymu bod y grŵp cyntaf yn dewis neu'n cael ei gyfyngu yn anghymesur i fyw mewn rhai cymdogaethau, tra bo'r ail grŵp yn preswylio mewn eraill. Problem gyda'r mynegai yw pan gaiff ei ddefnyddio i astudio newid dros amser, oherwydd gall unrhyw newidiadau i'w werth rhifol fod oherwydd newidiadau yn nosbarthiad gofodol y grŵp cyntaf, yr ail grŵp, neu'r ddu. Dull gwahanol yw peidio ag edrych ar un grŵp o'i gymharu ag un arall, ond edrych ar un grŵp o'i gymharu â'i hun – i ofyn, a yw'n dod yn fwy neu'n llai dwys mewn cymdogaethau penodol dros amser? Gellir gweithredu hyn fel mynegai hydredol o annhebygrwydd, ar yr amod bod y ddaearyddiaeth sylfaenol yn gyson dros amser, y mae daearyddiaeth cyfrifiad wedi'i chysoni yn ei ganiatáu. Ar ben hynny, fel y mae Harris (2017) wedi dangos yn flaenorol, gellir trin y mynegai fel hafaliad atchwel, a mantais hynny yw y gellir ei ymestyn i fod yn fodel aml-lefel. Mae'r estyniad hwnnw'n caniatáu pennu graddfa ddaearyddol unrhyw newid ac mae hefyd yn caniatáu ar gyfer meddwl croestoriadol, fel a yw grwpiau ethnig penodol yn fwy neu'n llai cysylltiedig ag ardaloedd difreintiedig (neu gyfoethog). Mae'r papur hwn yn mabwysiadu'r dull hwn sy'n edrych ar newid rhyng-gyfrifiadol mewn 'arwahanu' (neu grynnodiad) ethnig yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn cyflwyno cartogramau wedi'u llenwi'n gymesur fel dulliau delweddu posibl ar gyfer cyflwyno'r canlyniadau.

Richard Harris, Prifysgol Bryste

Measuring the changing ethnic ‘segregation’ patterns of England and Wales using a longitudinal and intersectional index of dissimilarity and an harmonised census geography for 2001 – 2021

The classic index of dissimilarity conceives segregation as a spatial separation such that where the relative spatial distribution of one (e.g. ethnic) group differs from that of another then it suggests that the first group disproportionately chooses or is constrained to live in some neighbourhoods, whereas the second resides in others. A problem with the index is when it is used to study change over time, because any changes to its numeric value can be due to changes in the spatial distribution of the first group, the second group, or both. A different approach is not to look at one group relative to another but to look at one group relative to itself – to ask, is it becoming more or less concentrated in particular neighbourhoods over time? This can be operationalised as a longitudinal index of dissimilarity, provided that the base geography is consistent over time, which an harmonised census geography allows. Furthermore, as Harris (2017) has previously shown, the index can be treated as a regression equation, the advantage of which is it can be extended to be a multilevel model. That extension allows both the geographic scale of any change to be determined and also allows for intersectional thinking, such as whether particular ethnic groups are more or less bound to deprived (or affluent) areas. This paper adopts this approach looking at intercensal change in ethnic ‘segregation’ (or concentration) in England and Wales. It also introduces proportionally filled cartograms as a possible visualisation methods for presenting the results.

Richard Harris, University of Bristol



Her Llywodraethu Cymhleth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Prosiect Data Gweinyddol|Casgliad Ymchwil Amaethyddol y DU: Ymchwil i Gefnogi Cymunedau Amaethyddol Ledled y DU

Mae Data Gweinyddol | Casgliad Ymchwil Amaethyddol (AD|ARC) yn brosiect ymchwil cymhleth sy'n cynnwys pedair gwlad, cyfuniad o ddata lefel-busnes, lefel-cartref a lefel-person, a phartneriaid, rhanddeiliaid a chynulleidfaedd amrywiol. Mae AD|ARC yn creu Setiau Data Parod at Ymchwil annibynnol y gellir eu cymharu gan ddefnyddio data cysylltiedig ar gyfer ffermwyr, teuluoedd fferm a busnesau fferm yn y DU. Mae ymgysylltu a chyfathrebu da yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth, llywio'r rhaglen waith, cefnogi a gwella amcanion gwyddonol, a darparu canfyddiadau perthnasol o ansawdd uchel sy'n cyflawni disgwyliadau rhanddeiliaid a chyllidwyr.

Defnyddiodd AD|ARC fframwaith ymgysylltu a chyfathrebu pwrpasol i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhannu elfennau allweddol o strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu'r prosiect:

- Dull Aml-ranbarth: Cydbwys o'r angen am adnodd cyson, cyfunol gan gydnabod gwahaniaethau rhanbarthol o ran data, amgylcheddau ymchwil dibynadwy, a safbwytiau rhanddeiliaid.
- Tryloywder ac Ymddiriedaeth: Ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys ffermwyr, ymchwilwyr a llunwyr polisi, i feithrin ymddiriedaeth, cefnogaeth a chyfreithlondeb.
- Gwneud Penderfyniadau Cydweithredol: Rhngweithio â phartneriaid amrywiol, (perchnogion data, ymchwilwyr, cynrychiolwyr pynciau ymchwil) i fireinio cwestiynau ymchwil.
- Allgymorth a Lledaenu: Dull ailadroddol, aml-ddull i godi ymwybyddiaeth, rhannu a hyrwyddo'r prosiect.

Dangosir llwyddiant y canlyniadau trwy gael ei ddewis fel Set Ddata Flaenllaw ADR y DU; integreiddio safbwytiau amrywiol i greu Setiau Data Parod at Ymchwil y gellir eu cymharu; consensws ar raglen ymchwil; dysgu defnyddiol sy'n cael ei ymgorffori mewn strategaeth; a thystiolaeth y gellir ei rhoi ar waith er mwyn cyfrannu at lunio polisiau.

Bydd y cyflwyniad yn myfyrio ar y gwersi a ddysgywyd; gan dynnu sylw at oblygiadau ar gyfer ymchwil ac ymgysylltu a'r cyhoedd a allai fod yn berthnasol i unrhyw brosiect ymchwil cymhleth.

Geiriau allweddol: Amaethyddiaeth, Data Gweinyddol, Llwyfan Data, Llywodraethu, Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Cydweithredu, Ymchwil Gynhwysol, y DU, Aml-wlad, Moeseg

Freya Pryce, Ymchwil Data Gweinyddol, Llywodraeth Cymru

The Complex Governance and Public Engagement Challenge of the UK AD|ARC Project: Research to Support Farming Communities Across the UK

The Administrative Data | Agricultural Research Collection (AD|ARC) is a complex research project involving four nations, a mixture of business-level, household-level and person-level data, and diverse partners, stakeholders and audiences. AD|ARC is creating independent, comparable Research Ready Datasets using linked data for UK farmers, farm families and farm businesses. Good engagement and communication is vital to build trust, inform the programme of work, support and enhance scientific objectives, and deliver high quality, relevant findings that fulfil stakeholder and funder expectations.

AD|ARC deployed a bespoke engagement and communications framework to fulfil these objectives. This presentation shares key elements of the project's engagement and communications strategy:

- Multi-region Approach: Balancing the need for a harmonised, federated resource with respecting regional differences in data, trusted research environments, and stakeholder perspectives.
- Transparency and Trust: Engaging diverse stakeholders, including farmers, researchers, and policymakers, to build trust, support, and legitimacy.
- Collaborative Decision-Making: Interacting with diverse partners, (data owners, researchers, research subject representatives) to refine research questions.

Outreach and Dissemination: A multi-method, iterative approach to raise awareness, share and promote the project. Results are demonstrated by success in being selected as an ADR UK Flagship Dataset; integrating diverse perspectives into the creation of comparable Research Ready Datasets; consensus on a research programme; useful learning which is incorporated into strategy; and actionable evidence intended to inform policymaking.

The presentation will reflect on lessons learned; drawing out implications for research and public engagement that could apply to any complex research project.

Keywords: Agriculture, Administrative Data, Data Platform, Governance, Public Engagement, Collaboration, Inclusive Research, UK, Multi-nation, Ethics

Freya Pryce, Administrative Data Research Wales, Welsh Government.



AD|ARC (Data Gweinyddol|Casgliad Ymchwil Amaethyddol): Cysylltu Data Busnes Unigol, Aelwydydd a Ffermydd ar gyfer Ymchwil Demograffeg Gymdeithasol ar Aelwydydd Amaethyddol

Amcan

Mae'r ymchwil yn ymchwilio i ddemograffeg gymdeithasol a strwythur aelwydydd amaethyddol yng Nghymru ac sy'n cael cymorthdaliadau ffermio o'i gymharu â grŵp rheoli o aelwydydd gwledig nad ydynt yn amaethyddol.

Dull gweithredu

Fe wnaethom ddefnyddio set ddata AD|ARC, sef Set Ddata sy'n Barod ar gyfer Ymchwil (RRD). Roedd y set ddata yn cynnwys data cyfrifiad poblogaeth a setiau data amaethyddol presennol, gan gynnwys data Arolwg o Strwythurau Fferm yr UE, Taliadau Gwledig, a data gweithgarwch busnes ffermydd. Cafodd grŵp rheoli o aelwydydd gwledig ei greu drwy gyfateb pob aelwyd amaethyddol â hyd at dair aelwyd wledig nad oedd yn cynnwys ffermwyr. Dadansoddiwyd newidyn-nau'r cyfrifiad i gymharu strwythur aelwydydd amaethyddol â'r grŵp rheoli yng Nghymru.

Canlyniadau

Wrth ystyried y gwahaniaethau rhwng aelwydydd amaethyddol ag aelwydydd gwledig nad ydynt yn amaethyddol, fe ddaethom o hyd i'r canlynol:

Roedd aelwydydd amaethyddol yn fwy ar gyfartaledd, ac roedd llai o aelwydydd deiliadaeth sengl. Fodd bynnag, roedd gan aelwydydd amaethyddol deiliadaeth sengl lawer mwy o ddynion nag aelwydydd gwledig nad ydynt yn amaethyddol.

Roedd mwy o aelwydydd amaethyddol yn cynnwys un cwpl gyda phlant nag aelwydydd gwledig nad ydynt yn amethyddol. O ran aelwydydd sy'n cynnwys cyplau, roedd cyfran uwch ohonynt yn briod mewn aelwydydd amaethyddol o'u cymharu ag aelwydydd gwledig nad ydynt yn amaethyddol.

Byddwn ni'n trafod sut mae ein canfyddiadau ar gyfer y canlyniadau demograffeg gymdeithasol yn sail i themâu ymchwil eraill ar lechyd a Llesiant, Ffyniant, Gwytnwch, a'r Amgylchedd a Lle. Byddwn ni hefyd yn trafod y broses o greu ein Set Ddata sy'n Barod ar gyfer Ymchwil ym mhob un o wledydd y DU.

Casgliad

Mae AD|ARC yn adnodd pwerus ac amryddawn sy'n cynhyrchu tystiolaeth i lywio'r ddadl a'r broses o lunio polisiau, gan arwain o bosibl at ganlyniadau gwell ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i ffermwyr a chymunedau ffermio.

Laura Madden, Rachael Loftus, Iechyd Cyhoeddus Cymru

AD|ARC (Administrative Data Agri-Research Collection): Linking Individual, Household and Farm Business Data for Sociodemographic Research on Farming Households

Objective

The research investigates the socio-demographics and structure of farming households in Wales in receipt of farming subsidies in comparison to a control group of non-farming rural households.

Approach

We utilised the AD|ARC dataset, a Research Ready Dataset (RRD), comprised of population census data and existing agricultural datasets including EU Farm Structure Survey data, Rural Payments, and farm business activity data. A control group of rural households was created by matching each farming household with up to three rural households that did not contain a farmer. Census variables were analysed to compare the structure of farming households with the control group in Wales.

Results

When considering the differences between farming households with non-farming rural households, we found:

Farming households were larger on average, with fewer single occupancy households. However, single occupancy farming households had significantly more male residents than was found for non-farming rural households.

More farming households contained one couple with children than non-farming rural households. For households containing a couple, a higher proportion of them were married in farming households compared to non-farming rural households.

We will discuss how our findings for the socio-demographic results underpin other research themes on Health & Wellbeing, Prosperity, Resilience, and Environment & Place. We will also discuss the creation of our RRDs in each UK nation.

Conclusion

AD|ARC introduces a powerful, versatile resource that will generate evidence to inform debate and policy making, potentially leading to better outcomes on a range of issues relevant to farmers and farming communities.

Laura Madden, Rachael Loftus, Public Health Wales.



@ADR_Wales

Perchnogaeth gyffredin drwy lygaid cyfreithiol: glasbrint ar gyfer perthynas lai trafodaethol rhyngom ni a'n hafonydd, gyda ffocws mwy cymdeithasol?

Mae cyflwr yr afonydd yn y DU yn ofnadwy. Er gwaethaf nifer o alwadau am well rheoleiddio a sawl achos llys, nid yw'r gyfraith yn helpu. Mae hyn yn golygu bod dinasyddion wedi cymryd camau radical drwy beidio â thalu eu biliau dŵr ([boycottwaterbills.com](https://www.boycottwaterbills.com) (<https://www.boycottwaterbills.com>)). Mae symudiad tebyg wedi'i gychwyn gan *extinction rebellion* (<https://extinctionrebellion.uk/act-now/campaigns/dont-pay-for-dirty-water/>). Er bod camau o'r fath yn ddealladwy, maen nhw'n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r gyfraith, fel y mae ar hyn o bryd, yn ddigon da i fynd i'r afael â chwestiynau mor bwysig. Mae'r gyfraith yn arf ddiawch, ac mae'n dal ag elfennau gwrthwynebus iawn ac yn parhau'r 'nhw' a'r 'ni' yn y berthynas sy'n bodoli rhwng defnyddwyr a chwmniau dŵr ac yn fwya cyffredinol rhwng bodau dynol a natur (B. Büscher ac R. Fletcher, *The Conservation Revolution. Radical Ideas for Saving Nature Beyond the Anthropocene* (Verso 2020) 158). Yn y cyfamser, mae'r bygythiad i ddŵr fel ecosystem yn parhau.

Mae angen gwahanol atebion i newid y berthynas rhyngom ni y bobl a'n hecosystem. Nod y cyflwyniad hwn yw ystyried rôl hanfodol y gyfraith, fel cyfrwng galluogi ar gyfer dewis amgen sy'n canolbwytio mwy ar gymdeithas. Nid yw'r cysyniad o gydwethredu a rhannu i fodloni anghenion yn rhywbeth newydd, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio digon o hyd, gan gynnwys yma yn y DU. Ac eto, gellid ei ddefnyddio i herio'r model gwrthwynebol presennol a helpu i fynd i'r afael â'i ddiffygion. Mae gweithredoedd dinasyddion sy'n dilyn 'Friends of the river movement' neu fel *Aqua Bene Commune Napoli* yn yr Eidal (M. Cornu, F. Orsi, J. Rochfeld, *Dictionnaire des biens communs* (PUF 2021) 24) yn gofyn am archwilio ffyrdd llai gwrthwynebus a mwy perthynol o wneud perchnogaeth yn rhywbeth sy'n adfywio.

Severine Saintier, Prifysgol Caerdydd a Isabelle Rueda, Prifysgol Exeter

Commoning viewed through a legal lens: blueprint for a less transactional and more socially-oriented relation between us and our rivers?

The state of the rivers in the UK is appalling. Despite numerous calls for better regulation and several court cases, the law does not help. This is such that citizens have taken radical actions by withholding payments of their water bills ([boycottwaterbills.com](https://www.boycottwaterbills.com) (<https://www.boycottwaterbills.com>)). A similar movement is started by *extinction rebellion* (<https://extinctionrebellion.uk/act-now/campaigns/dont-pay-for-dirty-water/>). Although such actions are understandable, they highlight that the law, as it currently stands, is not well equipped to tackle such important questions. Too blunt an instrument, it is still highly adversarial and perpetuates the 'them' and 'us' in the relation that exists between consumers and water companies and more broadly between humans and nature (B. Büscher and R. Fletcher, *The Conservation Revolution. Radical Ideas for Saving Nature Beyond the Anthropocene* (Verso 2020) 158). In the meantime, the threat to water as an ecosystem continues.

Different solutions are needed to change the relation between us humans and our ecosystem. The aim of this presentation is to consider the crucial role of the law, as an enabling tool for a more socially-oriented alternative. Commoning, as a concept, is not new but it remains underused, including here in the UK. Yet, it could be used to challenge the current adversarial model and help address its shortcomings. Citizens' actions following the 'Friends of the river movement' or such as *Aqua Bene Commune Napoli* in Italy (M. Cornu, F. Orsi, J. Rochfeld, *Dictionnaire des biens communs* (PUF 2021) 24) invite to explore less antagonistic and more relational ways of making ownership regenerative.

Severine Saintier, Cardiff University and Isabelle Rueda, Exeter University

Archwilio a gosod gwleidyddiaeth gyffredin garddio trefol mewn amgylcheddau trefol neo-ryddfrydol

Er bod delfrydau ôl-gyfalafiaeth yn flaenorol wedi cael eu deall fel rhywbeth i'w gyflawni yn y dyfodol pell, mae daearyddwyr cynyddol feirniadol wedi cael eu bywiogi gan yr arferion ôl-gyfalafol neu fwy na chyfalafol sydd eisoes yn amlwg mewn bywyd bob dydd. Mae'r delfrydau hyn yn cael eu mynegi mewn gwahanol ffyrdd—boed hynny'n gysylltiedig ag adnoddau a pherchnogaeth gyffredin, economiau cymunedol amrywiol, neu wleidyddiaeth ragddarluniol ac arbrofol. Ac eto, yn bennaf, mae arferion o'r fath yn creu delweddu o weithredaeth, protest a mudiadau cymdeithasol, ac rydym yn aml yn anwybyddu'r arferion cyffredin y mae pobl yn eu defnyddio i fodloni eu bywydau yn yr amgylcheddau trefol neo-ryddfrydol mwyaf gelynnaethus. Mae gerddi trefol yn bwynt didorol i archwilio'r ddeinameg hon—mae'n hawdd rhamantu amdanynt ac yn hawdd eu diystyr, ac yn gynyddol mae galwadau i feddwl am eu gwleidyddiaeth gyffredin. Yn seiliedig ar waith maes ethnograffig mewn gerddi trefol yng Nghaerdydd, mae'r papur hwn yn archwilio arferion cyffredin a gwleidyddiaeth garddio trefol. Yn benodol, mae'n ymwneud ag archwilio'r syniad bod llawer o'n pleserau a'n profiadau mwyaf yn deillio o'r arferion sy'n bodoli er gwaethaf rhesymeg gyfalafol y wladwriaeth, ac o bosibl y tu hwnt i hynny. Mae'r papur hwn yn archwilio tair proses gysylltiedig a pherthynol: yr arferion gwerth sylfaenol; y cysylltiadau cymdeithasol bob dydd; a'u trefn lywodraethu gynhenid. At ei gilydd, mae'r tair proses hyn yn cynnwys hadau posibilrwydd—er eu bod yn aml yn aros yn wleidyddol gudd, maent yn cynnig posibiliadau damcaniaethol ac ymarferol ar gyfer mathau newydd o weithredu gwleidyddol.

Owain Hanmer, Canolfan Cynllunio ac Amgylcheddau Cynaliadwy, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste

Exploring and situating the mundane politics of urban gardening within neoliberal urban environments

While the ideals of post-capitalism were previously understood as something to be achieved in a distant future, increasingly critical geographers have become animated by the post-capitalist or more-than-capitalist practices already apparent in everyday life. These ideals are expressed in various ways—whether that is related to the commons and commoning, diverse community economies, or prefigurative and experimental politics. Yet, overwhelmingly, such practices conjure up images of activism, protest, and social movements, and we often overlook the mundane practices through which people satisfy their lives in the most hostile neoliberal urban environments. Urban gardens are an interesting point to explore this dynamic—they are both easy to romanticise and easy to dismiss, and increasingly there are calls to think about its mundane politics. Based on ethnographic fieldwork in urban gardens in Cardiff, this paper explores the mundane practices and politics of urban gardening. In particular, it is concerned with exploring the idea that many of our greatest pleasures and experiences emerge from the practices that exist despite and potentially beyond a state-capitalist logic. This paper does explores three interrelated and relational processes: the baseline value practices; the everyday social relations; and its vernacular governance. In total, these three processes contain seeds of possibility—while they often remain politically latent, they offer theoretical and practical possibilities for new forms of political action.

Owain Hanmer, Centre for Sustainable Planning and Environments, University West of England, Bristol

Ethnograffeg ffilm ac ymwybyddiaeth feirniadol: edrych ar fethodoleg ymchwil gweithredu yn y gymuned ar gyfer trawsnewidiad Freireaidd

Cyflwynir gwaith maes sy'n disgrifio'r defnydd o ffilmiau ethnograffig fel methodoleg ymchwil weithredol sy'n seiliedig ar egwyddorion Freireaidd lle gwnaeth cymunedau agored i niwed Nepalaid (y mae eu bywydau a'u bywoliaeth yn dibynnu'n drwm ar geffylau sy'n gweithio) a'u ceffylau gymryd rhan mewn ffilm ethnograffig gyfranogol, fel rhan o weithgareddau ymgysylltu parhaus gan bartneriaid prosiect sy'n ceisio trawsnewid lles ceffylau sy'n gweithio a sefydlogrwydd economaidd cymunedau sy'n berchen ar geffylau. Mae ffilmiau ethnograffig wedi eu sefydlu o fewn academia ac arferion datblygiad cymdeithasol, ond prin yw'r effaith-tystiolaeth o'u gallu i drawsnewid cymunedau cyfranogwyr yn gadarnhaol drwy astudiaethau sy'n seiliedig ar seiliau damcaniaethol credadwy. Mae'r papur hwn yn awgrymu bod theori 'ymwybyddiaeth feirniadol' Paulo Freire, sy'n cynnwys hunan-fyfrio a thrawsnewid, yn berthnasol i ffilmiau ethnograffig oherwydd gall ffilmiau ethnograffig gyflwyno sefyllfaoedd bywyd yn ôl i'w pynciau mewn ffyrdd sy'n caniatáu i bobl weld eu hunain yn wahanol. Trafodir seiliau damcaniaethol hanesyddol ehangach ffilmiau ethnograffig, a ddilynir gan ddisgrifiad o sut y cawsant eu cymhwys yn yr ymchwil weithredol. Mae'r awduron wedi ymrthod â'r temtasiwn i ddiffinio a chymhwys ffilmiau ethnograffig fel absoliwt, ond yn hytrach fel 'priodoeddau neu ddimensiynau amrywiol, sy'n effeithio ar fynegiant ethnograffig' mewn ffilmiau a methodolegau gwneud ffilmiau. Yn yr un modd, cyflwynir cyfranogiad fel nodweddion 'cyfranogaeth' gan ddefnyddio Ffenestr Johari, a grëwyd gan y seicolegwr Joseph Luft a Harrington Ingham yn 1955. Gan ddefnyddio 'dull seiliedig ar effeithiau' Wiek et al., disgrifir methodoleg werthuso sy'n cyd-fynd ag arferion cydwybodol Freire gan ddefnyddio lefelau uchel o hunan-fyfrio gan gyfranogwyr. Mae canfyddiadau cychwynnol yn dangos rhywfaint o effeithiolrwydd ffilmiau ethnograffig yn y gymuned fel methodoleg ymchwil weithredol ar gyfer newid cadarnhaol yn seiliedig ar fethodolegau Freireaidd, gan ddangos trawsnewid yng ngwybodaeth cyfranogwyr am eu ceffylau, a'u hymddygiad tuag atynt. Bwriedir cynnal astudiaeth hydredol i weld a yw'r newidiadau hyn yn parhau yn y tymor hir. Mae'r trawsnewidiadau cymunedol sydd wedi dod i'r amlwg o'r broses ffilmiau ethnograffig yn cynnig gwelliant yn iechyd a lles ceffylau, gan hyrwyddo mwy o wytnwch a sefydlogrwydd o ran capasiti cynhyrchu incwm mewn cymunedau. Mae rhywfaint o welliant cadarnhaol yn yr amgylchedd cymdeithasol-wleidyddol ehangach ar gyfer lles ceffylau yn dod i'r amlwg drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwasanaethau allgymorth ceffylau newydd. Mae'r prosiect hwn wedi denu diddordeb gan sefydliadau datblygu cymdeithasol eraill yn Nepal, gan gwestiynu a oes modd trosglwyddo'r fethodoleg gyffredinol i helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol eraill mewn ardaloedd gwledig lle nad oes digon o adnoddau. Mae'r awduron hefyd yn credu bod y prosiect hwn wedi agor trafodaeth ynghylch rhyddhad Freireaidd sy'n berthnasol i les anifeiliaid, yng nghyd-destun adfer dynoliaeth.

Michael Brown, Prifysgol De Cymru

Film ethnography and critical consciousness: exploring a community-based action research methodology for Freirean transformation

Fieldwork is presented describing the use of film ethnography as an action research methodology based on Freirean principles where vulnerable Nepali communities (whose lives and livelihoods are heavily dependent on working equines) and their equines engaged in participatory film ethnography, as part of ongoing engagement activities by project partners seeking transformation in working equine welfare and the economic stability of equine-owning communities. Film ethnography is established within social development academia and praxis, but there is limited impact-evidence of its ability to positively transform participant communities through studies based on credible theoretical underpinnings. This paper suggests that Paulo Freire's 'critical consciousness' theory, involving self-reflection and transformation, has relevance for film ethnography because ethnographic film can present life situations back to its subjects in ways that allow people to view themselves differently. The broader historical theoretical underpinnings of ethnographic film are discussed, followed by a description of how they were applied in the action research. The authors have resisted the temptation to define and apply ethnographic film as an absolute, but rather as 'various attributes, or dimensions, that effect ethnographicness' in films and filmmaking methodologies. Similarly, participation is presented as characteristics of 'participatoryness' utilising the Johari Window, created by psychologists Joseph Luft and Harrington Ingham in 1955. Drawing on Wiek et al.'s 'effect-capturing approach' an evaluation methodology is described aligned to Freire's conscientisation praxis using high levels of participant self-reflection. Initial findings do evidence some effectiveness of community-based film ethnography as an action research methodology for positive change based on Freirean methodologies, showing transformation in participant knowledge of, and behaviour towards, their equines. A longitudinal study is planned to explore whether these changes sustain into the long-term. The community transformations that have emerged from the film ethnography process offer improvement in the health and wellbeing of equines, promoting greater resilience and stability of income generation capacity within communities. Some positive enhancement of the wider socio-political environment for equine welfare is emerging through stakeholder engagement and new equine outreach services. This project has attracted interest from other Nepali social development organisations, questioning if the overall methodology is transferable to help address other social challenges in under-resourced rural areas. The authors also believe this project has opened a discussion around Freirean liberation applied to animal wellbeing, in the context of restoring humanity.

Michael Brown, University of South Wales.



@UniSouthWales

Gwella ymgysylltiad, perthyn a chadw drwy ddysgu cynhwysol

Mae Gwasanaethau Lles ac Anabledd ym mhrifysgolion y DU yn datblygu arfer cynhwysol a hygrych, oherwydd mae gan bob myfyriwr hawl (Deddf Cydraddoldeb, 2010) i gael profiad prifysgol boddhaus a theimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cefnogi yn ystod eu hamser yn y brifysgol. Mae myfyriwr anabl sydd ag anableddau cudd yn cael cyllid drwy'r Lwfans i Ffyrwyr Anabl (DSA) i gael cymorth arbenigol unigol i wella eu sgiliau academaidd a'u profiad cyffredinol yn y brifysgol, a'u rhagolygon cyflogadwyedd wedi hynny.

Cydnabyddir yn eang bod cymryd rhan mewn addysgu a dysgu yn rhan annatod o gynnydd, cyflawniad, cyflogadwyedd a lefelau cadw myfyriwr, a bod cefnogaeth arbenigol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod myfyriwr ag anableddau yn ymgysylltu ac yn teimlo eu bod yn perthyn (Thomas, 2016; Tight, 2020). Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar waith **Sgiliau Astudio Arbenigol** gan gyfeirio at ymgysylltiad cyson myfyriwr a'u lefelau cadw dilynol – drwy werthuso data, astudiaethau achos myfyriwr a safbwytiau staff ar bresenoldeb ac ymgysylltu.

Mae tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymarfer yn dangos bod presenoldeb myfyriwr yn amrywio ar draws llwyth achosion tiwtoriaid. Er enghraift, mae myfyriwr yn gofyn am sesiynau sgiliau astudio arbenigol ac yn mynd iddynt pan maent mewn sefyllfa o argyfwng gyda'u gwaith ar gyfer arholiadau neu aseiniadau academaidd; tra mae tystiolaeth yn awgrymu bod dull cyson o ddatblygu strategaethau arbenigol i ddarparu ar gyfer anawsterau dysgu yn gwella sgiliau 'dysgu i ddysgu', a sgiliau academaidd.

Ceisiodd y prosiect ddangos tystiolaeth o lefelau ymgysylltu a chadw myfyriwr o fewn gwasanaethau cynhwysol, er mwyn llywio ymarfer tiwtoriaid Sgiliau Astudio Arbenigol, gwella canlyniadau myfyriwr, a chyfrannu'n ystyrlon at brofiad cyffredinol y myfyriwr yn y brifysgol.

Lindsey Roberts, Prifysgol Abertawe

Improving engagement, belonging and retention through inclusive learning

Wellbeing and Disability Services in UK universities develop inclusive and accessible practice, as every student has the right (Equality Act, 2010) to a fulfilling university experience and feel they belong and are supported during their time at university. Disabled students with hidden disabilities access Disabled Students Allowance (DSA) funding for individualised specialist support to improve their academic skills and general university experience, and subsequent employability prospects.

It is widely acknowledged that engagement in teaching and learning is integral to student retention, progression, achievement and employability, and that specialist support is key to students with disabilities engaging and belonging (Thomas, 2016; Tight, 2020). This paper focuses on the work of **Specialist Study Skills** with reference to students' consistent engagement and subsequent retention, by evaluating data, student case studies and staff perspectives on attendance and engagement.

Practice-based evidence demonstrates that students' attendance is variable across tutors' caseloads. For example, students are requesting and attending specialist study skills sessions at points of crisis with their academic assignment work or examinations; when evidence suggests that a consistent approach to developing specialist strategies to accommodate for learning difficulties improves learning to learn skills and academic skills.

The project sought to evidence engagement and retention of students within inclusive services, to inform the practice of Specialist Study Skills tutors, improve student outcome, and contribute meaningfully to the students' overall university experience.

Lindsey Roberts, Swansea University



@liddytwt

Deall Effaith Nodi Anghenion Addysgol Arbennig ar Gynnydd Academaidd yng Nghymru: Da-dansoddiad Cynhwysfawr

Mae plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cyflawni cyrhaeddiad addysgol is na'r cyfartaledd yn gyson o gymharu â'u cyfoedion (Parsons a Platt, 2017; StatsCymru, 2019). Corff o ymchwil sy'n ystyried effaith gymdeithasol nodi AAA ar ddiagnosis ac mae wedi dangos effeithiau cymysg. Mae ymchwil ansoddol yn amlygu buddiannau nodi AAA o ran lliniaru stigma a mynediad at gymorth (Ingesson, 2007; Glazzard, 2010; Leitão et al., 2017), ac mae ymchwil feintiol yn dangos effaith negyddol ar hunan-gysyniad academaidd (Polychroni, Koukoura, ac Anagnostou, 2006; Knight, 2021). Ychydig iawn o ymchwil sydd wedi'i gynnal sy'n ymchwilio i effaith AAA ar ganlyniadau academaidd, sydd hefyd yn ystyried categoriâu o AAA (h.y., ADHD) (Parsons a Platt, 2017).

Mae'r astudiaeth yn mynd i'r afael â phedwar cwestiwn:

1. Pa ffactorau sy'n cyfrannu at nodi AAA yng Nghymru?
2. Sut mae nodi AAA yn effeithio ar gynnydd academaidd mewn ysgolion prif ffrwd o gymharu â chyfoedion heb AAA?
3. Sut mae'r taflwybr academaidd yn amrywio yn seiliedig ar y math o AAA a nodwyd?
4. Beth yw effaith oedran nodi AAA ar daflwybr academaidd?

Gan ddefnyddio data gweinyddol am y boblogaeth o Fanc Data SAIL yng Nghymru, rydym wedi cysylltu data demograffig, addysg ac iechyd, gan greu carfan o blant wedi'u geni rhwng Medi 2002 ac Awst 2008 ($n \Rightarrow 200,000$ o blant).

Gan ddefnyddio modelau aml-lefel hydredol, canfuom fod ffactorau cymdeithasol-ddemograffig yn chwarae rhan arwyddocaol wrth nodi AAA. Yn ogystal, roedd perthynas negyddol gref rhwng nodi AAA â chyrhaeddiad addysgol, gyda phroses nodi gynharach a diagnosis penodol yn chwarae rhan arwyddocaol tuag at gyrhaeddiad, wedi'u had-dasu ar gyfer cyd-newidynnau allweddol.

Emily Lowthian, Prifysgol Abertawe

Understanding the Impact of Special Educational Needs Identification on Academic Progression in Wales: A Comprehensive Analysis

Children with Special Educational Needs (SEN) consistently achieve lower than average educational attainment compared to their peers (Parsons & Platt, 2017; StatsWales, 2019). A corpus of research considering the social impact of SEN identification on diagnosis and has shown mixed effects. Qualitative research highlights the benefits of SEN identification due to the alleviation of stigma, and access to support (Ingesson, 2007; Glazzard, 2010; Leitão et al., 2017), while quantitative research, shows a negative impact on academic self-concept (Polychroni, Koukoura, & Anagnostou, 2006; Knight, 2021). Scant research has been conducted which investigates the impact of SEN on academic outcomes, which also considers categories of SEN (i.e., ADHD) (Parsons & Platt, 2017).

The study addresses four key questions:

1. What factors contribute to SEN identification in Wales?
2. How does SEN identification impact academic progression in mainstream schools compared to peers without SEN?
3. How does academic trajectory vary based on the type of SEN identified?
4. What is the impact of the age of SEN identification on academic trajectory?

Utilising administrative population data from the SAIL Databank in Wales, we linked demographic, education, and health data, resulting in a cohort of children born between September 2002 and August 2008 ($n \Rightarrow 200,000$ children).

Using longitudinal multi-level models, we found that sociodemographic factors played a significant role in the identification of SEN. In addition, SEN identification had a strong negative relationship with educational attainment, with earlier identification and specific diagnoses playing a significant role towards attainment, adjusted for key covariates.

Emily Lowthian, Swansea University



Amcangyfrif Nifer y Plant nad ydynt mewn Addysg Ffurfiol gan ddefnyddio setiau data Iechyd ac Addysg Allweddol: Dull Trionglog

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn gosod dyletswydd ar rieni i sicrhau bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon, naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall. Yn yr un modd, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ganfod plant nad ydynt yn derbyn addysg addas a rhoi sylw i ganllawiau perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar sefydlu rheoliadau newydd i ffurfioli gofyniad ar Awdurdodau Lleol i sefydlu cronfa ddata o blant sydd ar goll o'r system addysg.

Yn gynnar yn natblygiad y rheoliadau newydd hyn, nodwyd bod angen gwneud asesiad rhesymol o nifer y plant nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg ffurfiol neu addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). At y diben hwn, datblygwyd dulliau ar wahân gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) y mae canlyniadau wedi cael eu cynhyrchu ohonynt. Yn anochel, mae gwahaniaethau yn y canlyniadau, o ganlyniad i amrywiadau yn y dulliau a ddefnyddir ac yn unol â'r asedau data a'r adnoddau dadansoddi sydd ar gael.

Nod ein cwestiwn ymchwil yw mesur nifer y plant nad ydynt mewn addysg amser llawn. Gwnaethom ddefnyddio dull cysylltu data o setiau data iechyd ac addysg yn y Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Drwy gysylltu data o setiau data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion ac EOTAS â setiau data sy'n ymwneud â chofrestriadau'r GIG, roedd yn bosibl amcangyfrif nifer y preswylwyr sy'n blant a oedd ar goll o'r system addysg yng Nghymru. Bydd y dull a weithredir yn cael ei amlinellu a'i gyflwyno ynghyd â chanlyniadau cryno o ddefnyddio'r dull hwn. Gellir cymharu'r canfyddiadau hefyd â'r rhai o'r dull gweithredu a weithredwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol os daw gwybodaeth berthnasol ar gael.

Tony Whiffen, Llywodraeth Cymru

Estimating Numbers of Children Not in Formal Education using Key Health and Education datasets: A Triangulated Approach

Existing legislation places a duty on parents to ensure that a child of compulsory school age receives efficient full-time education, either by regular attendance at school or otherwise. Similarly, there is a duty on local authorities to make arrangements to identify children not receiving suitable education and to have regard to relevant guidance. The Welsh Government has consulted on establishing new regulations to formalise a requirement on LAs to establish a database of children missing from the education system (CME).

Early in the development of these new regulations there was an identified need to make a reasonable assessment of the numbers of children who are currently not in formal education or educated other than at school (EOTAS). For this purpose separate approaches were developed by Welsh Government and the Office for National Statistics (ONS) from which results have been produced. Inevitably there are differences in the results, due of course to variations in the approaches used and in accordance with the data assets and analysis tools available.

Our research question is to quantify the numbers of children not in full time education. We utilised a data linking approach of health and education datasets in the Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) Databank. By linking data from the Pupil Level Annual School Census and EOTAS datasets with that relating to NHS registrations it was possible to estimate numbers of child residents who were missing from the education system in Wales. The method implemented will be outlined and presented along with summary results from using this approach. Findings may also be compared with those from the approach implemented by the ONS if relevant information becomes available.

Tony Whiffen, Welsh Government.

Newid i dirweddau addysg ac anghydraddoldeb yng Nghymru: Archwiliad o'r rhwystrau i addysg drydyddol gan ddefnyddio data addysg a Chyfrifiad y DU cysylltiedig

Mae newidiadau i lywodraethu addysg ôl-orfodol ar droed yng Nghymru, gyda Chomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) newydd yn cael ei greu yn 2024. Bydd CTER yn goruchwyllo system gymhleth o hyfforddiant ac addysg i oedolion a phobl ifanc. Mae newidiadau o'r fath yn cynnig cyfle i archwilio nodweddion sy'n atal neu'n annog ymgysylltu ag addysg ar ôl addysg ffurfiol, y gellir eu defnyddio i lywio strategaethau CTER yn y dyfodol.

Roedd yr ymchwil hwn yn ystyried nodweddion personol a chefn dir dysgwyr, ac yn gwerthuso'r gwaithiaethau rhwng nodweddion o ran cofrestru, cynydd/ymadael a chwblhau mewn gwahanol leoliadau addysg drydyddol (Chweched Dosbarth, Addysg Bellach, ac Addysg Uwch). Gan ddefnyddio cysylltiadau data newydd ar draws 5 ffynhonnell ddata wahanol, gwnaethom ddefnyddio nodweddion aelwyd yng Nghyfrifiad y DU 2011 i helpu i roi profiadau dysgwyr mewn cyd-destun ac archwilio amlygiad anghydraddoldebau yn y system addysg drydyddol.

Mae dadansoddiad yn dangos bod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi'u gorgynrychioli neu heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn lleoliadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET), ac ar fathau penodol o raglenni. Roedd anghydraddoldeb yn ymddangos yn llai amlwg mewn lleoliadau AU, ond mae hyn yn debygol o fod oherwydd y dewisiadau a wnaed a'r rhwystrau a brofwyd ar oedran cynharach.

Roedd yr argymhellion ar gyfer CTER a dynnwyd o'r ymchwil yn cynnwys: 1) dull mwy cydlynol o gasglu data ar draws y sector trydyddol, a 2) dylai strategaethau asesu effeithiau ar gyfer y rhai sy'n profi sawl math o anfantais. Roedd y canlyniadau'n dangos y dylid targedu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd lluosog i wella cynydd ar gyfer y grwpiau hyn.

Katy Huxley, Prifysgol Caerdydd.

Changing education landscapes and (in)equality in Wales: An exploration of barriers to tertiary education using linked UK Census and education data

Changes to the governance of post-compulsory education are afoot in Wales, with a new Commission for Tertiary Education and Research (CTER) created in 2024. CTER will oversee a complex system of training and education for adults and young people. Such changes offer an opportunity to examine features that prevent or encourage engagement with education after formal schooling, that can be used to inform future CTER strategies.

This research considered the personal and background characteristics of learners, and evaluated differentials between characteristics in terms of enrolment, progression/exit and completion in different tertiary education settings (Sixth Forms, Further Education, and Higher Education). Using novel data linkages across 5 different data sources, we used household characteristics from the UK Census 2011 to help contextualise the experiences of learners and explore the manifestation of inequalities in the tertiary education system.

Analysis indicates that certain groups of learners were over or under-represented in particular Post Compulsory Education and Training (PCET) settings, and on particular types of programmes. Inequities appeared less pronounced within HE settings, however this is likely due to choices made and barriers experienced at an earlier age.

Drwy gyd-gynhyrchu, roedd yr ymchwil yn cynnwys: 1) y defnydd newydd o 'fframweithiau canlyniadau cadarnhaol' (Hynes et al 2022) ar gyfer methodoleg-Q gyda 28 o oroeswyr, 2) dadansoddiad o 400 o ddatganiadau 'crynodeb cau' ansoddol o fewn data'r gwasanaeth ICTG, a 3) grwpiau ffocws/gweithdai ymarferwyr a phlant, buom yn archwilio beth oedd y canlyniadau pwysicaf i blant a goroeswyr ifanc caethwasiaeth fodern a oedd yn cael eu priodoli i gymorth gwarcheidiaeth ICTG.

Er y gallai ymchwil data gweinyddol cysylltiedig wella'r ddealltwriaeth o ganlyniadau gweithdrefnol y tu hwnt i'r gwasanaeth ICTG ar gyfer goroeswyr camfanteisio drwy gaethwasiaeth fodern, rydym yn awgrymu na fyddai hyn yn casglu canlyniadau drwy brofiad o ran cefnogaeth sy'n canolbwytio ar y plentyn. Nid yw cofnodion meintiol yn asesu'r manteision y mae gweithwyr gwarcheidiaeth yn eu darparu a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan oroeswyr. Mae angen dulliau mwy cyfranogol sy'n canolbwytio ar y plentyn i ddeall manteision gwasanaeth i bobl ifanc. Mae cerdd a gyd-gynhyrchwyd ac a adroddir gan oroeswyr, a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect, yn dangos amrywiol ganlyniadau a briodolir i gefnogaeth gan ymarferwyr ICTG.

Katy Huxley, Prifysgol Caerdydd

Supporting Positive Outcomes for Children and Young People Affected by Modern Slavery: A Critique of Administrative Outcomes

Our mixed-method research explored outcomes for children and young people supported by the Home Office's Independent Child Trafficking Guardianship (ICTG) service in England and Wales, operated by Barnardo's.

Analysis of ICTG service records revealed an emphasis on bureaucratic outcomes, such service eligibility and immigration status. 'Outcomes' measured using administrative records revealed little about the impact of the service for the individuals supported. We argue that the outcomes collected for formal reporting purposes do not satisfactorily capture the experiences and changes for children and young people that result from ICTG service support.

Through co-production, the research included: 1) the novel application of 'Positive outcomes frameworks' (Hynes et al 2022) for Q-methodology with 28 survivors, 2) analysis of 400 qualitative 'closure summary' statements within the ICTG service data, and 3) practitioner and child focus groups/workshops, we explored what were the most important outcomes for children and young survivors of modern slavery that were attributed to ICTG guardianship support.

We suggest that whilst linked administrative data research could further the understanding of procedural outcomes beyond the ICTG service for survivors of modern slavery exploitation, this would not capture experiential child-centred outcomes from support. Quantitative records fail to assess the benefits guardianship workers provide and the positive outcomes which are valued by survivors. More participatory and child-centred methods are needed to understand service benefits for young people. A co-produced poem spoken by survivors, produced as part of the project, demonstrates various outcomes attributed to support by ICTG practitioners.

Katy Huxley, Cardiff University.



Lleisiau na chlywir yn aml: cyd-gynhyrchu naratif sy'n seiliedig ar le drwy ymarfer celfyddydau creadigol yng ngogledd Cymru

Gan weithio gydag ymarferwyr creadigol, ein nod yw rhoi pwys ar ymdeimlad o le a hunaniaeth, ac ymgysylltu â grwpiau a chymunedau nad yw eu lleisiau yn cael eu clywed ddigon, o bosib, ar hyn o bryd, gyda'r nod o lywio polisiau yn y dyfodol.

Bydd y papur yn archwilio sut y gall dulliau sy'n ymwneud â'r celfyddydau a'r dyniaethau feithrin partneriaethau a gweithredu newydd ymystg rhanddeiliaid. Rhan fawr o'n dull gweithredu yw defnyddio'r dychymyg – ar lefel unigol ac mewn cymunedau – a'r syniad o daith, o 'beth yw i beth os'. Mae ymgorffori gweithredu – drwy ymarfer celfyddydau creadigol, yn annog ymddiriedaeth, cred ac awduraeth, ac wrth ystyried datblygiad metrigau cyfranogol, bydd yr ymchwil gyfranogol yn cysylltu artistiaid proffesiynol ac artistiaid heb fod yn broffesiynol mewn gweithred o rymuso prosesau cyd-greua (Matarasso, 2019).

Drwy ganolbwytio ar brosiectau creadigol ar draws gogledd Cymru, nod y papur yw dangos sut gall y celfyddydau wella ein bywydau a'r amgylchedd drwy ddehongliad artistig, cynhwysiant ac adrodd straeon. Ni ellir tanbrisio grym adrodd straeon o ran galluogi unigolion a chymunedau i weithredu, gan ddatgelu darlun integredig o gymeriad diwylliannol, arwyddocâd a phrosesau lle' (Zaidi 2023; Pillai 2022).

Bydd ymgysylltu drwy'r celfyddydau yn cael ei roi mewn cyd-destun, gydag enghreifftiau o'r prosiectau, yn ogystal â rhai agweddu ar yr astudiaethau achos sy'n deillio o weithgareddau gwaith maes yn y cymunedau.

Alec Shepley, Prifysgol Wrecsam

Seldom heard voices: co-producing place-based narratives through creative arts practice in north Wales

Working with creative practitioners, we aim to emphasise a sense of place and identity, and to engage with groups and communities, whose voices may at present be underrepresented, with the aim of informing future policies.

The paper will explore how arts and humanities approaches can nurture new partnerships and agency in the stakeholders. A large part of our approach is accessing the imagination – both on an individual level and in communities – and the notion of a journey, from 'what is to what if'. Incorporating agency – through creative arts practices, encourages trust, belief and authorship and given the development of participatory metrics development, the participatory research will connect professional and non-professional artists in an act of empowering co-creation (Matarasso, 2019).

Through a focus on creative projects across north Wales, the paper aims to evidence how the arts can improve our lives and the environment through artistic interpretation, inclusion and storytelling. The power of storytelling cannot be underestimated in mobilising individuals and communities to act, revealing an integrated picture of cultural character, significance and workings of a place' (Zaidi 2023; Pillai 2022).

Engagement through the arts will be contextualised, with examples from the projects, as well as some aspects of the case studies that are emerging from fieldwork activities within the communities.

Alec Shepley, Wrexham University

X @WrexhamUni | @prifwrecsam

Hunaniaeth Gymreig Ddeuol a Hunaniaeeth Gymreig Luosog yn y Gymru Gyfoes

Mae hunaniaeth Gymreig wedi profi cyfnod o adfywiad cynyddol a mwy o sylw academaidd yn y blynnyddoedd ers datganoli yng Nghymru. Mae ymchwil i'r maes wedi cynyddu'n sylweddol ac mae proffwydoliaeth Graham Day o Gymdeithaseg Gymreig yn sicr wedi'i gwireddu. Yn ysbryd y Gymdeithaseg Gymreig newydd hon, cynhalwyd y prosiect hwn er mwyn gwellu dealltwriaeth o grŵp cyfansoddol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n dod yn fwyfwy pwysig - Cymry treftadaeth ddeuol a lluosog.

Gan dynnu ar waith ymchwil blaenorol ac ychwanegu 12 cyfweliad elit a 52 cyfweliad i'r prosiect, mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno ac yn ymchwilio i brofiadau, heriau a diddordebau'r grŵp hwn ac yn ceisio eu gosod yng nghyd-destun cymdeithasol Cymru gyfoes. Mae'r papur yn ystyried tair thema a ddaeth i'r amlwg yn y cyfrifon a gasglwyd: cysyniadau a phrofiadau pobl treftadaeth ddeuol a lluosog o hunaniaeth Gymreig, eu profiadau o hybrideiddio hunaniaeth yng nghyd-destun profiad cymdeithasol a pherthnas-oedd â chyfoedion, a'u profiadau a'u barn ar ddinasyddiaeth ddatganoledig a'i goblygiadau ar gyfer hunaniaeth genedlaethol ddinesig.

Mae'r cyd-destun y casglwyd y rhan fwyaf o'r cyfrifon yn ddy yn ystod 2020 a 2021 yn rhoi mewnwelediad trawstoriadol diddorol o ddatblygiadau cenedlaethol yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfnod cyn ac yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2021 o safbwynt Cymry treftadaeth ddeuol a lluosog. Ar ben hynny, mae'r papur yn ymateb i'r ymdeimlad o ymwybyddiaeth a chydubyddiaeth gynyddol o ddatganoli a ddaeth i'r amlwg yng nghyfrifon y cyfranogwyr a goblygiadau hynny ar faes cymdeithasol-wleidyddol Cymru.

Emyr Kreishan, Prifysgol Caerdydd

Dual and Multiple Heritage Welsh Identity in Contemporary Wales

Welsh identity has undergone an accelerated period of resurgence and greater academic attention in the years since Welsh devolution commenced. Research into the area has reached ever greater degrees of breadth and Graham Day's predicted emergence of a Welsh Sociology has undoubtedly come to pass. In the spirit of this new Welsh Sociology this project has been undertaken in order to improve understanding of an emerging and increasingly important constituent group – dual and multiple heritage Welsh people.

Drawing on prior research and adding 12 elite interviews and 52 interviews to the project, this study draws out and investigates the experiences, challenges and interests of this group and seeks to place them in the contemporary Welsh social context. The paper considers three emergent themes from the accounts gathered: dual and multiple heritage Welsh people's conceptualisation and experience of Welsh identity, their experiences of the hybridisation of identity within the context of societal experience and peer relations, and their experiences and views on devolved citizenship and its implications for a civic national identity.

The context in which most accounts were gathered during 2020 to 2021 gives an interesting cross-sectional insight of national developments during the COVID-19 pandemic and the lead up and aftermath of the 2021 Senedd elections from the standpoint of dual and multiple heritage Welsh people. Moreover, the paper comments upon the emergence from participants' accounts of a professed sense of greater awareness and acknowledgement of devolution and its implications for the Welsh socio-political field.

Emyr Kreishan, Cardiff University



Bywydau wedi'u Gwahardd: A allwn ni sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwahardd o'r ysgol yng Nghymru? Tystiolaeth gan rieni, disgyblion a chymdeithas sifil

Fel rhan o'r prosiect Bywydau wedi'u Gwahardd, mae WISERD wedi bod yn cynnal ymchwil gymharol gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Caeredin, Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Queen's, Belfast. Amcan y prosiect oedd deall pam mae cyfraddau gwahardd o'r ysgol yn amrywio cymaint ar draws pedair gwlad y DU. Mae lefelau gwahardd o'r ysgol yn is yng Nghymru nac yn Lloegr, a allai fod yn gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Roedd cyfweliadau â phobl ifanc a oedd wedi cael eu gwahardd yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn teimlo nad oedd neb yn gwrandu arnynt, a'u bod yn rhannu profiadau negyddol o wahardd mewnol – roeddent yn cymharu hynny â bod yn y ddalfa. Roedd cyfweliadau â rhieni yn tynnu sylw at enghreifftiau lle nad oedd anghenion cymorth eu plentyn yn cael eu diwallu, achosion o wahardd anffurfiol lle'r oedd eu plant wedi cael eu hanfon adref ond heb gael eu gwahardd yn swyddogol, a'u teimladau o fod yn ddi-rym wrth geisio ymwneud â'r system addysg. Dadlewyd nad yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei wreiddio'n llawn yn y system addysg eto, ac mae gwahardd o'r ysgol a mathau o wahardd mewnol yn enghreifftiau o hynny.

Yn y symposiwm hwn, bydd partneriaid o'r byd academaidd a chymdeithas sifil yng Nghymru yn trafod realiti gwahardd o'r ysgol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Maent yn rhannu profiadau o wahardd anghyreithlon a neb yn gwrandu ar ddisgyblion a rhieni, ac yn awgrymu sut y gallwn sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwahardd o'r ysgol yng Nghymru.

Mae'r symposiwm yn cynnwys siaradwyr o gymdeithas sifil:

Bydd **Jemma Bridgeman** o WISERD, *Prifysgol Caerdydd*, a fu'n gweithio ar y prosiect Bywydau wedi'u Gwahardd, yn cyflwyno canfyddiadau rhieni o bŵer yn y broses gwahardd o'r ysgol – gan ddefnyddio ysgol cyfranogiad Arnstein (1969) i archwilio a yw rhieni'n ymwneud yn ystyrlon â'r broses gwahardd o'r ysgol, ac a oes ganddynt bŵer i ddylanwadu ar y canlyn iau i'w plant.

Bydd **Jami Abramson** ac **Amira Assami** o *Dim Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuencid Cymru* yn siarad am eu Prosiect Hawl i Addysg, sef gwasanaeth addysg, eiriolaeth a chymorth arbenigol i Gymru gyfan sydd wedi'i dargedu at bobl ifanc ethnig leiafrifol.

Bydd **Emma Gooding** o *Samariaid Cymru* yn siarad am eu gwaith ar wahardd o'r ysgol, sy'n archwilio sut mae gwahardd o'r ysgol yn cynyddu ffactorau sy'n gallu arwain at risg o hunanladdiad.

Bydd **Ceri Reed** o *Rhieni yng Nghymru* yn siarad am ei gwaith yn darparu hyfforddiant a chymorth ar niwroamrywiaeth, ac yn arwain y gwaith o gydgynhyrchu rhwng rhieni a gofalwyr a gwasanaethau statudol ar hyd a lled Cymru. Y trafodwr fydd **Sian Jones**, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu yn *Llywodraeth Cymru*.

Excluded Lives: Can we achieve a rights-based approach to exclusion from school in Wales? Evidence from parents, pupils and civil society

As part of the Excluded Lives project, WISERD has been undertaking comparative research with colleagues in the Universities of Edinburgh, Oxford, and Queen's Belfast. The project's objective was to understand why school exclusion rates vary so widely across the four nations of the UK. Wales has lower levels of school exclusion than England, which may be associated with the Welsh Government's commitment to the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC). Interviews with young people who had been excluded highlighted that they felt that they were not listened to, and they shared negative experiences of internal exclusion, which they compared to being in custody. Interviews with parents highlighted examples of their child's support needs not being met, informal exclusion where their children had been sent home but not officially excluded, and their feelings of powerlessness navigating the education system. It has been argued that the UNCRC has yet to be fully embedded in the education system, and exclusion from school and forms of internal exclusion are examples of where it has not been. In this symposium, partners from academia and civil society in Wales will discuss the realities of school exclusion for children, young people and their families. They share experiences of unlawful exclusion, pupils and parents not being listened to and suggest how we can achieve a rights-based approach to school exclusion in Wales.

The symposium includes speakers from civil society they are:

Jemma Bridgeman from *WISERD, Cardiff University*, who worked on the Excluded Lives project, will present parents' perceptions of power in the school exclusion process—using Arnstein's (1969) ladder of participation to examine if parents are meaningfully involved in the school exclusion process and whether they have the power to affect outcomes for their children.

Jami Abramson and **Amira Assami** from *Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales (EYST)* will speak about their Right to Education Project, an all-Wales specialist educational, advocacy and support service targeted at ethnic minority young people.

Emma Gooding from *Samaritans Cymru* will talk about their work on school exclusion, which examines how exclusion from school increase factors which can lead to suicide risk.

Ceri Reed from *Parents in Wales* will talk about her work providing neurodiversity training and support and being a leader for Parent and carer coproduction with statutory services across Wales.

The discussant will be **Sian Jones**, Head of Supporting Achievement and Safeguarding at the *Welsh Government*.



@JemmaBridgeman | @ExcludedLives | @eystwales | @SamaritansCymru | @Em_Gooding | @Pcamhs

Rhaglen Liniaru Cyfalaf Cymdeithasol a Thlodi Cenedlaethol yn Nigeria.

Er ei bod yn cael ei hystyried yn 'Gawr Affrica', mae Nigeria, un o economiau mwyaf Affrica, yn dal i gael trafferth gyda thlodi cyffredin yn y wlad - er gwaethaf ei hadnoddau naturiol toreithiog. Mae'r astudiaeth hon yn symud oddi wrth ddadansoddiadau economaidd traddodiadol o dlodi yn Nigeria ac yn dadlau nad yw tlodi yn parhau oherwydd diffyg adnoddau ariannol yn y wlad. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio rôl bosibl cyfalaf cymdeithasol ar gyfer liniaru tlodi yng nghyd-destun Nigeria. Mae cyfalaf cymdeithasol yn cyfuno nifer o brosesau cymdeithasegol critigol fel normau cymdeithasol, sancsiynau, sefydliad, cydlyniant cymdeithasol, ymddiriedaeth a gwaith ar y cyd.

At hynny, yn dilyn y dadleuon damcaniaethol amrywiol ynghylch cyfalaf cymdeithasol a tlodi, defnyddiodd yr astudiaeth y damcaniaethau swyddogaethol strwythurol a llesolaidd. Roedd y fenter theorïau hon yn tynnu sylw at y syniad o dlodi fel problem gymdeithasol ac yn tanlinellu rôl strwythurau cymdeithasol wrth liniaru tlodi; a'r angen i gael system les effeithlon ac effeithiol i fynd i'r afael â'r tlodi cyffredin yn y wlad – gan ddeall hefyd y prosesau a ystyriwyd wrth lansio rhaglenni lliniaru. Trwy ddulliau ansoddol megis cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws; hwylusodd samplu pwrrpasol y dewis o gyfranogwyr gwybodus, gan gynnwys uwch swyddogion a swyddogion lefel ganol mewn gweinyddiaethau perthnasol y llywodraeth, cyrff anllywodraethol, ac arbenigwyr pwnc (gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr/rhai nad ydynt yn fuddiolwyr rhaglenni lliniaru tlodi). Ymchwiliodd yr astudiaeth, drwy baradeim deongliadol, i brofiadau a chanfyddiadau yng nghyd-destun lluniadaeth gymdeithasol. Drwy fabwysiadu'r paradeim hwn, ymchwiliodd yr astudiaeth i brofiadau cynnil y rhai mewn tlodi ac asesu dylanwad cyfalaf cymdeithasol ar eu statws economaidd.

Abasiokpon Udoakah, Prifysgol De Cymru**Social capital and National Poverty Alleviation Programme in Nigeria**

Despite being regarded as the 'Giant of Africa', Nigeria, one of Africa largest economies, continues to struggle with the prevalent poverty in the country- despite its abundant natural resources. This study moves away from traditional economic analyses of poverty in Nigeria and contends that poverty, persists not due to a lack of financial resources in the country. This study explores the potential role of social capital on poverty alleviation within the Nigerian context. Social capital combines several critical socio-logical processes like social norms, sanctions, institution, social cohesion, trust, and collective work.

Furthermore, following the various theoretical debates around social capital and poverty, the study employed the structural functionalism and welfarist theories. These theories initiative highlighted the notion of poverty as a social problem and underscored the role of social structures in poverty alleviation; and the need to have an efficient and effective welfare system in other to address the prevalent poverty in the country- whilst also understanding the processes that were considered when launching alleviation programmes. Through qualitative methods like in-depth interviews and focus groups; purposeful sampling facilitated the selection of knowledgeable participants, including senior and middle-level officers in relevant government ministries, NGOs, and subject matter experts (involving key stakeholders and beneficiaries/non-beneficiaries of poverty alleviation programmes). The study through an interpretive paradigm investigated the experiences and perceptions within the context of social constructivism. By adopting this paradigm, the study investigated the nuanced experiences of those in poverty and assesses the influence of social capital on their economic status.

Abasiokpon Udoakah, University of South Wales

Damcaniaethau cynllwyn a rôl diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth ddemocrat- aidd

Gall damcaniaethau cynllwyn gael dylanwad sy'n peri pryder ar wleidyddiaeth - fel y dangoswyd gan achosion diweddar fel *mudiad Reichsbürger* yn yr Almaen, honiadau fod rhwydwaith anawdurdodedig o fewn y llywodraeth yn rheoli gwleidyddiaeth Prydain, a honiadau di-sail o dwyll etholiadol ym Mrasil a'r Unol Daleithiau. Yn aml, mae damcaniaethau cynllwyn wedi'u hystyried fel y Gwrthwyneb i wleidyddiaeth ddemocrataidd ryddfrydol ac fel rhywbeth sy'n deillio o broblemau seicolegol fel paranoia. Er ei bod yn hawdd diystyru damcaniaethau cynllwyn fel rhai ffug neu gwbl afresymol, bydd y poster hwn yn dadlau ei bod yn well edrych arnynt yng nghyd-destun diffyg ymddiriedaeth wleidyddol.

Rwy'n cyfuno safbwytiau damcaniaethwyr gwleidyddol ar ymddiriedaeth ac arbenigedd gyda gwybodaeth o astudiaethau diwylliannol ar yr anghydraddoldebau a'r amodau cymdeithasol sy'n aml yn cael eu hadlewyrchu mewn damcaniaethau cynllwyn. Gan gyfeirio at yr adnoddau damcaniaethol hyn yn ogystal â data eilaidd ar gynllwynio, byddaf yn dadlau bod damcaniaethau cynllwyn yn fygythiad yn y cefndir a hwylusir gan strwythur gwleidyddiaeth ddemocrataidd, yn hytrach na bod ar wahân iddo.

Byddaf yn dadlau bod damcaniaethau cynllwyn yn amlygu ffurf o'r hyn y mae Pierre Rosanvallon yn ei alw'n 'wrth-ddemocratiaeth' - yr ymdrech i gynnal democratiaeth y tu allan i etholiadau drwy hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, yn ogystal â diffyg ymddiriedaeth yn y rhai sydd mewn grym. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae coleddu'r gwerthoedd hyn yn cael effaith wrthgynhyrchiol drwy danseilio democratiaeth. Yn y modd hwn, bydd y poster hwn yn dangos yr angen i edrych ar y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol lle mae damcaniaethau cynllwyn yn dod yn fwy amlwg, yn hytrach nag ystyried seicoleg unigolion yn unig.

Adam Koper, Prifysgol Caerdydd.

Conspiracy theories and the role of distrust in democratic politics

Conspiracy theories can have a worrying influence on politics – as shown by recent cases such as the *Reichsbürger* movement in Germany, claims that a deep state controls British politics, and unfounded allegations of election fraud in Brazil and the United States. Often, conspiracy theories have been viewed as the Other to liberal democratic politics and seen as stemming from individual psychological problems such as paranoia. While it is easy to dismiss conspiracy theories as false or plainly irrational, this poster will argue that it is better to view them through the lens of political distrust.

I combine political theorists' perspectives on trust and expertise with insights from cultural studies on the social inequalities and conditions that are often reflected in conspiracy theories. Drawing on these theoretical resources as well as secondary data on conspiracism, I will argue that conspiracy theories are a latent threat facilitated by the structure of democratic politics, rather than being separate from it.

I will argue that conspiracy theories exhibit a form of what Pierre Rosanvallon calls 'counter-democracy' – the effort to maintain democracy outside of elections by promoting transparency and accountability, as well as the distrust of those in power. However, in this case the pursuit of these values has the counterproductive effect of undermining democracy. In this way, this poster will show the need to look at the social and political context in which conspiracy theories gain traction, rather than only considering the psychology of individual believers.

Adam Koper, Cardiff University



Mae ‘Llais a Rheolaeth’ yn un o egwyddorion craidd darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Ond mae angen newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau ar sail system sy'n cael ei harwain gan y teulu. Ar hyn o bryd, pan fydd plentyn mewn perygl o niwed, mae'r Gwasanaethau Plant o fewn awdurdod lleol fel arfer yn cynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant (CPC) gychwynnol. Yn y CPC hwn, mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner yn rhannu eu pryderon gyda'i gilydd a'r rhieni, ac yn datblygu cynllun i gadw'r plentyn yn ddiogel. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhieni / gofalwyr a phlant yn teimlo bod y CPC yn cywilyddio ac yn waharddol (1), ac nad yw bob amser yn caniatáu i deuluoedd ddweud beth fyddai'n ddefnyddiol iddynt.

Mae'r llwybr Cynhadledd Grŵp Teulu (FGC) yn ddull amgen o wneud penderfyniadau, sy'n canolbwytio ar y teulu, a allai newid y ffordd y mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i gadw plant yn ddiogel a lleihau'r angen i blant fynd i ofal. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ymchwil ar effaith FGCs ar deuluoedd yn gymysg.

Mae ein hastudiaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlc hwn drwy werthuso cynllun peilot FGC fel dewis arall yn lle'r CPC cychwynnol mewn 3 awdurdod lleol yn Lloegr. Nod yr astudiaeth yw nodi a deall gall-uogwyr a rhwystrau i weithredu a datblygu pecyn gweithredu manwl ar gyfer unrhyw awdurdod lleol i roi'r llwybr ar waith. Gan ddefnyddio dull realistig o werthuso, rydym yn adeiladu damcaniaeth rhaglen sy'n mynd i'r afael â chwestiynau fel pryd, sut ac i bwy mae llwybr SFGC yn gweithio orau.

Alankrita Singh, Prifysgol Caerdydd

‘Voice and Control’ is a core principle of social service delivery in Wales in The Social Services and Wellbeing Act (2014).

But a system-based family-led decision making and planning needs a change in the way local authorities work and make decisions. Currently, when a child is at risk of harm, the Children's Services within a local authority usually hold an initial Child Protection Conference (CPC). In this CPC, social workers and professionals from partner agencies share their concerns with each other and the parents and develop a plan to keep the child safe. However, evidence suggests parents/carers and children find the CPC both shaming and exclusionary (1), and it does not always allow families to say what would be helpful for them.

The Family Group Conference (FGC) pathway is an alternative, family-centred approach to decision making that could change the way that families and professionals work together to keep children safe and reduce the need for children to enter care. However, research evidence for impact of FGCs on families is mixed.

Our study seeks to address this gap by evaluating a pilot of FGC as an alternative to the initial CPC in 3 English local authorities. The study aims to identify and understand enablers and barriers to implementation and develop a detailed implementation package for any local authority to implement the pathway. Using a realist approach to evaluation, we are building a program theory that addresses questions like when, how and for whom does the SFGC pathway work best.

Alankrita Singh, Cardiff University

Cynnwys menywod ar fyrddau llywodraethu sefydliadau nid-er-elw

Mae'r erthygl yn pwysleisio'r broblem o ddiffyg cyfranogiad menywod mewn swyddi strategol mewn cymghorau a swyddi arweinyddiaeth. Gyda ffocws ar fudd economaidd a chymdeithasol, mae hyn yn fater sy'n bwysig i bob sefydliad. Drwy'r adolygiad o lenyddiaeth, bu'n bosibl nodi'r ffyrdd a'r dulliau o hyrwyddo cyfranogiad menywod mewn swyddi llywodraethu sefydliadau. Felly, mae hyn yn dangos y gall sefydliadau gyfrannu at y broses o greu strwythur llywodraethu mewn modelau cynhwysiant fel mesur o gyfranogi mwy o werth ychwanegol yn fewnol, yn ogystal â chyfranogi'n effeithiol i'r trawsnewidiad cymdeithasol angenrheidiol. Defnyddiwyd adolygiad o lenyddiaeth drwy archwilio ymchwil flaenorol a oedd wedi'i chyhoeddi mewn llyfrau, erthyglau academaidd a ffynonellau perthnasol eraill. Fe wnaethom ddewis thema 2 8, "gwaith, bywoliaeth a chyflawni nod 5 amcanion datblygiad cynaliadwy'r Cenhadloedd Unedig.

Ana Carolina Barros Pinheiro Carrenho, Prifysgol Lisbon

Women's inclusion in the governance board of non-profit organizations

The article argues about the problem of women's low participation in strategic councils and leadership positions. With the focus on economic and social benefit, this is an issue that matters to all organizations. Through the literature review, it was possible to identify the ways and means to promote the inclusion of women in reference positions in the governance of institutions. This therefore indicates that organizations can contribute to the process of building a governance structure in inclusion models as a measure of bringing greater added value internally as well as effectively contributing to the necessary social transformation. Literature review was used by examining previous research published in books, academic articles and other relevant source. We chose theme 2 8, "work, liveability and social justice" in order to bring up the theme of women's inclusion and the fulfilment of goal 5 of the UN's sustainable development objectives.

Ana Carolina Barros Pinheiro Carrenho, Lisbon University



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r gwaith ymchwil yn canolbwntio ar y cysniad o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy annog adfywio meddyliau a dileu stereoteipiau. Mae'r ffocws ar hyrwyddo arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant da mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion a gweithleoedd. I greu amgylchedd lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn perthyn.

Methodoleg Mae'r gwaith ymchwil hwn yn defnyddio dull adolygu llenyddiaeth i gasglu gwybodaeth am hyrwyddo cynhwysiant, amrywiaeth a chynhwysiant.

Bintou Jobe, Prifysgol de Cymru

Equality, Diversity and Inclusion

The research is focused on the concept of equality, diversity and inclusion by encouraging the regeneration of minds and the eradication of stereotypes. The focus is on promoting good Equality, Diversity and Inclusion practice in various settings including schools, colleges, universities and workplaces. To create environment where every individual feels a sense of belonging.

Methodology This research utilises a literature review approach to gather information on promoting inclusivity, diversity and inclusion.

Bintou Jobe, University of South Wales.



Addysg ac iechyd: Llwybrau dylanwadu

Mae addysg dda yn floc adeiladu ar gyfer iechyd a lles a gall gynyddu ein siawns o fyw bywyd hir ac iach. Yn ei dro, gall ein hiechyd a'n lles effeithio ar ein gallu i ddysgu. Mae addysg yn dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles drwy nifer o llwybrau cydgysylltiedig. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth ac amodau gwaith, llythrennedd iechyd ac ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau iechyd, a'n hymdeimlad o reolaeth a lefel ein cymorth cymdeithasol. Heb y cyfle i gael addysg dda, gall anghydraddoldebau iechyd gynyddu drwy gylchoedd anghydraddoldeb sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae gan iechyd Cyhoeddus Cymru lawer o ragleni sy'n ceisio gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc, sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu. Mae ein gwaith yn yr Uned Penderfynyddion Ehangach iechyd yn canolbwytio ar addysg fel ffordd o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau mewn cymdeithas.

I gael cipolwg ar y ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol, gwnaethom ddatblygu map systemau cyfranogol (PSM)¹ o ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru hyd at 16 oed. Fe'i datblygwyd ar y cyd â 30 a mwy o bartneriaid ac arbenigwyr pwnc ym maes iechyd ac addysg. Mae PSM yn ddull sy'n darparu darlun ar ffurf diagram syml o realiti sy'n dangos canfyddiadau rhanddeiliaid o ffactorau a'r berthynas rhwng ffactorau yn y system. Gall y dull helpu i egluro ansicrwydd, dangos gwendidau mewn system, nodi pwyntiau dylanwad a helpu partneriaid i weld eu rôl yn y system.

Mae'r map yn dangos nifer o ffactorau cydgysylltiedig, llawer y tu hwnt i leoliad yr ysgol sy'n effeithio ar ganlyniadau addysgol.

¹ Barbrook and Johnson (2020)

Cathrine Winding, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Education and health: Pathways of influence

Good education is a building block for health and well-being and can increase our chances of living a long and healthy life. In turn, our health and well-being can affect our ability to learn. Education influences our health and well-being through multiple interconnected pathways. These pathways include employment opportunities and working conditions, health literacy and health-related behaviours, including using health services, and our sense of control and level of social support. Without the opportunity for a good education, health inequalities can increase through intergenerational cycles of inequality.

Public Health Wales has many programmes that look to improve the health and well-being of children and young people, which affects their ability to learn. Our work in the Wider Determinants of Health Unit focuses on education as a route to better health and reducing inequalities in society.

To gain insights into the factors affecting educational achievement, we developed a participatory systems map (PSM)¹ of factors affecting educational achievement in Wales up until the age of 16. It was developed in collaboration with 30+ partners and subject experts from health and education. PSM is a method which provides a simplified diagrammatic representation of reality which illustrates stakeholders' perceptions of factors and the relationships between factors in the system. The method can assist in clarifying uncertainties, showing vulnerabilities in a system, identifying points of leverage and helping partners see their role in the system.

The map shows multiple interconnected factors, many beyond the school setting which affect educational outcomes.

¹ Barbrook and Johnson (2020)

Cathrine Winding, Public Health Wales



Pwysigrwydd treftadaeth i ddeall arwyddocâd mannau cyhoeddus yng Nghymru

Pwrpas: Defnyddio dull astudiaeth achos ethnograffig i edrych ar arwyddocâd Parc Cathays, sef canolfan ddinesig Caerdydd, fel enghraifft o fan cyhoeddus o werth treftadaeth yng Nghymru. Y nod yw taflu gol-euni ar y problemau sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth am dreftadaeth mewn mannau cyhoeddus: daearyddiaeth anghydraddoldeb a chyflawnder cymdeithasol mewn mannau 'cyhoeddus' tybiedig. Gallai deall y materion hyn gyfrannu at ffyrdd cynaliadwy o reoli mannau cyhoeddus (treftadaeth), gan ystyried profiad-au pobl heddiw.

Dulliau:

Dulliau archifol a ffotograffiaeth/llyfr lloffion - i ymgysylltu'n feirniadol â hanes Parc Cathays a sut mae'n cael ei ddefnyddio/cynrychioli heddiw.

Cyfweliadau a 'sgyrsiau ethnograffig' byrrach – i gofnodi amrywiaeth o safbwytiau a lefelau ymgysylltu â'r safle.

Sylwadaeth gan gyfranogwyr ar ddigwyddiadau ym Mharc Cathays, ee gwasanaethau Coffa Cenedlaethol, digwyddiadau cyhoeddus yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru - i ddeall sut mae'r gofod yn cael ei ddefnyddio a beth mae hyn yn ei ddweud am brofiadau o'r gofod hwn.

Awtoethnograffeg - myfyrio ar fy statws fy hun fel siaradwr Cymraeg / gweithiwr proffesiynol treftadaeth a sut mae hyn yn berthnasol i fy ngallu i lywio/deall Parc Cathays.

Dyddiaduron Cyfranogwyr - i gofnodi ymgysylltiad cyffredin â Pharc Cathays (hy nid 'digwyddiadau arbennig' fel sy'n cael eu harsylwi gan gyfranogwyr)- i ddeall sut mae'r parc yn cael ei ddefnyddio a'i brofi bob dydd.

Canlyniadau:

Mae anghydraddoldeb a chyflawnder cymdeithasol (cysylltiadau pŵer) yn themâu amlwg sy'n codi, gan gynnwys o ran mynediad at wybodaeth a gofod, yn ogystal ag emosiwn (er enghraifft, teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli neu eu heithrio).

Catrin Edward-Greaves, Prifysgol Caerdydd

The significance of heritage in making meaning around public space in Wales

Purpose: To use an ethnographic case study approach to explore meanings attached to Cathays Park, Cardiff's civic centre, as an example of a public space of heritage value in Wales. The aim is to shed light on issues attached to heritage discourse in public space: geographies of inequality and social justice in supposedly 'public' spaces. Understanding these issues could potentially contribute to sustainable ways of managing public (heritage) spaces, considering the experiences of people today.

Methods:

Archival methods and photography/ scrapbooking- to critically engage with the history of Cathays Park and how it is used/ represented today.

Interviews and shorter 'ethnographic conversations'- to capture a range of perspectives and levels of engagement with the site.

Participant observation of events at Cathays Park, e.g. National Remembrance services, public events at the national museum of Wales- to gain understanding of how the space is used and what this reveals about experiences of this space.

Autoethnography- reflecting on my own status as a Welsh speaker/ heritage professional and how this relates to my ability to navigate/understand Cathays Park.

Participant Diaries- to capture mundane engagement with Cathays Park (i.e. not 'special events' as with the participant observation)- to gain understanding of how the park is used and experienced on an everyday basis.

Results:

Inequality and social justice (power relations) are prominent emerging themes, including in terms of access to knowledge and space, as well as emotion (for example, feeling represented or excluded).

Gwella Cynwysoldeb mewn Ymchwil: Sefydlu Grŵp Cynghori Ymchwil Lleiafrifoedd Ethnig (EMRAG)

Cefndir: Mae galw cynyddol am gynwysoldeb diwylliannol mewn ymchwil yn y DU sy'n amlygu'r angen am sensitifrywyd tuag at y boblogaeth aml-ethnig amrywiol. Mae mentrau fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a deddfwriaeth berthnasol yn pwysleisio pwysigrwyd ymchwil gynhwysol. Er gwaethaf heriau, mae llwyddiant mewn prosiectau fel yr astudiaeth sgrinio canser yng Ngorllewin Casnewydd yn dangos dichonolrwyd ymchwil gynhwysol. Mae'r pandemig Covid-19 a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi cynyddu'r galw ar ymchwilwyr i bontio'r gagendor cynwysoldeb diwylliannol ac i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau ethnig leiafrifol.

Dull: Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol De Cymru'n defnyddio strategaethau arloesol i wella cynwysoldeb ymchwil. Drwy feithrin cydweithredu parhaus â chymunedau ethnig leiafrifol a mudiadau trydydd sector, maent yn asesu rhwystrau a hwyluswyr cyfranogiad mewn ymchwil gan leiafrifoedd ethnig yn barhaus.

Model: Mae'r Grŵp Cynghori Ymchwil Lleiafrifoedd Ethnig (EMRAG) yn annog cydweithredu parhaol rhwng ymchwilwyr Prifysgol De Cymru a chynrychiolwyr cymunedol amrywiol. Mae'r Grŵp Cynghori'n hybu cydraddoldeb amrywiaeth, a chynwysoldeb mewn ymchwil, ac yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng sectorau.

Cyfansoddiad: Mae'r Grŵp Cynghori'n cynnwys unigolion o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys staff Prifysgol De Cymru, arbenigwyr mewn amrywiaeth o feysydd, a sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau ethnig leiafrifoedd. Mae'r aelodaeth wedi'i seilio ar ddiddordeb cyffredin mewn hyrwyddo ymchwil gynhwysol, yn hytrach na nodweddion gwarchodedig penodol.

Effaith: Mae'r Grŵp Cynghori'n trawsnewid cysylltiadau Prifysgol De Cymru â chymunedau lleiafrifol, gan feithrin ymddiriedaeth a phartneriaeth i sicrhau cynwysoldeb diwylliannol mewn ymchwil.

Canlyniadau: Mae'r Grŵp Cynghori'n rhoi sylw i anghenion cymunedol ar lefelau sefydliadol, gweithdrefnol, a llawr gwlad. Mae'n cydweithio â chymunedau i gytuno ar flaenoriaethau ymchwil ac i alinio prosiectau â gofynion lleol i gael effaith sydd o fudd i'r cymunedau.

Edward Ololdi, Prifysgol De Cymru.

Enhancing Inclusivity in Research: Establishment of the Ethnic Minority Research Advisory Group (EMRAG)

Background: Growing demands for cultural inclusiveness in UK research underscore the need for sensitivity towards the diverse multi-ethnic population. Initiatives like the Anti-racist Wales Action Plan and relevant legislation highlight the importance of inclusive research. Despite challenges, successes in projects like a cancer screening study in Newport West demonstrate the feasibility of inclusive research. The Covid-19 pandemic and the Black Lives Matter movement have intensified the call for researchers to bridge cultural inclusion gaps and engage ethnic minority communities effectively.

Approach (Methods): Researchers at the University of South Wales (USW) are implementing innovative strategies to enhance research inclusivity. By fostering ongoing collaboration with ethnic minority communities and third-sector organizations, they continuously assess barriers and facilitators to ethnic minority research participation.

Model: The Ethnic Minority Research Advisory Group (EMRAG) fosters enduring collaboration between USW researchers and diverse community representatives. EMRAG promotes equality, diversity, and inclusion in research, facilitating knowledge exchange across sectors.

Composition: EMRAG comprises individuals from diverse backgrounds, including USW staff, experts in various fields, and organizations supporting ethnic minority communities. Membership is based on a shared interest in promoting inclusive research, not specific protected characteristics.

Impact: EMRAG is transforming USW's engagement with minoritized communities, building trust and partnerships to ensure cultural inclusivity in research.

Edutcomes: EMRAG addresses community needs at organizational, operational, and grassroots levels. It works collaboratively with communities to identify research priorities and align projects with local requirements to achieve community-focused impacts.



Edward Ololdi, University of South Wales.

@unisouthwales

Busnes Cymunedol Cymreig – Ymagwedd Ffenomenograffig

Elin Hywel, *Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

Welsh Community Business – A Phenomenographic Approach

Elin Hywel, *Cardiff Metropolitan University*



Archwilio posibiliadau tocynnau ffisegol heb fod yn arian parod ('BillyChips') fel ymyriad iechyd cyhoeddus.

Bydd y poster/darn arddangos hwn yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o brosiect ymchwil archwiliadol i iechyd y cyhoedd yn edrych ar fenter gymunedol sy'n ceisio helpu i liniaru'r niwed sy'n gysylltiedig â thlodi a digartrefedd. Mae'r astudiaeth yn canolbwytio ar ddeall y defnydd o docynnau ffisegol nad ydynt yn arian parod o'r enw 'BillyChips', y gellir eu cyfnewid am fwyd a diod, ac yn archwilio ffyrdd amgen o roi, rhannu a chefnogi pobl mewn tlodi (yn enwedig tlodi bwyd). Mae hyn yn cynnwys cymorth cymunedol i gael gafael ar fwyd, diod a hanfodion eraill am ddim neu am bris isel. Gan ddefnyddio dulliau cymysg, mae'r ymchwil yn cynnwys arolwg o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu gymorth i'r grŵp poblogaeth. Cefnogir hyn gan gyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gydag oedolion sy'n profi tlodi/digartrefedd, ac ymarferwyr, i ddeall rôl BillyChip a mentrau cysylltiedig wrth liniaru tlodi bwyd. Mae'r themâu cychwynnol yn amlinellu manteision posibl BillyChip fel ymyriad iechyd cyhoeddus, yn ogystal ag argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio ei ddatblygiad, a sail prosiect ymchwil mwy manwl.

Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe.

Exploring the potential of non-cash physical tokens ('BillyChips') as a public health intervention

This poster/exhibition piece will share initial learning from an exploratory public health research project which examines a community initiative aiming to help alleviate the harms associated with poverty and homelessness. The study centres on understanding the use of non-cash physical tokens called 'BillyChips', which can be exchanged for food and drink, and explores alternative ways of giving, sharing, and supporting people in poverty (particularly food poverty). This includes community support in accessing free or low-cost food, drink and other essentials. Using a mixed methods approach, the research includes a survey of professionals involved in providing services or support to the population group. This is supported by semi-structured interviews and focus groups with both adults experiencing poverty/homelessness, and practitioners, to understand the role of BillyChip and related initiatives in alleviating food poverty. Initial themes outline the potential benefits of BillyChip as a public health intervention, as well as evidenced-based recommendations to inform its development, and the basis of a more in-depth research project.

Ella Rabaiotti, Swansea University



Trechu Eithafiaeth Ar-lein: Ehangu Gwrth-leferydd drwy Algorithmau

Yn hanesyddol, mae terfysgwyr ac eithafwyr treisgar wedi rhannu cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol y gellir ei ehangu yn algorithmig mewn rhai cyd-destunau. Gall hyn greu swigod hidlydd radical sy'n gallu cyfrannu at radicaleiddio. Felly, awgrymir y dylid defnyddio algorithmau i wrthsefyll strategaethau eithafiaeth dreisgar. Er enghraifft, ehangu gwrth-leferydd, sy'n cael ei ddefnyddio yn Null Ailgyfeirio Moonshot. Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil ar ba mor effeithiol yw gwrth-leferydd a'r defnydd hwn o algorithmau gan fod mesur yr effaith hirdymor yn heriol, a dim ond ychydig o ymgyrchoedd sy'n defnyddio algorithmau i ehangu gwrth-leferydd. Yn ychwanegol, mae ailgyfeirio defnyddwyr o'r hyn maen nhw'n bwriadu chwilio amdano tuag at wrth-leferydd a allai herio eu credoau yn golygu wynebu heriau moesegol, gan gynnwys ymyrryd ag ymreolaeth bersonol ac atgyfnerthu credoau radical. Er gwaethaf hyn, cyfyngedig yw'r ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r egwyddorion moesegol sy'n sail i wrth-leferydd. Ar y cyd â Moonshot, nod yr ymchwil PhD hwn yw mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Drwy ddyluniad empirig sydd â methodoleg gymysg, gan gynnwys; adolygiad systematig o lenyddiaeth, cyfweliadau lled-strwythuredig, dadansoddi astudiaethau achos a methodoleg arbrofol, nod yr ymchwil hwn yw deall yn well pa mor effeithiol yw gwrth-leferydd wrth ddarbwyollo unigolion rhag naratifau eithafol, nodi heriau gwerthuso gwrth-leferydd, a phennu effeithiolorwydd a chyfyngiadau algorithmau ar gyfer ehangu gwrth-leferydd i dargedu cynulleidfaeodd. Yn ogystal â hyn, nod yr ymchwil hwn yw adeiladu model damcaniaethol o'r hyn y mae egwyddorion moesegol yn ei wneud, a dylai fod yn sail i ehangu gwrth-leferydd. Mae'r ymchwil hwn yn bwysig i lywio llunwyr polisiau, ymarferwyr a chwmniau technoleg ar sut i gyfrannu'n foesegol ac yn effeithiol at ymdrechion gwrthsefyll eithafiaeth dreisgar ar-lein ac i liniaru effeithiau negyddol posibl. Mae hyn yn arbenig o amserol o ystyried yr ymdrechion rheoleiddio diweddar, gan gynnwys y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

Ellie Rogers, Prifysgol Abertawe

Combatting Online Extremism: The Algorithmic Amplification of Counter-Speech

Terrorists and violent extremists have historically shared content on social media which can be algorithmically amplified in certain contexts. This may create radical filter bubbles which can contribute to radicalisation. Therefore, it is suggested that algorithms should be utilised for countering violent extremism (CVE) strategies. For example, amplifying counter-speech, which is utilised in Moonshot's Redirect Method. However, there is limited research on the effectiveness of counter-speech, and this use of algorithms due to challenges in measuring long-term impact, and few campaigns using algorithms to amplify counter-speech. Moreover, redirecting users from their intended search, towards counter-speech that may challenge their beliefs faces ethical challenges including interfering with personal autonomy and reinforcing radical beliefs. Despite this, limited research addresses the ethical principles underpinning counter-speech. In collaboration with Moonshot, this PhD research aims to address these gaps. Through a mixed-methodology empirical design including; a systematic literature review, semi-structured interviews, case study analysis and an experimental methodology, this research aims to better understand the effectiveness of counter-speech at dissuading individuals from extreme narratives, identify counter-speech evaluation challenges, and determine the effectiveness and limitations of algorithms at amplifying counter-speech to target audiences. Additionally, this research aims to build a theoretical model of what ethical principles do and should underpin the amplification of counter-speech. This research is important to inform policymakers, practitioners, and tech companies on how to contribute ethically and effectively towards online CVE efforts and to mitigate potential negative impacts. This is particularly timely given recent regulatory efforts including the Online Safety Act.

Ellie Rogers, Swansea University



Golwg ôl-weithredol ar andragogeg cynhwysol ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch Blwyddyn Sylfaen

Mae poster gweledol yn cyflwyno myfyrdodau gan oedolion sy'n ddysgwyr a'u tiwtor, ar asesiad o wneud poster mewn grŵp. Mae myfyrwyr yn egluro profiadau dysgu cynnar mewn Addysg Uwch dros gyfnod o chwe wythnos, gan feddwl am lesiant a sut y gall gwaith grŵp annog ymdeimlad o berthyn, cefnogaeth gan gyfoedion a chyfranogiad mewn cymuned ddysgu amrywiol. Gall pryder cymdeithasol, awtistiaeth ac anabledd corfforol fod yn rhwystrau posibl i weithgaredd fel hwn, fodd bynnag, edrychwyd ar ffyrrd o fod yn ymatebol a hyblyg mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae Emma Wheeler yn defnyddio trosiad o 'arddwr y goedwig' i gyfleo ystyr wrth iddi ystyried ei rôl, gan greu gofod aml-haenog lle gall myfyrwyr Blwyddyn Sylfaen AU ffynnu. Mae gwybod pa mor dda, er enghraifft, y gall pob planhigyn oddef cysgod, yn cyfleo'r cysyniad ecolegol o 'niche'. Mae'r ddihareb Tsieineaid "y gwrtraith gorau yw cysgod y garddwr" yn ein hatgoffa i sylwi wrth grwydro drwy'r ardd yn rheolaidd ac ymateb i'r anghenion wrth iddynt godi.

Mae dull myfyriol o addysgu, yn darparu proses gyfochrog o fewn gweithgaredd ysgolheigaidd ac ymchwil ddoethurol y tiwtor. Mae ei harbenigedd mewn seicotherapyn a'i diddordeb mewn defnyddio straeon, yn creu dull creadigol o ymdrin ag ymchwil addysgol gan roi lle canolog yn y gwaith i ehangu cyfranogiad.

Emma Wheeler, Prifysgol De Cymru

A retrospective window into an inclusive andragogy for Foundation Year Higher Education students

A visual poster presents reflections by adult learners and their tutor, on a group poster making assessment. Students articulate early Higher Education learning experiences over a six-week duration, thinking about well-being and how group work can encourage a sense of belonging, peer support and participation within a diverse learning community. Social anxiety, autism and physical disability can be potential barriers to such an activity, however, ways to be flexibly responsive in classrooms have been explored.

Emma Wheeler uses a metaphor of the 'forest gardener' to draw meaning as she considers her role, creating a multi-layered space where HE Foundation Year students can flourish. Getting to know how well for example, each plant can tolerate shade, conceptualises an 'ecological niche'. The Chinese proverb "the best manure is the gardener's shadow" reminds to pay attention by wandering through the garden regularly tending to needs as they arise.

A reflexive approach to teaching, provides a parallel process within the tutor's scholarly activity and doctoral research. Her specialism in art psychotherapy and interest in utilising stories, makes for a creative approach to educational research where widening participation is at the heart.

Emma Wheeler, University of South Wales

Ymchwiliad aml-ddull i agweddau gweithwyr tuag at Ddiwydiant 4.0 o fewn y Diwydiant Cig yn Sbaen

Mae Diwydiant 4.0, neu'r Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol, yn cysyniadu'r broses o ymgorffori technolegau digidol o fewn cyd-destunau gweithgynhyrchu. Caiff ei nodweddu gan gyfuniad o dechnolegau a'u rhngweithiadau ar draws y parthau ffisegol, digidol a biolegol. O'i gymharu â chwyldroadau'r gorffennol, gallai gael mwy o effaith ar fyd gwaith. Serch hynny, beth yw posibiliadau technolegau Diwydiant 4.0? Sut mae gweithredu technolegau Diwydiant 4.0 yn effeithio ar gyflogaeth? Sut mae gweithwyr yn ymateb i'r newidiadau (os oes yna rai)? Mae'r ymchwil yn mynd i'r afael â Diwydiant 4.0, gweithredu'r technolegau yn Niwydiant Cig Sbaen, ac agweddau gweithwyr tuag at fabwysiadu technoleg, newidiadau sy'n cael eu llywio gan dechnoleg, a dyfodol gwaith. Gwnaethpwyd hyn drwy gasglu a dadansoddi cyfweliadau â swyddogion undebau llafur ar lefel genedlaethol (CCOO ac UGT) ac ar lefel ryngwladol (IndustriALL ac EFFAT), yn ogystal â chyweliadau gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur (CCOO ac UGT) a data arolygon gan weithwyr mewn pum gweithle gyda lefelau gwahanol o weithredu technoleg. Mae'n archwilio dylanwad cyd-destun Sbaen, sgiliau a galwedigaeth gweithwyr, a rôl undebau llafur ac ymwybyddiaeth o ddosbarth cymdeithasol wrth siapio'r agweddau hynny. Mae'r drafodaeth wedi'i seilio ar fframwaith Marcsaidd, sy'n amlyu'r gwrthdar o cynhenid rhwng cyfalaf a llafur pan ddaw'n fater o roi technoleg ar waith o fewn cyfalafiaeth.

Francisco Pando Junco, Prifysgol Caerdydd

A mixed-methods investigation into the workers' attitudes to Industry 4.0 in Spain's Meat Industry

Industry 4.0, or the Fourth Industrial Revolution, conceptualises the incorporation of digital technologies within manufacturing contexts. It is characterised by the fusion of technologies and their interactions across the physical, digital, and biological domains. Compared to past revolutions, it might have a greater impact on the world of work. However, what are the possibilities of Industry 4.0 technologies? How does the implementation of Industry 4.0 technologies affect employment? How are workers reacting to the changes (if there are any)? The research addresses Industry 4.0, the implementation of technologies in Spain's Meat Industry, and workers' attitudes toward technology adoption, technology-driven changes, and the future of work. This was done by collecting and analysing interviews of trade union officials at the national level (CCOO and UGT) and the international level (IndustriALL and EFFAT), as well as trade union representatives' interviews (CCOO and UGT) and survey data from workers in five workplaces with different levels of technology implementation. It examines the influence of Spain's context, of workers' skills and occupation, and the role of trade unions and class consciousness in shaping those attitudes. The discussion is grounded in a Marxist framework, which highlights the inherent conflict between capital and labour when it comes to technology implementation within capitalism.

Francisco Pando Junco, Cardiff University



Lles ac iechyd meddwl staff addysg: Archwiliad mewn partneriaeth ag ysgolion Casnewydd

Nid yw ymyriadau ar raddfa fawr i wella lles athrawon fel astudiaeth WISE (Kidger et al, 2021) wedi llwyddo i sicrhau'r manteision y gobeithiwyd amdanyst ar ôl iddynt ddechrau rhngweithio â chymhleth-dodau eu cyd-destun (Evans et al 2022). Roedd Evans et al. (2022) yn argymhell defnyddio dull cymunedol yn cynnwys rhanddeiliaid amrywiol i ddeall ffactorau lleol sy'n effeithio ar les staff ysgolion (arweinwyr, athrawon a staff cymorth) a mynd i'r afael â'u hanghenion cymorth mewn modd effeithiol. I'r perwyl hwn, cafodd cyllid ychwanegol ei ddyfarnu gan Gyngor Dinas Casnewydd i Brifysgol De Cymru a Gwasanaeth Cwnsela Mewn Ysgolion - Parth Siarad benodi ymchwilydd gradd doethuriaeth i arwain prosiect ymchwil cyfranogol. Y nod oedd llywio cynllun peilot o ymyriadau sy'n ymateb i anghenion poblogaeth staff ysgolion lleol yng Nghasnewydd. Gan weithio gyda grŵp ymchwil cyfranogol o randdeiliaid allweddol, dan gadair ydodiaeth Liz Armitti o Parth Siarad a Gwasanaethau Therapi Prifysgol De Cymru, ac yn cynnwys arweinwyr ysgolion ledled Casnewydd, Cyngor Dinas Casnewydd, Mind Casnewydd, Cynefin, CAMHS In-Reach ac arweinwyr gweithredu Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru, aethwyd ati i ddatblygu holiadur dulliau cymysg i edrych ar y gofynion, yr adnoddau a'r ffactorau cyd-destunol a allai effeithio ar holl staff yr ysgol ar adeg o newid cymhleth mewn systemau; safbwytiau staff ysgolion am y gwasanaethau a'r ymyriadau presennol sydd ar gael; a'u safbwytiau am y camau gweithredu a fyddai fwyaf buddiol i'w lles a'u hiechyd meddwl. Bydd canfyddiadau'r grŵp ymchwil cyfranogol a'r 202 o ymatebion i'r holiadur yn cael eu cyflwyno yma.

Hannah Lineham, Prifysgol De Cymru

Wellbeing and mental health of education staff: An exploration in partnership with Newport schools

Large-scale interventions to improve teacher wellbeing such as the WISE study (Kidger et al, 2021) have struggled to deliver hoped-for benefits once they began to interact with the complexities of their context (Evans et al 2022). Evans et al. (2022) recommended using a community-based approach involving diverse stakeholders to understand local factors affecting school staff wellbeing (leadership, teachers and support staff) and address their support needs effectively. To this end, the University of South Wales and Talking Zone School Based Counselling Service were awarded additional funding from Newport City Council for a PhD researcher to guide a participatory research project with the aim of informing the pilot of an intervention responding to the needs of the local school staff population in Newport. Working with a participatory research group of key stakeholders, chaired by Liz Armitti of Talking Zone and USW Therapy Services and including school leads across Newport and stakeholders from Newport City Council, Newport Mind, Cynefin, CAMHS In-Reach and PHW Whole School Approach guided the development of a mixed methods questionnaire to explore the demands, resources and contextual factors potentially affecting all school staff at a time of complex system change; school staff's perspectives of the current services and interventions available; and their perspectives on the actions which would most benefit their emotional and mental wellbeing. Findings from both the participatory research group and 202 questionnaire responses will be shared.

Hannah Lineham, University of South Wales



Deall diwylliant y brifysgol er mwyn cefnogi llesiant myfyrwyr.

Crynodeb o ymchwil PhD sy'n edrych ar ddiwylliant y brifysgol a llesiant myfyrwyr.

Isabel Lang, Prifysgol Caerdydd

Understanding university culture to support student wellbeing

Research poster on PhD research exploring university culture and student wellbeing.

Isabel Lang, Cardiff University



Busnes Cymunedol Cymreig – Ymagwedd Ffenomenograffig

Kathryn Griffiths, Cwmpas

Welsh Community Business – A Phenomenographic Approach

Kathryn Griffiths, Cwmpas



@CCLHCymru

Pam mae rhieni a darparwyr yn dewis yr ymyriadau Awtistiaeth y maent yn eu dewis

Mae'r papur hwn yn canolbwytio ar ddarparu ymyrraeth benodol ar gyfer plant ifanc Awtistig mewn ysgol brif ffrwd yng Nghymru. Mae'n edrych ar rai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau y mae rhieni a darparwyr yn eu gwneud wrth ddewis a chomisiynu ymyriadau Awtistiaeth penodol, yn enwedig y rhai sy'n ymwned ag ymyriadau ymddygiad cymhwysol (ABA).

Mae'r cwestiwn o sut mae ymyriadau ABA yn integreiddio'n effeithiol i ystafelloedd dosbarth ysgolion prif ffrwd yn gymhleth, ond yn berthnasol i gomisiynwyr gwasanaethau, gan y dylai'r dystiolaeth o ymyriadau effeithiol lywio newidiadau a wneir mewn ymyriadau yn yr ystafell ddosbarth. Dylai dystiolaeth o'r fath hefyd lywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth a newidiadau i bolisi addysg ar gyfer plant Awtistig yng Nghymru, foddy bynnag, yn aml nid yw gweithredu ymyriadau a chynllunio gwasanaethau'n ehangach yn seiliedig ar dystiolaeth.

Nid yw'r rhan fwyaf o benderfyniadau comisiynu yn seiliedig ar effeithiolrwydd a chanlyniadau ymyriadau, ond ar gost, pa mor hwylus yw eu gweithredu ac ar osgoi tribiwnlysoedd addysgol. Dangosodd yr ymchwil hwn fod sawl her yn gysylltiedig â symud ymyriadau ABA i ystafelloedd dosbarth prif ffrwd, sef costau, hyfforddiant ychwanegol a'r tensiynau a brofir gan rieni a darparwyr.

Ac eto, yr hyn sy'n obeithiol, er gwaethaf yr heriau hyn, yw bod y cynnydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth y mae plant Awtistig wedi'i wneud o ran sgiliau ymarferol a dysgu wedi annog rhaglenni i fod yn fwy effeithiol gyda niferoedd is mewn ystafelloedd dosbarth. Mae hyn nid yn unig yn galonogol i'r plant sy'n derbyn ymyriadau ABA mewn ysgolion, ond mae'n ei gwneud yn ymyrraeth gost-effeithiol fwy ymarferol a hirdymor sydd ar gael i fwy o blant mewn ysgolion yng Nghymru.

Lindsey Roberts, Prifysgol Abertawe

Why parents and providers choose the Autism interventions they do

This paper focuses on the provision of a specific intervention for young Autistic children in a mainstream school setting in Wales. It explores some of the factors that influence the decision making that parents and providers engage in when they choose and commission specific Autism interventions, especially those relating to applied behaviour-based interventions (ABA).

The question of how ABA-based interventions integrate effectively into mainstream school classrooms is complex, but relevant to commissioners of services, as the evidence of effective interventions ought to inform changes that are made in classroom interventions. Such evidence should also inform the planning of provision and changes to education policy for Autistic children in Wales, however, implementing interventions and wider planning of services is often not truly evidence based.

Most commissioning decisions are not based on the effectiveness and outcomes of interventions, but cost, ease of implementation and avoiding educational tribunals. This research highlighted that moving ABA-based interventions into mainstream classrooms was not without its challenges in terms of costs, additional training and the tensions experienced by parents and providers.

Yet what is hopeful, despite these challenges, is that from the evidence-based gains that Autistic children have made in terms of functional and learning skills have encouraged programmes to be more effective and low intensity in classroom settings. This is not only encouraging for the children receiving ABA-based interventions in schools but makes it a more practical, longer term cost-effective intervention available to more children in schools in Wales.

Lindsey Roberts, Swansea University



Yr economi tai gwyliau yng ngorllewin Cymru ers y Pandemig a'i heffaith ar y sector twristiaeth

Mae ein hastudiaeth yn ymateb i duedd gynyddol yr economi llety gwyliau mewn rhannau gwledig ac arfordirol o'r DU gan gynnwys Gorllewin Cymru, ar ôl y pandemig Covid-19. Tra'n cynnig ffynhonnell o incwm i bobl leol, mae gan dwristiaeth llety gwyliau oblygiadau ehangach i gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau (Tŷ'r Cyffredin, 2022, Colomb and Gallent, 2022). Y cwestiwn y ceisiwyd ei ateb oedd a yw economiau lleol yn elwa o'r cynnydd yn nifer y llety gwyliau, drwy fwy o ymwiadau ag atyniadau a mwy o ddefnydd o fusnesau a gwasanaethau gwledig. Yn yr astudiaeth gwmpasu hon, ryd yn ni'n archwilio'r berthynas rhwng y cynnydd mewn gosod llety gwyliau a'r economi dwristiaeth yng Ngorllewin Cymru.

Y prif amcan yw mesur maint yr economi llety gwyliau yng Ngorllewin Cymru. Cyflawnwyd hyn drwy fapio cyfran y stoc a ddefnyddiwyd fel llety gwyliau, yng Ngheredigion, Gwynedd a Sir Benfro, drwy ddefnyddio mapio GIS. Derbyniwyd y data wrth gynghorau lleol, a chrëwyd y mapiau drwy ddefnyddio ArcInfo.

Yr amcan arall yw archwilio'r cysylltiadau posib rhwng ehangu'r farchnad llety gwyliau a pherfformiad y sector twristiaeth yng Ngorllewin Cymru. Gwnaethpwyd hynny drwy gyfweld â 15 o fusnesau twristiaeth ac atyniadau yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys. Dangosodd dadansoddiad o'r cyfweliadau fod ffactorau eraill ar waith, fel yr argyfwng costau byw, sydd wedi effeithio ar fusnesau ochr yn ochr ag ar-gaeledd llety gwyliau a'r defnydd ohonynt. Byddai canfyddiadau ein hastudiaeth yn arbennig o ddefnyddiol i lywio polisi rheoleiddio llety gwyliau.

Maria Plotnikova, Prifysgol Aberystwth

Post-Pandemic holiday let economy in West Wales and its effect on the tourism sector

Our study responds to the growing trend of the holiday-let economy in rural and coastal parts of the UK including West Wales, in the aftermath of the Covid-19 pandemic. While providing a source of income for local people, holiday let tourism has wider implications for the social and economic sustainability of communities (House of Commons, 2022, Colomb and Gallent, 2022). The question that we set out to answer is whether local economies are benefitting from the increased number of holiday lets, through more visits to attractions and greater use of rural businesses and services. In this scoping study we explore the relationship between the rise of holiday letting and the tourism economy in West Wales.

The main objective is to gauge the size of the holiday let economy in West Wales. This was accomplished by mapping the share of stock used as holiday lets, in Ceredigion, Gwynedd and Pembrokeshire, using GIS mapping. The data was obtained from county councils, and the maps created, using ArcInfo.

The other objective is to explore the potential linkages between the expansion of the holiday let market and the performance of the tourism sector in West Wales. This was accomplished through interviews with 15 tourism businesses and attractions in Ceredigion, Pembrokeshire and Powys. Interview analysis indicated that there are other factors at play, such as the cost-of-living crisis, which have affected businesses alongside the availability and use of holiday accommodation. The findings of our study would be particularly useful for informing policy on regulating holiday lets.

Maria Plotnikova, Aberystwyth University



Archwilio effeithiolrwydd egwyddorion economi gylchol wrth fynd i'r afael â gwastraff bwyd ac ansicrwydd bwyd

Mutala Fuseini, Prifysgol Caerdydd

Examining the Effectiveness of Circular Economy Principles in Addressing Food Waste and Food Insecurity

Mutala Fuseini, Cardiff University



Tu hwnt i'r traeth: Archwilio penderfynyddion iechyd mewn trefi glan môr bychain yng Nghymru.

Mae pobl nad ydynt yn byw ger y môr yn aml yn genfigennus o'r rhai sy'n gwneud hynny wrth i ni gysylltu glan y môr â heulwen a gwyliau. Ond i'r rhai sy'n byw mewn Trefi Glan Môr Bychain (SST) drwy gydol y flwyddyn, mae'r realiti'n gallu bod yn eithaf gwahanol. Mae SST yn drefi sydd â thraeth i dwristiaid ac at-yniadau i ymwelwyr. Gall pobl sy'n byw yn y trefi hyn brofi disgwyliad oes byrrach a mwy o broblemau iechyd o'u cymharu ag ardaloeedd eraill yng Nghymru. Nid oherwydd y lleoliad daearyddol yn unig, ond hefyd oherwydd bod diwydiannau a arferai ddominyddu'r cymunedau hyn fel pysgota wedi dirywio. Mae penderfynyddion cymdeithasol fel cyflogaeth a mynediad at addysg yn effeithio ar iechyd, ac nid ydynt yn effeithio ar bawb yn yr un ffordd. Mewn SST, mae swyddi'n fwy tebygol o fod yn sgiliau isel neu'n rhan-amser. Gall addysg uwch fod ymhellach i ffwrdd hefyd. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd cyflogaeth a'r gallu i ennill mwy o arian. Mae SST hefyd yn wynebu heriau o ran argaeledd tai, trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad at wasanaethau fel gofal iechyd. Mae risgiau newid yn yr hinsawdd yn gwaethyg u rhai o'r materion hyn. Mae nodi'r penderfynyddion cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd yn hanfodol er mwyn sicrhau iechyd da a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r ymchwil hon yn archwilio saith SST yng Nghymru. Gan ddefnyddio data eilaidd, yn gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), mae'n tynnu sylw at feysydd gweithredu ac yn gwneud argymhellion ar gyfer ffyrdd o wella iechyd y boblogaeth mewn SST.

Nova Corcoran, Prifysgol De Cymru

Beyond the beach: Exploring the social determinants of health in small seaside towns in Wales .

People who don't live by the sea often envy those who do as we associate the seaside with sunshine and holidays. But for those living in Small Seaside Towns (SSTs) all year round the reality can be quite different. SSTs are towns with a tourist beach and visitor attractions. People living in these towns can experience shorter life expectancy and more health problems in comparison to other areas of Wales. This is not just because of the geographical location but also because industries that used to dominate these communities such as fishing have declined. Social determinants like employment and access to education impact health, and they do not affect everyone in the same way. In SSTs, jobs are more likely to be low-skilled or part-time. Higher education may also be further away. This reduces employment opportunities and the ability to earn more money. SSTs also experience challenges in housing availability, public transport and access to services like healthcare. Climate change risks exacerbate some of these issues. Identifying the social determinants that impact health is essential for securing good health and reducing inequalities. This research explores seven SSTs in Wales. Using secondary data, including the Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD), it highlights areas for action and makes recommendations for ways to improve population health in SSTs.

Nova Corcoran, University of South Wales



Canfyddiadau o dosturi a gofal tosturiol i bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol

Ricardo Rossouw, *Prifysgol de Cymru*

Perceptions of compassion and compassionate care to people of ethnic minority groups

Ricardo Rossouw, *University of South Wales*



'Ystyriol o Drawma': Nodi Iaith Allweddol a Therminoleg drwy Adolygu'r Llenyddiaeth

Cefndir: Dros y degawdau diwethaf, mae'r cysyniad o ddull sy'n ystyriol o drawma wedi ennill momentum, foddy bynnag, pwysleisiodd adroddiad gan Lywodraeth Cymru (2021) er y ceisiwyd hyrwyddo cefnogaeth sy'n ystyriol o drawma, bod diffyg eglurder o ran yr iaith a'r diffiniadau a ddefnyddir.

Nodau'r Astudiaeth: Nod yr astudiaeth hon oedd edrych ar y derminoleg a'r iaith a ddefnyddir yn gysylltiedig â'r cysyniad o ymarfer sy'n ystyriol o drawma; asesu sut roedd diffiniadau wedi newid dros amser; a sut y rhoddwyd y cysyniad o ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar waith ar draws gwahanol lleoliadau. Cyfrannodd y canfyddiadau at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a chyfrannodd at y penderfyniad i gyd-baratoi diffiniad o'r hyn a olygir gan ymarfer sy'n ystyriol o drawma yng Nghymru.

Dulliau: Roedd dau gam i'r adolygiad. Yn ystod cam un cynhaliwyd chwiliad eang o'r llenyddiaeth yn ym-wneud â diffiniadau a modelau allweddol. Yng Nham Dau cynhaliwyd 'adolygiad o'r adolygiadau' i nodi adolygiadau systematig o lenyddiaeth sy'n gysylltiedig â dulliau ac ymyriadau sy'n ystyriol o drawma.

Canfyddiadau: Nid oedd diffiniad cyffredinol y cytunwyd arni o ran ymarfer sy'n 'ystyriol o drawma' a nodwyd bod hyn yn rhwystr i greu systemau sy'n ystyriol o drawma. Yn ogystal â hyn, roedd dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu gweithredu'n wahanol ar draws lleoliadau ac roedd angen consensws o ran elfennau gofal sy'n ystyriol o drawma. Mae'r ffaith nad oes diffiniad cyson hefyd yn effeithio ar y gallu i werthuso effeithiolwydd dulliau o'r fath.

Casgliad: Roedd diffyg eglurder o ran y diffiniad gweithredol, ac mae hyn yn rhwystr i greu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma, yn ogystal â chael effaith ar y gallu i weithredu a gwerthuso dulliau o'r fath yn gyson.

Dr Samia Addis, Hyb ACE Cymru

Dr Tegan Brierley-Sollis, Prifysgol Wrecsam

'Trauma-Informed': Identifying Key Language and Terminology through a Review of the Literature

Background: Over the past decades, the concept of a trauma-informed approach has gained momentum, however a Welsh Government report (2021) highlighted that while there has been a drive to encourage trauma-informed support, there was a lack of clarity in respect of the language and definitions used.

Study Aims: The aim of this study was to explore the terminology and language in use around the concept of trauma-informed; to assess how definitions had changed over time; and how trauma-informed was operationalised across different settings. The findings contributed to the evidence base for the development of the Trauma-informed Wales Framework and fed into the decision to co-produce a definition of what is meant by trauma-informed within Wales.

Methods: This was a two-stage review. Stage one was a wide-ranging search of the literature relating to definitions and key models. Stage Two was a 'review of reviews' to identify systematic reviews of literature related to trauma-informed approaches and interventions.

Findings: There was no universally agreed upon definition of 'trauma-informed' and this was identified as a barrier to creating trauma-informed systems. Additionally, trauma-informed approaches were implemented differently across settings and a consensus on the components of trauma-informed care was needed. The lack of consistent definition also impacts on the ability to evaluate the effectiveness of such approaches.

Conclusion: There was a lack of clarity in terms of the operating definition, and this is a barrier to creating trauma-informed services, as well as having an impact on the ability to consistently implement and evaluate such approaches.

Dr Samia Addis, ACE Hub Wales

Dr Tegan Brierley-Sollis, Wrexham University



@samiaaddis | @PublicHealthW | @lechydCyhoeddus | @WrexhamUni | @prifwrecsam

Hawliau Plant, Brwydr y Ddaear: Llywio Atebolrwydd Cenedlaethol ar gyfer plant yn Affrica sydd wedi'u heffeithio gan y Newid yn yr Hinsawdd.

Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith andwyol ar ystod eang o hawliau plant yn Afrika megis yr hawl i fywyd, yr hawl i iechyd, yr hawl i addysg ac eraill. Disgwylir i'r effeithiau niweidiol waethyg. Fodd bynag, mae'r atebolrwydd dros y toriadau hyn yn ddifygiol iawn. Plant yn Afrika yw'r grwpiau mwyaf agored i niwed o ran effaith newid yn yr hinsawdd, ond mae cyfraniad bach iawn y cyfandir yn ei gyfanrwydd at achosi newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yr ateb mwyaf effeithiol yn y fforymau rhyngwladol.

Mewn ymgais i sicrhau atebolrwydd, mae'r papur yn ffocysu ar un o'r elfennau allweddol ar gyfer atebolrwydd, sef sefydlu cyfrifoldeb cyfreithiol. Cyfeirir yn aml at heriau cyfreithiol wrth gymhwysos y cyfreithiau hawliau dynol i faterion newid yn yr hinsawdd. Mae natur drawsffiniol y niwed a achosir gan newid yn yr hinsawdd yn codi'r heriau sy'n gysylltiedig â chymhwysos normau hawliau dynol yn alldiriogaethol. Ar ben hynny, mae natur wasgaredig newid yn yr hinsawdd, gyda nifer o ffactorau ac actorion yn cyfrannu at y ffenomen a'r datgysylltiad rhwng y prif allyrwyd a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf yn codi pryderon yngylch y syniad o gyfrifoldeb ac achosiaeth y wladwriaeth. Mae'r papur yn dadansoddi'r rhwystrau hyn ac yn cynnig ffyrrd o'u goresgyn. Mae'n dadlau ymhellach bod normau ac egwyddorion hawliau plant yn dod â gwerthoedd ychwanegol i'r disgwrs yngylch newid yn yr hinsawdd. Mae'r dadansoddiad yn cabwyntio ar blant Africanaidd, fel un o'r grwpiau yr effeithir fwyaf arnynt gan newid yn yr hinsawdd a'u hawl i gael rhwymedi mewn fforymau rhyngwladol o atebolrwydd lle mae plant Africanaidd a'r gwledydd sydd fwyaf cyfrifol am newid yn yr hinsawdd yn cwrdd.

Samrawit Getaneh Damtew, Prifysgol Caerdydd

Child's Rights, Earth's Fight: Navigating International Accountability for African children affected by Climate Change

Climate change adversely affects a wide range of children's rights in Africa such as right to life, right to health, right to education and others. The adverse impacts are expected to exacerbate. However, accountability for these violations is severely lacking. Children in Africa are among the most vulnerable groups to the impact of climate change, however the negligible contribution of the continent as a whole to causing climate change means that the most effective remedy lies in the international fora.

In a quest for accountability, the focus of the paper is on one of the key elements for accountability, which is establishing a legal responsibility. There are various commonly cited legal challenges in applying human rights laws to climate change issues. The transboundary nature of the harm caused by climate change raises the challenges associated with extraterritorial application of human rights norms. Furthermore, the diffused nature of climate change, with multiple factors and actors contributing to the phenomenon and the disconnect between the major emitters and most affected communities raises concerns over the notion of state responsibility and causation. The paper analyses these barriers and proposes ways of overcoming them, it further argues that children's rights norms and principles bring added values to the discourse of climate change. The analysis focuses on African children, as one of the most affected groups by climate change and their right to a remedy at international forums of accountability where both African children and nations most responsible for climate change meet.

Samrawit Getaneh Damtew, Cardiff University



Cydlunio a chydweithio gwledig: manteisio i'r eithaf ar asedau cymunedol gwledig i leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n seiliedig ar leoedd

Mae gwasanaethau cymunedol fel grwpiau ymarfer corff, gweithgareddau awyr agored a therapiâu celfyddydau yn cael eu 'presgripsiynu' fwyfwy i fynd i'r afael â chyflyrau iechyd meddwl, diffyg ymarfer corff ac anghydraddoldebau iechyd. Er gwaethaf mwy o gydnabyddiaeth i'r manteision possibl, nid yw ymyriadau o'r fath ar gael i bawb, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae ynysigrwydd cymdeithasol, amddifadedd ac anghydraddoldeb iechyd yn gallu aros yn guddiedig. Mae ardaloedd gwledig yn darparu heriau unigryw ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, a hynny o ganlyniad i'r heriau economaidd a logistaidd a wynebir mewn ardaloedd daearyddol mawr gyda phoblogaethau gwasgaredig. Drwy weithio'n agos gyda chymunedau gwledig, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sefydliadau'r trydydd sector, ein nod yw manteisio i'r eithaf ar asedau cymunedol (e.e. amgueddfeydd, llyfrgelloedd, safleoedd diwylliannol/mannau gwyrdd) i hyrwyddo iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Cwestiynau ymchwil:

- 1 Beth yw'r bylchau mewn data gwledig wrth ganfod, mesur a lleihau anghydraddoldebau iechyd gwledig?
- 2 Sut gall trigolion cymunedol chwarae rhan weithredol mewn mapio asedau lleol, asesu anghenion a chynllunio gwasanaethau?
- 3 Sut gellir manteisio i'r eithaf ar werth asedau cymunedol i wella iechyd y boblogaeth a gwella gwasanaethau gwledig?

Sut gellir integreiddio asedau cymunedol gwledig yn effeithiol â systemau gofal iechyd statudol ar raddfa fawr er mwyn sicrhau'r buddion gorau possibl, yn enwedig i'r rhai mwyaf difreintiedig?

Gan ddefnyddio dull cydlunio, bydd y prosiect yn datblygu model gwledig ar gyfer gweithio cymunedol cydweithredol drwy grwpiau rhanddeiliaid lleol, a fydd yn cynnwys trigolion sydd â phrofiadbywyd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sefydliadau trydydd sector. Bydd yn rhedeg am 3 blynedd, sef 2024-27, gan ychwanegu at dystiolaeth yngylch cydgynhyrchu, ymgysylltu â'r gymuned, dylunio gwasanaethau gwledig a defnyddio asedau cymunedol, a chynnig gwybodaeth newydd ar anghydraddoldebau iechyd ar gyfer datblygu polisi gwledig ledled y DU. Nod y prosiect yw ehangu ymgysylltiad y gymuned ag adnoddau lleol i ehangu'r manteision iechyd a lles i'r rhai sy'n wynebu'r anfantais fwyaf.

Dr Sara Bradley, Prifysgol De Cymru

Rural co-design and collaboration: maximising rural community assets to reduce place-based health inequalities

Community-based services like exercise groups, outdoor activities and art therapies are increasingly 'prescribed' to address mental health conditions, sedentary lifestyles and health inequalities. Despite greater recognition of potential benefits, such interventions are not universally accessible, particularly in rural areas, where the extent of social isolation, deprivation and health inequality can remain hidden. Rural areas provide unique challenges for service delivery due to economic and logistical challenges in large geographical areas with dispersed populations. By working closely with rural communities, healthcare professionals and third sector organisations, we aim to maximise the use of community-based assets (e.g. museums, libraries, cultural sties/green spaces) to promote health and well-being and reduce health inequalities.

Research questions:

- 1 What are the gaps in rural data when identifying, measuring and reducing rural health inequalities?
- 2 How can community residents have active roles in local asset mapping, needs assessment and service design? 3 How can the value of community assets be maximised to improve population health and enhance rural services?

How can rural community assets be integrated effectively with statutory healthcare systems at scale to maximise benefits, particularly the most disadvantaged?

Taking a co-design approach, the project will develop a rural model for collaborative community working through local stakeholder groups, which will comprise residents with lived experience, healthcare professionals and third sector organisations. It will run for 3 years 2024-27, adding to evidence on co-production, community engagement, rural service design and using community assets, offering new insights on health inequalities for UK-wide rural policy development. The project aims to widen community engagement with local resources to extend health and well-being benefits to those experiencing greatest disadvantage.

Dr Sara Bradley, University of South Wales



Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (ERDEU) Llywodraeth Cymru

Cafodd Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (ERDEU) Llywodraeth Cymru eu sefydlu yn 2022 i wella argaeledd, ansawdd a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig er mwyn i ni ddeall yn llawn y lefel a'r mathau o anghydraddoldebau ledled Cymru. Yn ei dro, mae'r gwaith hwn yn galluogi llunwyr polisi i ddatblygu polisiau sy'n ein hysgogi i sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig, a Chymru sy'n fwy cyfartal fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn y sesiwn hon, bydd dadansoddwyr o ERDEU yn rhoi trosolwg o'u gwaith datblygu mewn perthynas â thystiolaeth a data cydraddoldeb. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- y rhwystrau a'r heriau cynhenid a wynebir wrth ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cydraddoldeb,
- gwerth gwahanol fathau o dystiolaeth (ansoddol, meintiol a phrofiad bywyd),
- pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd drwy gydol y broses dystiolaeth
- dadansoddiad croestoriadol o ddata grŵp ethnig, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol, gan ddangos sut mae dadansoddiad manylach yn ôl nodwedd warchodedig yn datgelu heterogenedd cudd blaenorol yn yr is-boblogaethau sylfaenol.

Scott Clifford, Senedd Cymru

The Welsh Government's Equality, Race and Disability Evidence Units (ERDEU)

The Welsh Government's Equality, Race and Disability Evidence Units (ERDEU) were established in 2022 to improve the availability, quality and accessibility of evidence about individuals with protected and associated characteristics so that we fully understand the level and types of inequalities across Wales. In turn, this work enables policy makers to develop policies which drive us towards better outcomes for people with protected and associated characteristics and a more equal Wales as set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

In this session, analysts from the ERDEU will give an overview of their development work in relation to equalities evidence and data. In particular, focussing on:

- the inherent barriers and challenges faced in the development of a robust equalities evidence base,
- the value of different types of evidence (qualitative, quantitative, and lived experience),
- the importance of involving people with lived experience throughout the evidence process,
- the intersectional analysis of ethnic-group, disability and sexual orientation data, thereby demonstrating how more granular analysis by protected characteristic uncovers previously hidden heterogeneity within the underlying sub-populations.

Scott Clifford, Welsh Government



@WelshGovernment | @LlywodraethCym

Gwersi gan profiadau rhanddeiliaid yn y Gronfa lach ac Egniol.

Crynodeb:

Rydym wedi cwblhau astudiaeth ansodol gan ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig i archwilio profiadau dylunio a chynnal gwerthusiadau wrth ddarparu prosiectau a ariennir sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol a lles meddyliol. Roedd cynllun gan Lywodraeth Cymru o'r enw Y Gronfa lach ac Egniol yn cefnogi prosiectau cymunedol i ddarparu gweithgarwch corfforol ac ymyriadau lles meddyliol, gan gyrraedd pobl a oedd yn llai tebygol o fod yn egniol drwy gydol eu hoes ac a oedd yn wynebu rhwystrau ychwanegol i weithgarwch corfforol a lles meddyliol. Roedd Y Gronfa lach ac Egniol yn unigryw o ran ei dull o wreiddio fframweithiau gwerthuso yn y gwaith o ddarparu prosiectau ac mae'n cynnig cyfle i ddeall yn well yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer gwerthuso yn y lleoliadau hyn. Fe wnaethom gyfweld aelodau prosiect Y Gronfa lach ac Egniol a oedd â rolau arwain, rheoli, cyflawni a gwerthuso mewn prosiectau, ac archwilio eu profiadau nhw o ofynion gwerthuso ar gyfer cyflawni (hynny yw cynllunio, casglu data, cyflawni o ran allbwn, ac effaith). Fe wnaeth yr astudiaeth ddatgelu pa mor bwysig yw cael lefel strwythurol gyson o gefnogaeth gan y cylldwr, gan gofnodi effaith, ac addasu a dysgu wrth werthuso ymyriadau gweithredol ar draws cymunedau. Roedd hi'n anodd llenwi holiaduron hunan-adrodd safonol ar gyfer casglu data rhai poblogaethau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys pobl sydd â phryderon ychwanegol am les meddyliol. Roedd rhwystrau ehangach hefyd, fel ynysu daearyddol, pobl a oedd yn gaeth i'w cartrefi neu'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, a phobl lle roedd allgáu digidol yn effeithio arnynt, a oedd yn golygu ei bod hi'n anodd goresgyn y rhwystrau hyn yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd cydraddoldeb a chynhwysiant ymhliith nodau craidd y prosiectau hyn, a nodwyd sawl hwylusydd cyflawni i wella lefelau cadw a bodlonwydd pobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, er mwyn darparu gwasanaethau pwrpasol a chefnogi canlyniadau. Mae'r profiadau gwerthuso hyn yn tynnu sylw at y rhwystrau sy'n parhau o ran ymgysylltu â phobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, yn ogystal â ffyrdd o oresgyn materion cyffredin sy'n ymwneud â chynllunio a gweithgareddau gwerthuso. Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o arferion ar lefel gymunedol o ran adrodd ar ddata, monitro prosesau a systemau, a allai fod yn heriol i'w teilwra a'u cynnal.

Vasiliki Kolovou, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lessons from stakeholder experiences in the Healthy and Active Fund

Summary:

We have completed a qualitative study used semi-structured interviews to explore experiences with designing and conducting evaluations to physical activity and mental well-being delivery of funded projects. A Welsh Government initiative called the Healthy and Active Fund (HAF) supported community-based projects to deliver physical activity and mental well-being interventions, reaching people who were less likely to be active throughout their lifetime and face additional barriers to physical activity and mental well-being. HAF was unique in its approach to embedding evaluation frameworks into project delivery and offers an opportunity to better understand the challenges and opportunities for evaluation in these settings. We interviewed HAF project members who held leadership, management, delivery and evaluation roles in projects, and explored their experiences of evaluation requirements for delivery (i.e., planning, data collection, output delivery, and impact). The study revealed the importance of having a consistent structural level of support from the funder, capturing impact, and adapting and learning when evaluating active interventions across communities. Standardised self-reporting questionnaires for data collection proved challenging to complete for some under-served populations, including those with additional mental well-being concerns. Wider barriers such as geographical isolation, populations that were home-bound, or live with long-term health conditions, and were impacted by digital exclusion were especially difficult to overcome during the COVID-19 pandemic. Equality and inclusion were among core goals for these projects, and several facilitators of delivery were identified to improve retention and satisfaction of under-served populations, to deliver bespoke services and support outcomes. These evaluation experiences highlight the barriers that persist in engaging under-served populations and ways to overcome common issues to evaluation planning and activities. This study contributes to our understanding of community-level practices in data reporting, monitoring processes and systems, that might be challenging to tailor and maintain.

Vasiliki Kolovou, Public Health Wales



Sut mae difeddiant dan arweiniad y wladwriaeth yn effeithio ar drigolion lleol yn Shanghai?

Mae'r ymchwil hon yn astudio cymdogaeth Lilong draddodiadol yn Shanghai sydd wedi profi boneddigion eiddio dan arweiniad y wladwriaeth. Roedd yr holl breswylwyr wedi symud allan o'u hen dai erbyn mis Awst 2020. Defnyddiodd y gwaith ymchwil hwn gyfweliadau lled-strwythur dig yn bennaf, ynghyd â dull awtoethnograffig, gan fabwysiadu rhai o brofiadau a theimladau personol yr ymchwilydd. Nod yr ymchwil yw archwilio sut mae difeddiannu dan arweiniad y wladwriaeth yn effeithio ar fywydau preswylwyr. Yn gryno, mae'r ymchwil hon yn dangos sut mae boneddigeiddio dan arweiniad y wladwriaeth yn effeithio ar fywydau, emosiynau, perthnasoedd teuluol, perthnasoedd cymdogaeth, a'u dulliau go iawn i ddigoll-edu am dai. Fel astudiaeth achos o foneddigeiddio dan arweiniad y wladwriaeth yn y Dwyrain byd-eang, gall ei nodweddion cyffredin a phenodol nid yn unig gyfoethogi cysyniadau a damcaniaethau boneddigeiddio dan arweiniad y wladwriaeth yn y Dwyrain byd-eang, ond hefyd ailgysyniadoli, herio, a thalu teyrnged i gysyniadau a damcaniaethau boneddigeiddio clasurol yn y Gogledd byd-eang, fel cyfraniad at boneddigeiddio ar draws y blaned.

Wenchen Lu, Prifysgol Caerdydd

How state-led expropriation affects local residents in Shanghai?

This research studies a Shanghai traditional Lilong neighbourhood that has experienced state-led gentrification. All residents had moved out of their old houses by August 2020. This research mainly used semi-structured interviews, combined with an autoethnographic method, adopting some of the researcher's personal experiences and feelings. The research aim is to explore how state-led expropriation affects residents' lives. In summary, this research illustrates how state-led gentrification affects residents' lives, emotions, family relationships, neighbourhood relationships, and their actual housing compensation methods. As a case study of state-led gentrification in the global East, its commonality and particularity can not only further enrich the concepts and theories of state-led gentrification in the global East, but also reconceptualise, challenge, and pay tribute to the concepts and theories of classic gentrification in the global North, as a contribution to planetary gentrification.

Wenchen Lu, Cardiff University



@cardiffuni

Arddangoswyr a Noddwyr | Exhibitors and Sponsors
Diolch i'n harddangoswyr a'n noddwyr | Thank you to our exhibitors and
sponsors




**Ysgol Graddedigion Gwyddorau
Cymdeithasol Cymru**
**Welsh Graduate School
for the Social Sciences**



IECHYD A GOFAL GWLEDIG CYMRU
RURAL HEALTH AND CARE WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



YDG | ADR
CYMRU | WALES

P Policy Press
PUBLISHING WITH A PURPOSE



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES